# Adolygiad o achosion yr IOPC yn cynnwys y defnydd o Taser 2015-2020

# Cynnwys


1. Rhagair ... 4
2. Crynodeb gweithredol ... 6
   2.1 Trosolwg ... 6
   2.2 Prif ganfyddiadau ... 7
   2.3 Argymhellion ... 12
3. Cefndir ... 18
   3.1 Defnydd o Taser ... 18
   3.2 Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau ... 20
   3.3 Rôl yr IOPC wrth graffu ar y defnydd o Taser ... 21
4. Amcanion, methodoleg a chyfyngiadau ... 24
   4.1 Amcanion ... 24
   4.2 Methodoleg ... 24
   4.3 Cyfyngiadau ... 25
5. Adolygiad o dystiolaeth bresennol ... 26
   5.1 Lefelau o'r defnydd o Taser yng Nghymru a Lloegr ... 27
   5.2 Math o ddefnydd o Taser ... 28
   5.3 Nodweddion pobl sydd ynghlwm â digwyddiadau Taser ... 31
   5.4 Nodweddion amgylcheddol a sefyllfaol y defnydd o Taser ... 36
   5.5 Marwolaethau ac anafiadau ... 38
   5.6 Anghyfartaledd ethnig ... 40
6. Canfyddiadau o'n hymchwiliad ... 44
   6.1 Mathau o ymchwiliadau ... 44
   6.2 Canlyniadau o'n hymchwiliadau ... 49
   6.3 Sut a phryd y defnyddiwyd Taser ... 54
   6.4 Effaith a ffactorau risg wrth ddefnyddio Taser ... 73
   6.5 Gweithredoedd, canfyddiadau ac ymddygiad swyddogion ... 90
   6.6 Anghyfartaledd a gwahaniaethu ... 94
   6.6 Materion eraill a nodwyd gan yr adolygiad hwn ... 104
7. Safbwyntiau'r gymuned a rhanddeiliad ... 109

7.1 Defnyddio Taser yn erbyn pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ........ 110
7.2 Defnyddio Taser ar blant ........ 113
7.3 Defnyddio Taser ar bobl â phryderon iechyd meddwl a chorfforol ........ 114
7.4 Defnydd diangen neu afresymol o Taser ........ 115
7.5 Polisi, canllawiau a hyfforddiant Taser ........ 116
7.6 Tryloywder, craffu, monitro ac atebolrwydd ........ 118
7.7 Rôl Taser mewn marwolaethau ........ 120
7.8 Cynyddu'r defnydd o Taser ........ 122
8. Argymhellion ........ 124
8.1 Canllawiau a hyfforddiant ........ 124
8.2 Craffu a monitro ........ 129
8.3 Data ac ymchwil ........ 133
8.4 Ymgysylltiad a mewnbwn cymunedol ........ 135

# 1. Rhagair

Mae'r amgylchiadau lle mae swyddogion heddlu yn defnyddio Taser yn faes o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd.

Mae Tasers yn darparu amddiffyniad gwerthfawr i'r heddlu a'r gymuned mewn sefyllfaoedd peryglus. Gall yr heddlu ddefnyddio Tasers fel opsiwn i ddatrys sefyllfaoedd, gan gynnwys y bygythiad o drais difrifol, pan fyddant yn ystyried y defnydd o Taser yn rhesymol a chymesur i'r bygythiad a wynebant.

Bellach mae Tasers ar gael i fwy o swyddogion heddlu nag erioed o'r blaen, gyda rhai heddluoedd yn ymrwymo i'w darparu i bob swyddog rheng flaen sy'n dymuno cario un. Dengys data'r Swyddfa Gartref y defnyddiwyd Taser mewn 17,000 o ddigwyddiadau yn 2017/18, gan bron â dyblu i oddeutu 32,000 o ddigwyddiadau yn 2019/20.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni chaiff Taser ei danio - gall y bygythiad yn unig helpu i ddatrys digwyddiad. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau cymunedol a sefydliadau wedi mynegi pryderon yn barhaus am y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio Taser, yn benodol yng nghyd-destun marwolaethau ac anafiadau difrifol, eu defnydd yn erbyn plant ac oedolion bregus, a'r gwahaniaethu ar sail hil wrth ddefnyddio Taser.

Fel corff annibynnol, mae ein goruchwyliaeth yn helpu i daflu goleuni ar faterion a welwn yn ein hymchwiliadau a thrwy bryderon a godir gan grwpiau cymunedol a sefydliadau.

Comisiynwyd yr adroddiad hwn yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau yn cynnwys dynion a phobl ddu â phryderon iechyd meddwl ar ddechrau 2020. Adolygasom 101 o achosion yn cynnwys y defnydd o Taser yr ymchwiliwyd iddynt gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), neu ein rhagflaenydd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC), rhwng 2015 a 2020.

Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i gyflwyno darlun cynrychioladol llawn o sut y defnyddir Taser ledled Cymru a Lloegr, oherwydd dim ond yr achosion mwyaf difrifol a sensitif yr ymchwiliwn iddynt. Fodd bynnag, yr achosion hyn sy'n cael yr effaith fwyaf ar hyder y gymuned ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu.

Mae'n iawn fod y defnydd o Taser yn cael ei ddadansoddi'n agos i sicrhau bod y ddyfais yn cael ei defnyddio'n briodol ac nid yn ddiofyn pan all opsiynau eraill fod ar gael.

Rhaid i heddluoedd allu cyfiawnhau i'r cyhoedd yr amgylchiadau lle defnyddir Taser, yn benodol pan fo plant a phobl fregus ynghlwm. Rhaid i luoedd ymateb i'r defnydd anghyfartal o Taser yn erbyn pobl Ddu hefyd.

I'r perwyl hwnnw, rwy'n croesawu'r ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) a'r Coleg Plismona (CoP) i ddeall a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol gwahaniaethu ar sail hil yn nefnydd yr heddlu o Taser. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r gwaith cadarnhaol a rhagweithiol sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Randdeiliaid Taser yn y maes hwn.

Canfu ein hadolygiad enghreifftiau o Taser yn cael ei ddefnyddio mewn lleoliadau neu amgylchiadau a allai fod yn anniogel. Canfuom dystiolaeth nad oedd swyddogion wedi ystyried y risg bosibl o anaf i unigolion yn briodol fel rhan o'u hasesiad risg parhaus.

Mewn chwarter o achosion a adolygwyd gennym defnyddiwyd Taser er mwyn cydymffurfio. Mewn ychydig o dan draean o'r achosion, nodasom gyfleoedd posibl a gollwyd i swyddogion dawelu sefyllfaoedd.

Rydym yn bryderus am y defnydd cynyddol o Taser ar blant (11-17 oed), ac ar bobl fregus gyda phroblemau iechyd meddwl neu gyffuriau ac alcohol.

Mae ein hadroddiad yn gwneud 17 argymhelliad cenedlaethol wedi'u hanelu at wella canllawiau a hyfforddiant presennol i swyddogion, yn enwedig o amgylch sgiliau cyfathrebu a thawelu. Rydym hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd mwy o graffu ar y defnydd o Taser ar lefel leol a chenedlaethol.

Drwy gydol ein gwaith, gwnaethom ymgysylltu â nifer o randdeiliaid fel rhan o'n trafodaethau a diolchwn iddynt am eu hadborth adeiladol a defnyddiol.

Rydym yn cydnabod bod Tasers yn arf pwysig wrth blismona. Fodd bynnag, os na eir i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn ein hadroddiad, mae risg y bydd yr heddlu yn colli ymddiriedaeth a hyder y cymunedau a wasanaethant.



**Michael Lockwood**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC**

# 2. Crynodeb gweithredol

## 2.1 Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau yn dilyn adolygiad o 101 o ymchwiliadau annibynnol yr IOPC yn cynnwys y defnydd o Taser rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2020.

Nid yw wedi'i fwriadu i gyflwyno darlun cynrychioladol llawn o sut y defnyddir Taser ledled Cymru a Lloegr, oherwydd dim ond yr achosion mwyaf difrifol a sensitif yr ymchwiliwn iddynt.

Ein nod wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn yw cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth gynyddol o amgylch y defnydd o Taser, helpu i ddatblygu dealltwriaeth fwy trylwyr o ganfyddiadau grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid o Taser, a gwella hyder y cyhoedd mewn plismona drwy atebolrwydd, ymgysylltu a thryloywder.

Caiff Tasers eu cydnabod yn rhyngwladol fel arfau heddlu defnyddiol a gallant fod yn effeithiol wrth ddatrys sefyllfaoedd peryglus. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid wedi dweud wrthym am bryderon cynyddol, yn benodol am y defnydd anghyfartal o Taser yn erbyn dynion Du, pobl â phryderon iechyd meddwl a'i ddefnydd ar blant.

Mae gan rai sefydliadau cenedlaethol, academyddion ac aelodau o'r gymuned bryderon y gallai Taser gael ei ddefnyddio fel opsiwn diofyn lle gallai opsiynau tactegol eraill fod yn fwy effeithiol.

Drwy ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol, mae'n glir bod gwahaniaeth rhwng disgwyliadau'r gymuned ynglŷn â phryd y dylid defnyddio Taser, a'r sefyllfaoedd lle gellir defnyddio Taser yn gyfreithlon o dan y canllawiau cenedlaethol presennol. Adnabuwyd hyn gan ein sefydliad rhagflaenol hefyd[1].

Ym mis Mai 2020, galwasom am fwy o graffu, tryloywder, a goruchwylio cadarn o'r defnydd o Taser gan arweinwyr cenedlaethol a lleol i ddarparu sicrwydd i'r cyhoedd a meithrin hyder[2].

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd sylfaen dystiolaeth wedi'i llywio gan:

- ddadansoddiad o ddata a llenyddiaeth bresennol
- adolygiad o 101 o ymchwiliadau annibynnol yr IOPC a oedd yn cynnwys y defnydd o Taser dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2015 a 2020
- safbwyntiau a phryderon a fynegwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid i'r IOPC drwy ein gwaith ymgysylltu

O'r 101 o ymchwiliadau annibynnol a adolygwyd gennym:

- Defnyddiwyd Taser ar 108 o bobl. Taniwyd Taser yn erbyn 94 o bobl.

---

[1] IPCC (2014). Adolygiad yr IPCC o gwynion a digwyddiadau Taser 2004-2013. Cyrchwyd o https://www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/use_of_force_review_of_taser_complaints_and_incidents.pdf

[2] Datganiad i'r wasg yr IOPC (14 Mai 2020) Yr IOPC yn galw am fwy o graffu ar y defnydd o Taser yn dilyn pryderon cynyddol. Cyrchwyd o https://www.policeconduct.gov.uk/news/iopc-calls-greater-scrutiny-taser-use-following-increasing-concerns

- Roedd 71% o'r unigolion yn Wyn, 22% yn Ddu, llai na phedwar y cant (4%) yn Asiaidd a llai na dau y cant (2%) o ethnigrwydd cymysg
- Yr oedran cyfartalog oedd 35 oed; roedd chwech o bobl o dan 18 oed
- Arweiniodd 26 o ymchwiliadau at achos i'w ateb neu atgyfeiriad i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS)
- Cyhoeddwyd 42 o argymhellion dysgu cyfundrefnol mewn perthynas ag 16 o achosion

## 2.2 Prif ganfyddiadau

### Math o ddefnydd o Taser

Dengys data'r Swyddfa Gartref[3] fod y nifer o weithiau y defnyddiwyd Taser wedi cynyddu, gyda Tasers yn cael eu defnyddio mewn oddeutu 32,000 o ddigwyddiadau yn 2019/20. Gallai'r cynnydd hwn adlewyrchu gwelliant mewn arferion cofnodi'r heddlu. Gallai hefyd adlewyrchu'r cynnydd mewn swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Taser a nifer y Tasers ar gael mewn heddluoedd (yn seiliedig ar asesiadau strategol o fygythiad a risg heddluoedd), neu swyddogion yn delio â mwy o ddigwyddiadau â'r potensial ar gyfer gwrthdaro.

Defnyddiwyd Taser mewn 5% o bob digwyddiad lle defnyddiwyd grym yn 2017/18 a 2018/19, a 7% o ddigwyddiadau yn 2019/20. Defnyddiwyd Taser yn llai aml o lawer nag atal ar y llawr a sgiliau atal heb arfau[4] ond fe'i defnyddir mewn mwy o ddigwyddiadau na phob math arall o offer, yn cynnwys chwistrell lidus a batonau.

Dengys data'r Swyddfa Gartref yn y rhan fwyaf o achosion lle defnyddir Taser, ni chaiff ei danio, gyda llai na 12% o ddigwyddiadau yn cynnwys tanio Taser. O'i gymharu, roedd y rhan fwyaf o'r achosion yr ymchwiliwyd iddynt gennym yn cynnwys tanio Taser. Dyma adlewyrchiad o'r ffaith ein bod yn ymchwilio i'r achosion mwyaf difrifol a sensitif.

### Defnyddio Taser mewn lleoliadau neu amgylchiadau anniogel posibl

Roedd pedwar ar ddeg o'r achosion a adolygasom yn cynnwys y defnydd o Taser mewn lleoliadau neu amgylchiadau anniogel posibl. Yn yr achosion hyn, canfuom dystiolaeth nad oedd swyddogion wedi ystyried y risg bosibl o anaf i unigolion, yn

[3] Y Swyddfa Gartref. Ystadegau defnydd yr heddlu o rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics
[4] Mae hyn yn cynnwys taro i dynnu sylw gyda'r dwylo a'r traed; a phwyntiau pwysau a chloi cymalau.

seiliedig ar yr amgylchedd a bregusrwydd unigolion, fel rhan o'u hasesiad risg parhaus.

## Saethiadau lluosog a pharhaus

O'r 101 o achosion a adolygasom, dioddefodd ychydig o dan draean o'r rhai hynny y saethwyd atynt â Taser saethiadau lluosog a pharhaus. Roedd wyth digwyddiad lle saethwyd â Taser yn barhaus am fwy nag 20 eiliad. Roedd iechyd meddwl neu aflonyddwch ymddygiadol acíwt[5] yn nodweddion cyffredin mewn achosion lle saethwyd â Taser am 20 eiliad neu hwy. Roedd digwyddiadau yn cynnwys saethiadau parhaus hefyd yn aml yn cynnwys saethiadau lluosog, ac mewn saith digwyddiad, roedd saethiadau Taser parhaus a lluosog.

O'r 94 o bobl y saethwyd atynt â Taser, saethwyd at dros fwy na hanner ohonynt fwy nag unwaith. Roedd rhai achosion yn cynnwys saethiadau lluosog oherwydd ni wnaeth y Taser eu taro, ni wnaeth gysylltu â'r unigolyn yn effeithiol, neu ni wnaeth eu hanalluogi yn llwyddiannus. Nid yw nifer y saethiadau felly yn cyfateb i'r nifer o weithiau y profodd yr unigolyn effeithiau Taser mewn gwirionedd.

## Defnyddio Taser er mwyn cydymffurfio

Noda canllawiau cenedlaethol y Coleg Plismona (CoP) "na ddylid defnyddio Taser ar gyfer cydymffurfiaeth weithdrefnol". Nodasom broblemau posibl gyda Taser yn cael ei ddefnyddio er mwyn cydymffurfio ym mron chwarter yr achosion a adolygasom. Canfuom mewn rhai achosion, fod swyddogion wedi methu ag adnabod, ac o ganlyniad methu ag ystyried, sut y gallai bregusrwydd unigolyn effeithio ar ei allu i ddeall a chydymffurfio â chyfarwyddiadau.

## Defnyddio Taser yn y ddalfa neu mewn lleoliadau meddygol

Er gwaethaf y nifer gymharol fechan o achosion yn cynnwys y defnydd o Taser yn y ddalfa neu mewn lleoliadau meddygol a adolygasom, rydym yn parhau'n bryderus am y digwyddiadau hyn. Dengys data'r Swyddfa Gartref fod Tasers wedi cael eu defnyddio cannoedd o weithiau yn y lleoliadau hyn yn 2019/20, yn cynnwys dros 100 o saethiadau.

## Defnyddio Taser yn y modd tanio llonyddu

Amlygodd adolygiad yr IPCC yn 2014 fod Taser yn cael ei ddefnyddio yn y modd tanio llonyddu, er gwaethaf y ffaith nad oedd hynny'n cael ei addysgu mewn hyfforddiant mwyach, oherwydd ei fod yn aneffeithiol wrth gyflawni analluogrwydd

---

[5] Term yw Aflonyddwch Ymddygiadol Acíwt a ddefnyddir i ddisgrifio symptomau y gall nifer o gyflyrau eu hachosi. Cyfeirir ato fel 'deliriwm cynhyrfus' weithiau hefyd. Mae'r cyflyrau hyn yn gysylltiedig â chynnwrf seicolegol a meddyliol eithafol, y gall aflonyddwch eithafol, gelyniaeth, cryfder eithriadol a dal ati heb flino eu nodweddu.

niwrogyhyrol. Er bod ystadegau yn dangos lleihad sylweddol yn y defnydd o Taser yn y modd tanio llonyddu[6], roedd nifer o'r achosion a adolygasom yn cynnwys y defnydd o Taser yn y modd hwn.

## Marwolaethau

Er bod 16 o'r 101 o achosion a adolygasom yn cynnwys marwolaeth, mae'n bwysig pwysleisio nad oedd y marwolaethau hyn yn ganlyniad y defnydd o Taser, o reidrwydd. Fodd bynnag, canfu pedwar cwest fod y defnydd o Taser, ar y cyd â ffactorau eraill, wedi cyfrannu at farwolaeth unigolyn, neu'n berthnasol iddo.

Dywedodd aelodau teulu'r rhai a fu farw eu bod yn bryderus iawn am ddiffyg dealltwriaeth swyddogion o risgiau defnyddio Taser. Maent yn awyddus i fwy o waith ymchwil gael ei gynnal i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â Taser, y gellid ei ddefnyddio i lywio canllawiau a hyfforddiant.

## Plant

Roedd chwech o blant ynghlwm â'r achosion a adolygasom[7]. Dengys data'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2019/20 yr oedd oddeutu 2,800 o ddigwyddiadau Taser yn cynnwys plant, 134 ohonynt yn cynnwys tanio Taser. Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynglŷn ag a yw lluoedd yn ystyried yn briodol y gofyniad i gyfeirio digwyddiadau defnyddio Taser yn erbyn plant yn wirfoddol i'r IOPC.

Amlygodd adroddiad 2014 yr IPCC[8] bryderon am y defnydd o Taser ar bobl ifanc. Mae'r pryderon hyn yn parhau, gyda rhanddeiliaid yn pryderu'n gynyddol am yr ymchwil gyfyngedig ynghylch risgiau corfforol a seicolegol defnyddio Taser ar blant.

## Iechyd meddwl, cyffuriau, ac alcohol

Dengys data'r Swyddfa Gartref na adroddodd swyddogion fod gan bobl bryderon iechyd meddwl neu anabledd corfforol mewn oddeutu 80% o ddigwyddiadau Taser. Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth arall fod iechyd meddwl yn nodwedd fwy cyffredin mewn digwyddiadau Taser nag yr awgryma data'r Swyddfa Gartref.

Er enghraifft, canfu adroddiad 2014 yr IPCC ar Taser ac adroddiad 2016 yr IPCC ar y Defnydd o Rym[9], fod iechyd meddwl yn ffactor sylweddol yn yr atgyfeiriadau a

---

[6] Yn 2019/20 defnyddiwyd y modd tanio llonyddu 41 gwaith. Yn yr un flwyddyn, defnyddiwyd Tasers mewn 32,000 o ddigwyddiadau.

[7] Yn yr adolygiad hwn, diffinir y term 'plant' fel y rhai hynny o dan 18 oed.

[8] IPCC (2014). Adolygiad yr IPCC o gwynion a digwyddiadau Taser 2004-2013. Cyrchwyd o https://www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/use_of_force_review_of_taser_complaints_and_incidents.pdf

[9] IPCC (2016). Adroddiad defnydd o rym. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/IPCC_Use_Of_Force_Report.pdf

dderbyniasom ac yn yr ymchwiliadau a adolygasom. Canfu dadansoddiad y CoP o ddata defnydd o rym 2017/18[10] fod unigolyn yn dioddef pryderon iechyd meddwl yn cynyddu'r siawns o Tasers yn cael eu tynnu o'u cas a'u tanio.

Roedd iechyd meddwl yn nodwedd gyffredin yn ein hymchwiliadau. Mewn achosion lle'r oedd iechyd meddwl yn ffactor, roedd pobl yn fwy tebygol o wynebu saethiadau lluosog a pharhaus o'i gymharu â'r sampl gyffredinol.

Roedd cyffuriau a/neu alcohol yn ffactor mewn ychydig dros hanner yr achosion a adolygasom. Roedd gan nifer o bobl â chysylltiadau â chyffuriau a/neu alcohol, bryderon iechyd meddwl hefyd.

Roedd aflonyddwch ymddygiadol acíwt yn nodwedd yn nifer o'n hymchwiliadau. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, roedd cyffuriau a/neu alcohol yn ffactor hefyd.

Canfuom enghreifftiau o arferion da lle gwnaeth swyddogion adnabod arwyddion y gallai unigolyn fod yn dioddef o aflonyddwch ymddygiadol acíwt ac ymateb yn unol â pholisi a chanllawiau.

Canfuom hefyd enghreifftiau lle methodd swyddogion ag adnabod yr arwyddion ac ymateb yn unol â chanllawiau.

Mae rhai rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol wedi mynegi pryderon nad oes gan swyddogion heddlu'r sgiliau gofynnol bob amser i gyfathrebu'n effeithiol â phobl â phryderon iechyd meddwl neu anableddau dysgu, a bod hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o swyddogion yn defnyddio grym.

## Pobl yr adroddwyd eu bod yn dreisgar, ymosodol, gwrthsafol ac yn meddu ar arfau

Canfu dadansoddiad y CoP o ddata defnydd o rym[11] mai'r ffactor â'r cysylltiad cryfaf â Taser yn cael ei danio oedd y swyddog yn adrodd eu bod yn wynebu gwrthwynebiad ymosodol neu weithredol gan yr unigolyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiad 2016 yr IPCC ar y defnydd o rym, a ganfu fod Taser yn cael ei ddefnyddio'n aml yn dilyn adroddiadau o ymddygiad ymosodol. Canfu adroddiad 2014 yr IPCC ar y defnydd o Taser ac adroddiad 2016 yr IPCC ar y defnydd o rym fod meddu ar arfau yn nodwedd gyffredin yn yr achosion Taser a adolygwyd.

[10] Y Coleg Plismona (2020). Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf
[11] Y Coleg Plismona (2020). Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

O’r achosion a adolygasom, defnyddiwyd Taser ar 108 o bobl[12] dros y cyfnod o bum mlynedd. Disgrifiodd neu adroddodd y swyddogion fod y rhan fwyaf o’r bobl (90 allan o 108) yn ymosodol, treisgar neu wrthsafol. Roedd ychydig dros draean yn meddu ar arf ar adeg y digwyddiad. Canfuom fod iechyd meddwl neu aflonyddwch ymddygiadol acíwt yn ffactor mewn 80% o ddigwyddiadau lle’r oedd unigolyn yn meddu ar arf.

## Cyfathrebu

Rydym yn croesawu cyflwyniad canllawiau rheoli gwrthdaro newydd y CoP a’r hyfforddiant arfaethedig i’w cefnogi. Canfuom enghreifftiau o arferion da gan swyddogion a ddefnyddiodd sgiliau cyfathrebu a thawelu effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o dan draean o’r achosion a adolygasom, nodasom gyfleoedd posibl a gollwyd i swyddogion dawelu sefyllfaoedd. Golyga hyn, yn ystod digwyddiad, fod cyfleoedd i swyddogion ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a negodi i ddatrys sefyllfa yn hytrach na defnyddio grym.

Mewn traean o’n hachosion, gwnaeth swyddogion sylwadau amhriodol neu gyfathrebu’n amhriodol yn ystod y digwyddiad. Roedd rhai sylwadau o natur ddifrïol.

## Anghyfartaledd a gwahaniaethu

Gyda chyfraddau tebyg i ddata ethnigrwydd y Swyddfa Gartref ar y defnydd o Taser, roedd pobl Ddu wedi’u cynnnwys yn anghyfartal yn ein hymchwiliadau Taser[13]. Nid oedd pobl Asiaidd wedi’u cynrychioli’n deg yn ein hachosion.

Yn yr achosion a adolygasom, roedd pobl Ddu, fel cyfran, yn llai tebygol o gael Taser wedi’i saethu atynt o’i gymharu â phobl Wyn, ond roeddent yn fwy tebygol o fod ynghlwm ag achosion lle anelwyd Taser neu anelwyd Taser â dotiau coch atynt. Mae hyn yn groes i ddata’r Swyddfa Gartref sy’n dangos er bod pobl Ddu yn fwy tebygol o fod ynghlwm â’r defnydd o Taser yn gyffredinol, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y tebygolrwydd o bobl Ddu a phobl Wyn yn cael eu saethu atynt â Taser.

Yn yr achosion a adolygasom, pan saethwyd at bobl Ddu â Taser, roeddent yn fwy tebygol o gael eu saethu am gyfnodau parhaus. Dioddefodd naw ar hugain y cant (29%) o bobl Wyn ynghlwm â saethiadau Taser, saethiadau parhaus o fwy na phum eiliad, lle’r oedd y ffigwr yn 60% i bobl Ddu.

Yn y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys naill ai honiadau o wahaniaethu neu stereoteipiau a rhagdybiaethau cyffredin, roedd tystiolaeth fod gan yr unigolyn o dan

[12] Roedd tri o’r 101 o achosion a adolygasom yn cynnwys y defnydd o Taser ar fwy nag un unigolyn.
[13] Roedd dau ar hugain (22%) o unigolion yn ein hymchwiliadau annibynnol yn Ddu, er mai pobl Ddu yw llai na phedwar y cant (4%) o’r boblogaeth.

sylw bryderon iechyd meddwl neu anabledd dysgu. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau gan eraill fod rhyngblethedd hil ac iechyd meddwl yn gallu cynyddu'r risg o lefelau uwch o ddefnydd o rym.

Pryderon am wahaniaethu ar sail hil ac anghyfartaledd yw un o'r materion mwyaf cyffredin a godwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r defnydd o Taser. Mae pryder penodol fod stereoteipio bechgyn a dynion ifanc Du yn arwain atynt yn wynebu defnydd yr heddlu o rym yn anghyfartal, yn cynnwys Taser. Mae cymunedau Du y gwnaethom ymgysylltu â nhw yn awyddus i'w pryderon gael eu clywed a gweithredu arnynt. Credant na ellir edrych ar ddigwyddiadau unigol yn cynnwys y defnydd o Taser ar eu pen eu hunain, ond yng nghyd-destun ehangach tensiynau hirsefydlog rhwng yr heddlu a'r gymuned Ddu.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y CoP a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) wedi comisiynu ymchwil i ystyried anghyfartaledd yn y defnydd o Taser. Awgryma ein canfyddiadau fod hwn yn gyfle i faterion a amlinellwyd gennym uchod gael eu hystyried. Mae'n hollbwysig fod yr ymchwil hon yn gadarn a bod canfyddiadau yn ei sgil yn cael eu cyhoeddi a'u defnyddio i lywio polisi, hyfforddiant, canllawiau ac arferion cenedlaethol. Rhaid monitro'r gweithredoedd a nodir, gwerthuso eu heffaith ac adrodd arnynt.

Mae grwpiau cymunedol wedi codi pryderon gyda ni am y plismona anghyfartal o'u cymunedau o'i gymharu â grwpiau hiliol eraill ac effaith tuedd hiliol sy'n dylanwadu ar gredoau, gweithredoedd a phenderfyniadau swyddogion.

Dymuna rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol gael mynediad at ddata cenedlaethol gwell ar y defnydd o Taser, sydd wedi'i ddadgyfuno i alluogi craffu gwell ar y gymuned. Dymunant hefyd gael mwy o gyfleoedd i adolygu a thrafod digwyddiadau sydd wedi peri pryder iddynt, fel y gellir adnabod cyfleoedd ar gyfer dysgu a gweithredu arnynt.

## 2.3 Argymhellion

Rydym wedi gwneud 17 o argymhellion mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad (gweler pennod 8). Gwnaethom ymgysylltu â nifer o randdeiliaid fel rhan o'r trafodaethau ynghylch yr argymhellion hyn, a diolchwn iddynt am eu hadborth adeiladol a defnyddiol.

Mae'r argymhellion wedi'u targedu at randdeiliaid plismona ac maent yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- hyfforddiant a chanllawiau
- craffu ar, a monitro'r defnydd o Taser
- ymgysylltiad a mewnbwn cymunedol

## Argymhelliad 1: I’r Coleg Plismona

Adolygu’r canllawiau Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ar Taser, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, i adnabod cyfleoedd i egluro, ehangu ar, a gwella canllawiau presennol ar gael i’r cyhoedd, yn benodol mewn perthynas â:

a) y mathau o sefyllfaoedd lle byddai’r defnydd o Taser yn briodol ac amhriodol, yn cynnwys ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl a phlant bregus
b) risgiau Taser a sut y gall swyddogion asesu risgiau a’u lliniaru
c) atgyfnerthu na ddylid defnyddio Taser er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddiadau neu weithdrefnau lle nad oes bygythiad, neu mae’r bygythiad wedi’i leihau’n sylweddol

## Argymhelliad 2: I’r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Adolygu, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, pa mor effeithiol yw hyfforddiant presennol wrth sicrhau bod swyddogion yn deall pwysigrwydd asesu’r amgylchedd o’u hamgylch ac ystyried unrhyw risg o anaf i’r unigolyn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag a ddylid defnyddio Taser - yn benodol mewn perthynas ag unigolion bregus. Er enghraifft, pobl, plant â phryderon iechyd meddwl, neu’r rhai hynny o dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol neu’n dangos arwyddion o aflonyddwch ymddygiadol acíwt.

## Argymhelliad 3: I’r Coleg Plismona

Gwerthuso effaith y canllawiau rheoli gwrthdaro newydd ar ymarfer plismona ac a ydynt yn rhoi digon o bwyslais ar dechnegau cyfathrebu a thawelu, yn benodol wrth ddelio â phobl o grwpiau bregus yn cynnwys plant. Dylai canfyddiadau’r gwerthusiad lywio unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i’r canllawiau a dylid eu cyhoeddi i helpu i lywio gwaith rhanddeiliaid perthnasol.

## Argymhelliad 4: I’r Coleg Plismona

Sicrhau bod hyfforddiant Taser yn rhoi dealltwriaeth i swyddogion o anghyfartaledd o ran hil yn y defnydd o Taser, ac effaith hyn ar hyder y cyhoedd a chysylltiadau cymunedol â’r heddlu. Dylai’r hyfforddiant hefyd roi dealltwriaeth gadarn i swyddogion o’r ffordd y mae anghyfartaledd o ran y defnydd o Taser yn ymwneud â’r cyd-destun ehangach a hanesyddol yn gysylltiedig â phlismona cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a pherthynas yr heddlu â’r cymunedau hyn. Dylai cynrychiolwyr y cymunedau yr effeithir fwyaf arnynt gan anghyfartaledd o ran hil yn y defnydd o Taser ddarparu mewnbwn i ddatblygiad hyfforddiant a’i ddarpariaeth.

## Argymhelliad 5: I’r Coleg Plismona

Sicrhau y diweddarir rhanddeiliaid perthnasol am weithrediad y cynllun sicrhau ansawdd arfaethedig ar gyfer hyfforddiant Taser. Dylid hefyd ystyried sut y gall y cynllun gynnwys goruchwyliaeth annibynnol, a sut y diweddarir rhanddeiliaid am gynnydd.

## Argymhelliad 6: I’r Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

Parhau i fonitro’r defnydd o Taser yn genedlaethol a lleol yn y modd tanio llonyddu ac annog yn erbyn swyddogion yn defnyddio Taser yn y modd hwn.

## Argymhelliad 7: I’r Coleg Plismona a’r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys

Adolygu canllawiau’r Coleg Plismona, APP a’r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys ar ddefnyddio Taser ar rywun sy’n arddangos symptomau aflonyddwch ymddygiadol acíwt mewn adran ddamweiniau ac achosion brys, i osgoi negeseuon anghyson posibl yn cael eu rhoi i swyddogion ac ymarferwyr meddygol. Dylid adolygu’r canllawiau yn rheolaidd ac, os oes angen, eu diweddaru i adlewyrchu ymchwil newydd.

## Argymhelliad 8: I’r Swyddfa Gartref

Adolygu casglu, coladu a chyflwyno data defnydd o rym, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, i sicrhau ei fod yn hygyrch, diwallu anghenion defnyddwyr a helpu i wella hyder y cyhoedd yn nefnydd yr heddlu o rym drwy fwy o dryloywder. Credwn fod cyfleoedd i ddarparu mwy o eglurder a gwybodaeth yn y meysydd canlynol:

a) cysylltu digwyddiadau i nodi nifer yr unigolion ynghlwm â digwyddiad
b) nodi defnydd lluosog mewn un digwyddiad
c) nodi pob defnydd o Taser, nid y defnydd ‘uchaf’, fel bod er enghraifft, y modd tanio llonyddu yn cael ei nodi mewn achosion lle defnyddir y modd tanio llonyddu a saethir dartiau
d) y rhyngblethedd rhwng nodweddion gwarchodedig e.e. dadansoddiad o’r defnydd o Taser yn ôl oedran ac ethnigrwydd, iechyd meddwl ac ethnigrwydd etc
e) lle bo’n bosibl, bod swyddogion yn gofyn i unigolion ddarparu gwybodaeth hunanddiffiniedig, yn cynnwys oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. Lle gwrthodir hyn neu nid yw’n bosibl fel arall, dylid cofnodi gwybodaeth a ddiffinnir gan swyddog

## Argymhelliad 9: I Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Sicrhau mwy o graffu ar, a monitro'r defnydd o Taser ar lefel leol a chenedlaethol i wella hyder y cyhoedd yn ei ddefnydd a sicrhau rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol o weithredoedd a phenderfyniadau a wneir i fynd i'r afael â phryderon.

a) Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Dirprwy Feiri Plismona a Throseddu yn ogystal â lluoedd sicrhau prosesau mewnol effeithiol ar gyfer monitro a chraffu ar y defnydd o Taser, yn benodol ei ddefnydd yn erbyn grwpiau penodol, yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl â phryderon iechyd meddwl a phlant. Dylid gwneud gwaith craffu o'r fath drwy ddadansoddi data Taser, adolygiadau rheolaidd o gamera ar y corff a phrofi ar hap.
b) Dylai lluoedd gyhoeddi data Taser lleol yn rheolaidd ar eu gwefannau mewn fformat hygyrch a, lle mae patrymau defnydd pryderus, yn cynnwys anghyfartaledd, ceisio egluro achosion hyn ac amlinellu unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion a nodwyd. Dylid safoni hyn i fformat y cytunwyd arno'n genedlaethol, y dylid ei adolygu'n barhaus i asesu cynnydd.
c) Lle mae materion sy'n peri pryder neu gyfleoedd ar gyfer gwella wedi'u nodi mewn digwyddiadau penodol, dylid rhaeadru'r rhain i heddluoedd a rhanddeiliaid eraill i wneud y mwyaf o ddysgu ar lefel genedlaethol.

## Argymhelliad 10: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Dylai heddluoedd sefydlu a chefnogi mecanweithiau i sicrhau y gall aelodau'r gymuned oruchwylio a chraffu ar y defnydd o Taser yn lleol, yn benodol ei ddefnydd yn erbyn grwpiau penodol, yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl â phryderon iechyd meddwl a phlant. Dylai lluoedd ymgysylltu â'u cymunedau i bennu a hoffai'r gymuned i hyn fod ar ffurf paneli craffu, a allai ganolbwyntio ar y defnydd o Taser, y defnydd o rym yn fwy cyffredinol, neu feysydd o blismona lle mae anghyfartaledd o ran hil, yn dibynnu ar ddymuniadau'r gymuned. Dylai paneli o'r fath:

a) gael eu cadeirio'n annibynnol gael aelodau'r cyhoedd
b) bod yn adlewyrchiadol o'r gymuned, yn cynnwys y grwpiau hynny yr effeithir fwyaf arnynt gan y defnydd o Taser
c) bod yn agored a hygyrch i aelodau'r cyhoedd, yn benodol y rhai hynny â llai o hyder yn yr heddlu megis y rhai hynny o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc
d) cael mynediad at ddata Taser lleol, recordiad fideo camera ar y corff a chanllawiau a hyfforddiant priodol

## Argymhelliad 11: I'r Swyddfa Gartref

Gweithio â phartneriaid, yn cynnwys Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, i archwilio trefniadau lleol presennol o ran monitro a chraffu ar y defnydd o Taser, gyda'r nod o asesu'r angen am safon ofynnol genedlaethol ar gyfer monitro a chraffu ar Taser.

## Argymhelliad 12: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Rhaid i luoedd sicrhau bod mecanweithiau monitro a chraffu effeithiol ar waith mewn perthynas â'r defnydd o Taser mewn lleoliadau a reoleiddir, megis y ddalfa a lleoliadau meddygol. Dylai lluoedd sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol y bydd defnydd o'r fath yn ddarostyngedig i fwy o graffu. Yn unol ag APP, rhaid i luoedd asesu a ddylid atgyfeirio unrhyw ddefnydd o Taser mewn lleoliad a reoleiddir i'r IOPC.

## Argymhelliad 13: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Rhaid i luoedd sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer monitro a chraffu cadarn ar y defnydd o Taser yn erbyn plant. Dylai lluoedd sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol y bydd defnydd o'r fath yn ddarostyngedig i fwy o graffu. Yn unol ag APP, rhaid i luoedd asesu a ddylid atgyfeirio unrhyw ddefnydd o Taser ar blentyn i'r IOPC.

## Argymhelliad 14: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Datblygu cynlluniau i ymgymryd ag ymchwil genedlaethol annibynnol i ddeall yn well y defnydd o Taser ar bobl o leiafrifoedd ethnig - a phobl Ddu, yn benodol. Dylai'r ymchwil hon:

a) gymharu nifer y saethiadau lluosog a pharhaus mewn digwyddiadau yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gyda'r rhai hynny yn cynnwys pobl Wyn ac archwilio'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau
b) archwilio pam mae swyddogion yn fwy tebygol o estyn neu anelu Taser pan fo'r unigolyn yn Ddu ond nid yn fwy tebygol o'i danio
c) ystyried rhyngblethedd, yn benodol hil ag oedran, rhywedd ac iechyd meddwl
d) archwilio'r graddau y gall rhagfarnau, tueddiadau a rhagdybiaethau cymdeithasol egluro cyfraddau anghyfartaledd
e) ystyried goblygiadau defnydd anghyfartal ar ganfyddiadau'r cyhoedd o'r heddlu
f) llywio gweithredoedd posibl i fynd i'r afael ag anghyfartaledd yn y defnydd o Taser yn erbyn pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig fel y gellir cyd-gynhyrchu a phrofi datrysiadau
g) yn dilyn cwblhau'r ymchwil hon, rhaid i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y gweithredoedd a nodwyd

## Argymhelliad 15: I'r Swyddfa Gartref

Comisiynu:

a) chwiliad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth ar y defnydd o Taser ar y rhai hynny sy'n profi aflonyddwch ymddygiadol acíwt neu bryderon iechyd meddwl, i lywio gwerthusiadau yn y dyfodol o oblygiadau meddygol Taser
b) ymchwil tymor hwy i risgiau saethiadau Taser parhaus a/neu ailadroddus
c) ymchwil i'r effaith seicolegol y gall Taser ei chael ar grwpiau penodol o bobl

## Argymhelliad 16: I Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Cefnogi diwylliant lle mae cymunedau lleol, yn benodol y rhai hynny sydd â llai o hyder yn yr heddlu yn hanesyddol, yn cael eu hannog i gyfrannu at benderfyniadau'r llu ynghylch y defnydd o Taser ac yn cael cyfleoedd i lywio polisi, arferion, canllawiau a hyfforddiant y llu. Dylai lluoedd sicrhau bod y gymuned yn deall sut mae ei mewnbwn wedi dylanwadu ar y meysydd hyn.

## Argymhelliad 17: I Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Adolygu strategaethau cyfathrebu a'r cyfryngau i sicrhau bod naratif ynghylch y defnydd o Taser yn cydnabod dilysrwydd pryderon y gymuned mewn perthynas â Taser a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

# 3. Cefndir

Enw brand yw Taser® ar gyfer Dyfeisiau Ynni wedi'i Ddargludo (CED). Mae CEDs yn "arfau llai angheuol" wedi'u dylunio i analluogi unigolyn dros dro. Maent yn defnyddio cerrynt trydanol sy'n ymyrryd â'r system niwrogyhyrol ac yn peri poen difrifol[14].

Pan dynnir y glicied ar Taser, mae'r cetris yn y ddyfais yn taflu pâr o ddartiau sydd ynghlwm wrth wifrau. Pan fydd y dartiau yn cysylltu ag unigolyn, bydd y ddyfais yn trosglwyddo gwefr drydanol sy'n para pum eiliad. Gellir stopio, ymestyn neu ailadrodd y cylch[15]. Mae gan Tasers 'system cofnodi data' fewnol, sy'n golygu bod manylion pob taniad (a'r gwrthwyneb) yn gallu cael eu lawrlwytho a'u hasesu'n ddigidol.

Awdurdodwyd Tasers am y tro cyntaf i'w defnyddio gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2004. I ddechrau arni, dim ond swyddogion arfau tanio awdurdodedig oedd i'w defnyddio yn ystod gweithrediadau arfau tanio awdurdodedig. Estynnwyd y defnydd o Tasers i swyddogion heb arfau tanio, y cyfeirir atynt fel 'Swyddogion Wedi'u Hyfforddi'n Arbennig', yn dilyn treial yn 2007/08. Ers hynny, mae swyddogion rheng flaen detholedig wedi gallu defnyddio Tasers mewn digwyddiadau heb arfau tanio. I allu cario Taser, rhaid i swyddogion fodloni gofyn sylfaenol, pasio rhaglen hyfforddi 18 awr gychwynnol a chwblhau hyfforddiant gloywi blynyddol chwe awr.

## 3.1 Defnydd o Taser

Diffinnir y 'defnydd' o Taser yn fwy eang na saethu neu danio Taser. Amlinellir y saith ffordd y gellir 'defnyddio' Taser (y mae'n rhaid cofnodi pob un) yn nhabl 1.

Mae defnydd yr heddlu o Taser yn cynyddu. Gallai'r cynnydd hwn adlewyrchu gwelliant mewn arferion cofnodi'r heddlu. Gallai hefyd adlewyrchu'r cynnydd mewn swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Taser a nifer y Tasers ar gael mewn heddluoedd (yn seiliedig ar asesiadau strategol o fygythiad a risg heddluoedd), neu swyddogion yn delio â mwy o ddigwyddiadau â'r potensial ar gyfer gwrthdaro.

Ym mis Medi 2019, roedd 30,548 o swyddogion (oddeutu chwarter yr holl swyddogion) wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Taser[16]. Yn yr un mis yn 2019,

---

[14] Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig, y Coleg Plismona. Dyfeisiau ynni wedi'i ddargludo (Taser). Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/armed-policing/conducted-energy-devices-taser/#verbal-warning-and-contact

[15] Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig, y Coleg Plismona. Dyfeisiau ynni wedi'i ddargludo (Taser). Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/armed-policing/conducted-energy-devices-taser/#verbal-warning-and-contact

[16] Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Dyfeisiau ynni wedi'i ddargludo (Taser). Cyrchwyd o https://www.npcc.police.uk/NPCCBusinessAreas/OtherWorkAreas/Taser.aspx

cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref £10 miliwn o gyllid wedi'i neilltuo i luoedd gynyddu nifer y swyddogion sy'n cario Taser.[17].

Cyflwynodd pedwar deg un o'r 43 o heddluoedd gais i gael cyllid yn seiliedig ar asesiadau strategol o fygythiad a risg yn eu hardal; a dyrannwyd £6.7 miliwn iddynt brynu 8,155 o ddyfeisiau[18]. Er nad oes data diweddar ar gael ar nifer y swyddogion sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Taser, mae'n debygol y golyga'r codiad hwn fod y nifer wedi cynyddu ers mis Medi 2019.

**Tabl 1: Ffyrdd y defnyddir Taser**

| Defnydd o Taser | Disgrifiad | Taser wedi'i danio neu Taser heb ei danio |
|---|---|---|
| Tynnu Taser o'i gas | Tynnu Taser o'i gas mewn amgylchiadau pan allai unrhyw unigolyn ganfod yn rhesymol fod y weithred honno yn ddefnydd o rym. | Taser heb ei danio |
| Anelu | Anelu Taser yn fwriadol at unigolyn. | Taser heb ei danio |
| Anelu â dotyn coch | Anelu Taser at unigolyn yn defnyddio'r dotyn laser coch. | Taser heb ei danio |
| Arcio | Gwreichioni Taser, i arddangos y wefr drydanol heb ei anelu na'i danio. | Taser heb ei danio |
| Tanio llonyddu | Tanio Taser (heb getrisen fyw wedi'i gosod ynddo) mewn cyswllt uniongyrchol â'r corff, yn hytrach na saethu o bellter. Ni saethir dartiau ac mae hyn yn peri poen ond ni fydd yn creu effaith sy'n analluogi. | Taser wedi'i danio |
| Tanio llonyddu ar ongl | Tanio Taser ac mae un o'r dartiau neu'r ddau yn bachu wrth unigolyn. Cyn dal y Taser yn erbyn rhan wahanol o gorff yr unigolyn i greu effaith sy'n analluogi. | Taser wedi'i danio |
| Tanio | Tanio Taser fel bod y dartiau yn cael eu saethu tuag at unigolyn â'r bwriad o gyflawni gwefr drydanol a chreu effaith sy'n analluogi. | Taser wedi'i danio |

[17] Stori newyddion y Swyddfa Gartref. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/news/home-office-announces-10-million-for-taser-uplift

[18] Stori newyddion y Swyddfa Gartref. Cyrchwyd o Forces awarded extra funding for Taser - GOV.UK (www.gov.uk)

## 3.2 Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau

Mae Tasers yn un o nifer o opsiynau tactegol y gall yr heddlu eu defnyddio wrth ddelio â digwyddiadau gyda'r posibilrwydd o wrthdaro. Mae'r rheolau cyfreithiol sy'n llywodraethu pwerau'r heddlu ar y defnydd o rym wedi'u cynnwys mewn sawl darn o ddeddfwriaeth[19]. Gyda'i gilydd, maent yn mynnu y defnyddir unrhyw rym i gyflawni amcan cyfreithlon, megis atal anaf i eraill neu arestio rhywun yn gyfreithlon. Rhaid i'r grym a ddefnyddir fod yn rhesymol, cymesur ac angenrheidiol, a rhaid i swyddogion ddefnyddio'r grym lleiaf sy'n ofynnol i gyflawni eu hamcan cyfreithlon. Mae swyddogion yn atebol yn unigol am eu penderfyniadau i ddefnyddio grym a rhaid iddynt allu cyfiawnhau pob defnydd o rym.

Ers 2017, mae'n ofynnol i luoedd gofnodi a chyhoeddi data defnydd o rym, y caiff is-set ohono ei darparu i'r Swyddfa Gartref fel rhan o'r Gofyniad Data Blynyddol.

Datblygir Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) gan y Coleg Plismona ac mae'n eiddo iddynt. Dyma ffynhonnell swyddogol ymarfer proffesiynol ar blismona ac sydd ar gael i'r cyhoedd. Disgwylir i swyddogion heddlu a staff 'roi sylw i APP wrth gyflawni eu cyfrifoldebau', er y gall swyddogion wyro oddi wrth APP os oes 'rhesymeg glir dros wneud hynny'[20].

Mae APP yn cynnwys adran benodol ar y defnydd o CED[21]. Mae'n disgrifio'r dyfeisiau[22], amlinellu'r gofynion gweithredu a darparu gwybodaeth dechnegol am eu defnydd ac effeithiau. Mae'n amlinellu gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth am offer, archwilio data, cynnal a chadw, ac atgyfeirio, monitro a goruchwylio'r defnydd o Taser. Fodd bynnag, ychydig o ganllawiau sydd yn APP ar yr amgylchiadau lle gellir a dylid defnyddio Taser.

Noda APP y dylai swyddogion, pan fo amgylchiadau yn caniatáu, ddarparu rhybudd clir o'u bwriad i ddefnyddio CED, a chaniatáu digon o amser ar gyfer cymryd sylw o'r rhybudd, oni bai y byddai gwneud hynny'n rhoi rhywun mewn perygl neu "byddai'n gwbl amhriodol neu ddibwrpas". Noda APP y gallai fod yn briodol weithiau "arddangos yr effaith wreichio" (arcio) neu ddefnyddio'r nodwedd dotyn coch, a all gael effaith ataliol. Darperir canllawiau ar ôl-ofal, tynnu dartiau Taser yn ddiogel a'r

---

19 Mae hyn yn cynnwys *Deddf Cyfraith Trosedd 1967*, *Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984*, *Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008*, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chyfraith Gyffredin.

20 Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig, y Coleg Plismona. Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/about-app/

21 Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig, y Coleg Plismona. Dyfeisiau ynni wedi'i ddargludo (Taser). Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/armed-policing/conducted-energy-devices-taser/#verbal-warning-and-contact

22 Mae tri model Taser wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd.

amgylchiadau lle dylid ystyried atgyfeiriad i'r ysbyty neu archwiliad gan archwilydd meddygol fforensig.

Ar risgiau, mae APP yn cynnwys rhestr o ffactorau risg a "allai effeithio ar y defnydd gweithredol o CEDs". Mae'r rhestr yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: anafiadau i'r pen o gwympiadau nas cefnogir, myctod ystumiol, saethiadau ailadroddus a/neu barhaus, pobl fregus, cyflyrau meddygol a fodolai eisoes, aflonyddwch ymddygiadol acíwt, deunyddiau fflamadwy a phlant neu oedolion 'tenau'. Noda APP fod hyfforddiant Taser yn seiliedig ar senario yn pwysleisio'r rhagofalon a'r ystyriaethau sy'n berthnasol i'r ffactorau risg a amlinellwyd. Fodd bynnag, ni ddarperir rhagor o ganllawiau ar risgiau Taser a sut y gall swyddogion asesu risgiau a'u lliniaru yn APP ei hun.

## 3.3 Rôl yr IOPC wrth graffu ar y defnydd o Taser

Rydym yn gyfrifol am oruchwylio system gwynion yr heddlu. Golyga hyn ein bod yn chwarae rôl allweddol yn gwneud yn siŵr bod cwynion yn cael eu trin yn rhesymol ac yn gymesur, bod swyddogion heddlu a staff yr heddlu yn cael eu dwyn i gyfrif, a bod gwasanaeth yr heddlu yn dysgu ac arferion plismona yn gwella.

Mae mwyafrif y cwynion yn ymwneud â Taser yn cael eu trin yn lleol gan adrannau safonau proffesiynol heddluoedd.

Cyn i'r diwygiadau i system gwynion yr heddlu ddod i rym ar 1 Chwefror 2020, pan oedd rhywun yn anfodlon â chanlyniad eu cwyn, neu'r modd yr ymdriniwyd â hi, roedd ganddynt yr hawl i apelio naill ai i ni neu i brif swyddog yr heddlu o dan sylw[23]. Ar ôl y dyddiad hwn, disodlodd newidiadau i'r ddeddfwriaeth y gwahanol hawliau apelio gydag un hawl i wneud cais am adolygiad o gŵyn a gofnodwyd.

Pan oedd achwynydd yn apelio i ni, roeddem yn asesu sut yr ymdriniwyd â'u cwyn. Os bu i ni ganfod nad ymdriniwyd â'r gŵyn yn gywir, neu bu i ni anghytuno gyda'r canfyddiadau, rhoesom gyfarwyddyd i gymryd y camau gweithredu priodol hynny. O 1 Chwefror 2020, pan mae achwynydd yn gwneud cais am adolygiad gennym, rydym yn asesu p'un a oedd canlyniad eu cwyn yn rhesymol a chymesur. Os canfyddwn nad oedd y canlyniad yn rhesymol a chymesur, gallwn wneud cyfarwyddiadau ac argymhellion priodol i'r llu.

[23] Roedd gan achwynwyr hawliau apelio gwahanol yn dibynnu ar sut yr ymdriniwyd â'u cwyn.

Mae’n ofynnol i heddluoedd atgyfeirio pob digwyddiad yn cynnwys y defnydd o Taser i’r IOPC pan mae’n bodloni maen prawf atgyfeirio gorfodol[24], megis pob marwolaeth neu anaf difrifol yn dilyn y defnydd o Taser. Gall heddluoedd atgyfeirio digwyddiadau yn cynnwys Taser yn wirfoddol hefyd.

Mae Canllawiau Statudol yr IOPC yn annog awdurdodau priodol i ddefnyddio eu gallu i atgyfeirio cwynion neu ddigwyddiadau nad oes angen eu hatgyfeirio, ond pan fydd difrifoldeb y digwyddiad neu amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau eu hatgyfeirio. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, oherwydd bod y gŵyn neu’r digwyddiad, wedi cael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd, neu hyder cymunedau neilltuol[25].

Noda APP yn dilyn achosion “proffil uchel”, neu lle mae “amgylchiadau eithriadol”, y dylai lluoedd “ystyried atgyfeirio o ddifrif” y mater yn wirfoddol, yn cynnwys pan ddefnyddir Taser mewn lleoedd cyfyng (megis ystafelloedd y ddalfa), yn y modd tanio llonyddu, ar bobl ifanc (o dan 18 oed) ac ar bobl â phryderon iechyd meddwl neu sy’n fregus fel arall.

Yn dilyn atgyfeiriad, rydym yn penderfynu a yw ymchwiliad yn hanfodol ac, os felly, pa lefel o gyfranogiad y dylem ni ei chael. Gallwn gynnal ein hymchwiliad annibynnol ein hunain, rhoi cyfarwyddyd i’r heddlu gynnal ymchwiliad o dan ein rheolaeth, neu benderfynu y gallai’r heddlu ddelio â’r mater yn lleol.

Lle’r ydym yn penderfynu y dylai mater marwolaeth neu anaf difrifol gael ei ymchwilio iddo’n lleol gan heddlu, mae’n ofynnol i’r llu anfon yr adroddiad terfynol o’r ymchwiliad, yn cynnwys yr holl dystiolaeth ategol, i’r IOPC ei adolygu.

Rydym yn asesu a oes awgrym y gall swyddog heddlu neu aelod o staff fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai’n cyfiawnhau camau disgyblu. Os canfyddwn awgrym o’r fath, rydym yn penderfynu pa ymchwiliad pellach sy’n ofynnol a pha lefel o gyfranogiad y dylem ni ei chael.

Rydym hefyd yn penderfynu a yw perfformiad unrhyw swyddog neu aelod o staff yn anfoddhaol, neu a oes unrhyw wersi unigol neu gyfundrefnol. Os canfyddwn unrhyw faterion dysgu neu berfformiad, gallwn wneud cyfarwyddiadau ac argymhellion priodol i’r llu.

[24] Mae hyn yn cynnwys marwolaethau ac anafiadau difrifol, cwynion a materion ymddygiad sy’n cynnwys honiadau o faterion yn cynnwys ymosodiad difrifol, troseddau rhywiol difrifol, llygredd difrifol a throseddau neu ymddygiad troseddol yn debygol o arwain at weithdrefnau disgyblaethol. Ar gyfer rhestr lawn o’r materion y mae’n rhaid eu hatgyfeirio i ni, gweler ein Canllawiau Statudol.

[25] Canllawiau Statudol yr IOPC ar system gwynion yr heddlu. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/statutoryguidance/2020_statutory_guidance_english.pdf

Rydym yn rhannu unrhyw wersi sy’n codi o’n hachosion â heddluoedd a rhanddeiliaid perthnasol. Mae’r newidiadau a wneir mewn ymateb i ddysgu, yn y pendraw, yn gwella plismona i bawb, gan adeiladu hyder a diogelu’r cyhoedd rhag niwed.

# 4. Amcanion, methodoleg a chyfyngiadau

## 4.1 Amcanion

Amcanion yr adolygiad hwn oedd:

- adolygu a choladu tystiolaeth bresennol, a thystiolaeth o'n hachosion a gwaith ymgysylltu i adnabod themâu, patrymau a materion cyffredin
- cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth gynyddol ynghylch y defnydd o Taser gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr
- adnabod a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella

## 4.2 Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd sylfaen dystiolaeth wedi'i llywio gan:

- ddadansoddiad o ddata a llenyddiaeth bresennol[26]
- adolygiad o 101 o ymchwiliadau annibynnol yr IOPC a oedd yn cynnwys y defnydd o Taser dros gyfnod o bum mlynedd (2015-2020)
- safbwyntiau a phryderon a fynegwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid i'r IOPC drwy ein gwaith ymgysylltu

### Adolygiad o ddata a llenyddiaeth bresennol

Gwnaethom adolygu data a thystiolaeth allweddol ar y defnydd o Taser a materion cysylltiedig, yn cynnwys data cenedlaethol, adroddiadau ymchwil a chanfyddiadau o waith blaenorol yr IPCC/IOPC. Eithriwyd tystiolaeth o awdurdodaethau y tu allan i Gymru a Lloegr. Wrth adolygu'r data ar gael, gwnaethom ganolbwyntio ar ffynonellau sy'n helpu i ddarparu darlun ar sail gwybodaeth o'r defnydd o Taser a materion cysylltiedig yng Nghymru a Lloegr.

[26] Roedd ffynonellau yn cynnwys ystadegau'r llywodraeth; ymchwil academaidd; canfyddiadau o adolygiadau blaenorol (IPCC/Lammy/Angiolini/NPCC etc); datganiadau meddygol a gweithdrefnau barnwrol.

### Adolygiad thematig o'n hachosion

Adolygasom holl ymchwiliadau annibynnol yr IPCC/IOPC a ddechreuwyd ac a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2020 lle'r oedd y ffactor achos "Defnydd o Rym - Taser"[27] yn berthnasol - cyfanswm o 101 o achosion[28].

### Adolygiad o safbwyntiau rhanddeiliaid a'r gymuned

Gwnaethom adolygu a chasglu cofnodion o gyfarfodydd a thrafodaethau â rhanddeiliaid allanol rhwng mis Mai 2020 a mis Chwefror 2021. Gwnaethom goladu a chrynhoi sylwadau a phryderon yn ymwneud â'r defnydd o Taser, anghyfartaledd a materion cysylltiedig. Nid oedd yr adolygiad hwn yn cynnwys gweithgarwch ymgysylltu penodol i gasglu adborth i lywio'r adolygiad. Y pryderon a grynhoir yw'r rhai hynny a godwyd gyda ni fel rhan o'n gwaith ymgysylltu o ddydd i ddydd, a'n gwaith ymgysylltu mewn perthynas â digwyddiadau penodol yn cynnwys Taser a berodd bryder ymhlith rhai cymunedau.

## 4.3 Cyfyngiadau

Mae mwyafrif y cwynion yn cynnwys Taser yn cael eu hymchwilio iddynt gan heddluoedd. Rydym yn cydnabod yn llawn na fydd yr achosion yr ymchwiliwn iddynt yn annibynnol yn gynrychioladol o ddigwyddiadau Taser yn gyffredinol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, nod yr adolygiad hwn yw cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth gynyddol ynghylch y defnydd o Taser gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Adnabuwyd yr achosion a adolygasom drwy gofnodi'r ffactor achos 'Taser' ar ein systemau. Gan fod ffactorau achos yn cael eu dewis â llaw i helpu i adnabod natur ac amgylchiadau achos, ni ddylid dibynnu arnynt i ddarparu data diffiniol ar nifer yr ymchwiliadau annibynnol yn cynnwys Taser. Mae pob achos y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn wedi'i adolygu i sicrhau bod y ffactor achos Taser yn berthnasol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod ymchwiliadau annibynnol eraill yn cynnwys Taser nad ydynt wedi'u nodi.

Cafwyd y data ymchwiliadau a gyrchwyd o ddata byw a gall fod yn wahanol i ganlyniadau cyhoeddedig blaenorol.

[27] Mae ffactorau achos yn rhoi ffordd i ni adnabod themâu allweddol ac olrhain gwybodaeth achos.
[28] Nid yw nifer yr achosion yn cyfateb i nifer y bobl ynghlwm.

# 5. Adolygiad o dystiolaeth bresennol

Mae'r bennod hon yn crynhoi data a thystiolaeth allweddol ar y defnydd o Taser a materion cysylltiedig. Nid ydym wedi ceisio darparu crynodeb cynhwysfawr o'r holl dystiolaeth ar gael. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar y ffynonellau allweddol a fydd yn helpu i ddarparu dealltwriaeth o'r materion a drafodir drwy'r adroddiad hwn a'u rhoi mewn cyd-destun.

Mae ymchwil i gyd-destun y defnydd o Taser, y sefyllfaoedd lle defnyddir Taser a pham y'i defnyddir gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gymharol brin. Wedi dweud hynny, mae'r wybodaeth ar gael yn darparu darlun mynegol y gellir adeiladu arno wrth symud ymlaen.

Mae'r data defnydd o rym a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Gartref yn darparu dealltwriaeth ddefnyddiol o lefel a natur y defnydd o Taser yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ofynnol i swyddogion gofnodi unrhyw ddefnydd o rym ers 2017, o dan y Gofyniad Data Blynyddol.

Ar adeg ysgrifennu, mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi tri adroddiad. Mae'r data a gofnodwyd ym mhob un o'r tri wedi'i ddynodi yn "ystadegau arbrofol"[29], oherwydd cyfyngiadau ansawdd, yn cynnwys gwerthoedd ar goll, data anghywir ac anghysondebau wrth gofnodi o fewn ac ar draws heddluoedd.

Cyfeirir at y data hwn drwy gydol y bennod hon a dylid cadw'r canlynol mewn cof:

- Mewn digwyddiad lle defnyddir grym, rhaid i bob swyddog a ddefnyddiodd rym gwblhau 'ffurflen Defnydd o Rym' ar gyfer pob unigolyn y gwnaethant ddefnyddio grym yn eu herbyn.
- Mae 'digwyddiad' defnydd o rym yn cyfeirio at ddefnydd un swyddog o rym yn erbyn un unigolyn (h.y. mae 'digwyddiad' yn cyfateb i un ffurflen Defnydd o Rym. Golyga hyn nad yw nifer y digwyddiadau yn cyfateb i nifer y digwyddiadau unigryw neu bobl ynghlwm. Er enghraifft, lle mae un unigolyn yn cael ei atal gan ddau swyddog, cwblheir dwy ffurflen Defnydd o Rym, a fydd yn cael eu cofnodi fel dau ddigwyddiad ar wahân.

[29] Dyma derm y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n golygu bod ystadegau 'yn y cyfnod profi a heb eu datblygu'n llawn eto'. Gweler: Canllaw i Ystadegau Arbrofol - y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/methodology/methodologytopicsandstatisticalconcepts/guidetoexperimentalstatistics

- Nid yw'r data yn cofnodi defnydd lluosog o Taser. Lle adroddir Taser fel tacteg a ddefnyddir mewn digwyddiad, dim ond unwaith y mae'n cyfrif y dacteg honno fesul digwyddiad, hyd yn oed os adroddir defnydd lluosog.
- Cofnodir nodweddion, yn cynnwys oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd, fel y'u gwelir gan y swyddog. Ni chânt eu hadrodd gan y bobl eu hunain.

## 5.1 Lefelau o'r defnydd o Taser yng Nghymru a Lloegr

Mae nifer y digwyddiadau Taser wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall ers adroddiad cyntaf y Swyddfa Gartref ar ddefnydd yr heddlu o rym yn 2017/18[30]:

Yn y flwyddyn gyntaf, defnyddiwyd Taser mewn oddeutu 17,000 o ddigwyddiadau[31]. Yn 2018/19, fe'i defnyddiwyd mewn oddeutu 23,000 o ddigwyddiadau[32]. Yn 2019/20, fe'i defnyddiwyd mewn oddeutu 32,000 o ddigwyddiadau[33].

Mae o leiaf peth o'r cynnydd yn y defnydd o Taser yn debygol o fod yn sgil gwelliant mewn arferion cofnodi'r heddlu rhwng y flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn o gasglu data. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl priodoli'r cynnydd yn rhannol i nifer cynyddol o swyddogion yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio a chario Taser a defnydd cynyddol o Taser.

Defnyddiwyd Taser mewn 5% o bob digwyddiad lle defnyddiwyd grym yn 2017/18 a 2018/19, a 7% o ddigwyddiadau yn 2019/20. Er bod y defnydd o Taser yn cyfrif am gyfran gymharol fechan o gyfanswm y defnydd o rym, fe'i defnyddir mewn mwy o ddigwyddiadau na phob math arall o offer, yn cynnwys chwistrell lidus a batonau, ac

[30] Casglwyd a chyhoeddwyd data ar ddefnydd yr heddlu o Taser gan y Swyddfa Gartref cyn i'r Gofyniad Data Blynyddol gael ei gyflwyno ac mae ar gael ar GOV.UK. Tra mae'r ffordd y caiff y defnydd o Taser ei gyfrif a'i fesur o dan y Gofyniad Data Blynyddol yn parhau'r un fath â blynyddoedd blaenorol, mae'r ffordd y mae swyddogion yn adrodd eu defnydd wedi newid. Noda'r Swyddfa Gartref na ellir cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol.

[31] Y Swyddfa Gartref (2018). Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2017 i Fawrth 2018. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2017-to-march-2018

[32] Y Swyddfa Gartref (2019). Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2018 i Fawrth 2019. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2018-to-march-2019

[33] Y Swyddfa Gartref (2020). Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2019-to-march-2020

fe'i defnyddir yn fwy aml na chŵn yr heddlu. Fodd bynnag, defnyddir Taser yn llai aml o lawer nag atal ar y llawr a sgiliau atal heb arfau[34].

Gydag oddeutu chwarter y swyddogion yng Nghymru a Lloegr wedi'u hyfforddi i ddefnyddio a chario Tasers, mae'n ddiddorol nodi y defnyddir Tasers mewn mwy o ddigwyddiadau na chwistrell lidus a batonau, er gwaethaf eu bod ar gael i lai o swyddogion. Awgryma hyn fod swyddogion, pan gânt eu harfogi â Tasers, yn fwy tebygol o ddefnyddio Taser nag offer arall pan fydd angen iddynt ddefnyddio grym. Gall hyn, yn rhannol, fod o ganlyniad i'r negeseuon a roddir i swyddogion fod Taser yn ddefnydd 'lefel isel' o rym a'i fod yn llai niweidiol na rhai ffurfiau eraill ar rym[35]. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau yn cynnwys yr hyfforddiant a gaiff swyddogion (a allai olygu eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio Taser na ffurfiau eraill ar rym) a'r fantais o bellter y gall Taser ei darparu.

Rhybuddiodd adroddiad Taser 2014 yr IPCC, gyda defnydd cynyddol o Taser, fod risg y byddai swyddogion yn dibynnu fwyfwy ar ddefnyddio grym i sicrhau cydymffurfiaeth. Pwysleisiodd yr adroddiad yr angen am hyfforddiant o ansawdd uchel, monitro cadarn a dadansoddi'r defnydd o Taser. Amlygodd hefyd bwysigrwydd prosesau dethol priodol ar gyfer swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Taser, y diwylliant o amgylch ei ddefnydd a goruchwyliaeth.

## 5.2 Math o ddefnydd o Taser

Mae cyfraddau Tasers wedi'u tanio a Tasers heb eu tanio wedi bod yn gyson dros ddata gwerth tair blynedd y Swyddfa Gartref[36]. Mae tabl 2 yn amlinellu'r mathau o ddefnydd o Taser fel cyfran o'r defnydd cyffredinol, ac fel cyfran o'r cyfanswm Tasers wedi'u tanio a'r cyfanswm Tasers heb eu tanio, dros y tair blynedd diwethaf[37].

**Tabl 2: Mathau o ddefnydd o Taser**

| Math o ddefnydd | % o'r defnydd cyffredinol | % o'r isdeip |
|---|---|---|
| **Taser heb ei danio** | | |
| Tynnu Taser o'i gas | 24% | 28% |

[34] Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym, y Swyddfa Gartref. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics
[35] Er enghraifft: Cwestiynau ac Atebion NPCC ar Ddyfeisiau Ynni Wedi'i Ddargludo. Cyrchwyd o https://www.npcc.police.uk/ThePoliceChiefsBlog/NPCCQuestionsandAnswersonTaser.aspx
[36] Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics
[37] Noder bod data'r Swyddfa Gartref yn cofnodi'r defnydd uchaf o Taser mewn digwyddiad h.y. os tynnwyd y Taser o'i gas, fe'i hanelwyd a'i anelu â dotyn coch, dim ond fel 'anelu â dotyn coch' y cofnodir hyn.

| | | |
|---|---|---|
| Anelu | 10% | 11% |
| Anelu â dotyn coch | 53% | 60% |
| Arcio | 1% | 1% |
| **Taser wedi'i danio** | | |
| Tanio llonyddu | <1% | 2% |
| Tanio llonyddu ar ongl | <1% | 2% |
| Tanio | 11% | 96% |

Nodiadau: Mae'r data a gyflwynir yn y tabl hwn yn eithrio digwyddiadau lle na nodwyd y math o ddefnydd. Mae isdeip yn cyfeirio at Tasers wedi'u tanio a Tasers heb eu tanio.

Dengys data'r Swyddfa Gartref yn y rhan fwyaf o achosion lle 'defnyddir' Taser, ni chaiff ei danio. Roedd llai na 12% o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn cynnwys Taser wedi'i danio. Anelu â dotyn coch yw'r defnydd mwyaf cyffredin o Taser. Gall hyn awgrymu bod gan swyddogion ffydd yng ngallu'r dotyn coch i amharu ar y golwg.

Mae'r saethiadau Taser lefel isel fel cyfran o'r defnydd cyffredinol wedi arwain at honiadau bod Taser yn arf ataliol effeithiol iawn, sy'n gallu datrys sefyllfaoedd heb ddefnyddio grym corfforol.[38]. Fodd bynnag, mae'r darlun yn hyn o beth yn eithaf aneglur.

Canfu adrodd y CoP[39] "dystiolaeth betrus" yn unig y gallai Taser weithredu fel arf ataliol, tra canfu ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt[40] fod presenoldeb Taser mewn gwirionedd yn cynyddu'r tebygolrwydd o swyddogion yn defnyddio grym, ac yn arwain at drais cynyddol ac ymosodiadau ar swyddogion. Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai swyddogion wedi'u harfogi â Tasers fod yn fwy tebygol o fynychu sefyllfaoedd risg uwch yn fwy aml na swyddogion heb eu harfogi. Gallai'r canfyddiadau hyn, felly, gael eu dylanwadu gan y ffaith bod swyddogion Taser yn syml yn fwy agored i ddigwyddiadau treisgar.

Mae'r rhan fwyaf o daniadau Taser yn saethiadau. Roedd defnyddio Taser yn y modd tanio llonyddu a'r modd tanio llonyddu ar ongl yn cyfrif am gyfran fechan o'r cyfanswm defnydd a thaniadau. Roedd y modd tanio llonyddu yn cyfrif am lai na un y

[38] Gweler, er enghraifft: Cwestiynau ac Atebion NPCC ar Ddyfeisiau Ynni Wedi'i Ddargludo; The Telegraph (2019) Tasers to be issued to everyone frontline officer in force's response to 'sickening trend' of attacks on police. Cyrchwyd o Tasers to be issued to every frontline officer in force's response to 'sickening trend' of attacks on police (telegraph.co.uk); Mirror Ar-lein (2017) Tasers for 1,800 more London police following knife crime rise and terror attacks. Cyrchwyd o https://www.mirror.co.uk/news/uk-news/tasers-1800-more-london-police-10653952

[39] Y Coleg Plismona (2020) Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

[40] Carrying Tasers increases police use of force, study finds | Prifysgol Caergrawnt

cant (1%) o gyfanswm y defnydd o Taser yn gyson dros y tair blynedd. Dyma ganfyddiad cadarnhaol.

Codwyd pryderon am y modd tanio llonyddu yn adroddiad Taser 2008 yr IPCC[41], lle nodwyd bod y rhan fwyaf o gwynion am Taser yn ymwneud â'i ddefnyddio yn y modd tanio llonyddu. Roedd yr adroddiad hefyd yn bryderus bod y modd tanio llonyddu yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar y frest, gwddf, pen neu balfeisiau, er gwaethaf canllawiau yn nodi na ddylid defnyddio'r Taser yn uniongyrchol ar wddf neu ben unigolyn oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol i amddiffyn bywyd.

Gellir priodoli'r lleihad yn y defnydd o'r modd tanio llonyddu i'w ddefnydd ddim yn cael ei addysgu mwyach mewn hyfforddiant Taser, o bosibl, a bod canllawiau yn dweud yn glir wrth swyddogion ei fod yn aneffeithiol wrth gyflawni analluogrwydd. Efallai fod gan swyddogion hefyd ymwybyddiaeth well y bydd defnyddio'r modd tanio llonyddu yn denu mwy o graffu ac yn gofyn am lefelau uwch o gyfiawnhad. Ar hyn o bryd, mae APP yn dal i nodi y gellir defnyddio'r modd tanio llonyddu "lle mae'n gyfiawnadwy", ond mae hefyd yn amlygu nad yw'n cyflawni analluogrwydd cyhyrol ac y dylid cyfeirio ei ddefnydd yn y modd hwn atom yn wirfoddol[42].

## Saethiadau lluosog a pharhaus

Canfu adolygiad defnydd o rym 2016 yr IPCC pan ddefnyddir Taser, fe'i defnyddir yn aml fwy nag unwaith[43]. Canfu ein dadansoddiad o ymchwiliadau a gwblhawyd dros gyfnod o bum mlynedd y defnyddiwyd Taser yn erbyn 31 o bobl, 81 o weithiau[44]. Canfuom fod Taser pan oedd yn cysylltu â'r corff, yn taro cefn yr unigolyn amlaf, yna'r frest a'r stumog, a'r breichiau a'r coesau. Saethwyd Taser am bum eiliad yn y rhan fwyaf o achosion.

Nid yw canllawiau cenedlaethol yn gwahardd defnydd parhaus nac estynedig o Taser ond mae'n amlygu'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â hynny. Noda APP y gellir defnyddio Taser yn "barhaus ac estynedig os nad yw'r analluogrwydd a ddymunir wedi digwydd ac mae mwy o ddefnydd o rym yn gyfiawnadwy a chymesur yn yr amgylchiadau".

Mae canllawiau hefyd yn nodi y dylai swyddogion ddefnyddio'r Model Penderfynu Cenedlaethol ac "adolygu opsiynau eraill gan y gallai fod yna resymau technegol neu

---

41 IPCC (2008) Tasers. Adroddiad yr IPCC ar achosion yn cynnwys y defnydd o Taser rhwng 1 Ebrill 2004 a 30 Medi 2008.
Cyrchwyd o https://www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/use_of_force_taser_report.pdf
42 Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig, y Coleg Plismona. Dyfeisiau ynni wedi'i ddargludo (Taser). Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/armed-policing/conducted-energy-devices-taser/#verbal-warning-and-contact
43 Mae hyn yn cyfeirio at bob defnydd, nid dim ond Tasers wedi'u tanio.
44 Mae'n cynnwys tynnu Taser o'i gas yn ogystal â'i danio.

seicolegol pam nad yw'r ddyfais yn gweithio fel y disgwyl". Rhestrir "defnydd ailadroddus a/neu barhaus" ac "osgoi ardaloedd sensitif (yn bennaf y pen, gwddf neu'r genitalia)" fel ffactorau risg yn APP, er na ddarperir rhagor o fanylion neu ganllawiau yn yr APP ei hun[45].

## 5.3 Nodweddion pobl sydd ynghlwm â digwyddiadau Taser

### Ethnigrwydd

Dengys data'r Swyddfa Gartref fod pobl Ddu yn fwy tebygol o wynebu'r defnydd o Taser yn eu herbyn na phobl Wyn[46]. Roedd pobl Ddu ynghlwm â 20% i 21% o ddigwyddiadau Taser ym mhob un o dair blynedd y data, er mai pobl Ddu yw llai na phedwar y cant (4%) o'r boblogaeth[47].

Yn 2019/20[48], defnyddiwyd Taser yn erbyn pobl Ddu ar gyfradd wyth gwaith yn uwch na[49] phobl Wyn[50]. Canfu dadansoddiad y Cop o ddata 2017/18[51] fod swyddogion yn fwy tebygol o lawer o dynnu Taser o'i gas pan oedd digwyddiadau yn cynnwys unigolyn yr oeddent yn ei ystyried yn Ddu ond nad oeddent yn fwy tebygol o'i danio.

Roedd pobl Asiaidd ynghlwm â chwech y cant (6%) o ddigwyddiadau Taser yn 2017/18, a saith y cant (7%) o ddigwyddiadau yn 2018/19 a 2019/20[52]. Roedd pobl o ethnigrwydd cymysg ynghlwm â thri y cant (3%) o ddigwyddiadau Taser ym mhob un o'r tair blynedd[53]. Mae'r gyfran o ddigwyddiadau Taser yn cynnwys y grwpiau hyn yn cyd-fynd yn fras â maint eu poblogaethau[54]. Canfu dadansoddiad y CoP fod y

---

45 Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig, y Coleg Plismona. Dyfeisiau ynni wedi'i ddargludo (Taser). Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/armed-policing/conducted-energy-devices-taser/#verbal-warning-and-contact

46 Mae ethnigrwydd a phob nodwedd arall yn seiliedig ar ganfyddiadau swyddogion.

47 Poblogaeth Cymru a Lloegr. Cyrchwyd o https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/national-and-regional-populations/population-of-england-and-wales/latest

48 Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/945435/police-use-of-force-apr2019-mar2020-hosb3720.pdf

49 Roedd hyn yn eithrio data gan Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan (MPS), lle'r oedd y gyfradd bum gwaith yn uwch.

50 Cynghorydd y Swyddfa Gartref y dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r data oherwydd problemau gydag ansawdd y data.

51 Y Coleg Plismona (2020) Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

52 Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics

53 Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics

54 Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod pobl Asiaidd yn cyfrif am 8% o'r boblogaeth a bod pobl yn perthyn i grwpiau ethnig lluosog/cymysg yn cyfrif am ddau y cant.

siawns o Taser yn cael ei dynnu o'i gas a'i danio yn llai pan ystyriwyd bod yr unigolyn o ethnigrwydd Asiaidd[55].

Mae cyfraddau ymwneud grwpiau ethnig gwahanol â digwyddiadau Taser wedi bod yn gyson ar draws y tair set o ddata. Ymddengys fod pobl Ddu yn cael eu gorgynrychioli'n anghyfartal mewn digwyddiadau Taser o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Nid yw'n glir o'r data pam mae pobl Ddu yn fwy tebygol o fod ynghlwm â'r defnydd o Taser ond nid ei danio. Fodd bynnag, mae corff o lenyddiaeth[56] sy'n dangos bod pobl Ddu yn aml yn agored i ragdybiaethau ystrydebol ac y gellir eu hystyried yn fwy o fygythiad.

## Oedran

Roedd oddeutu 88% o'r defnydd o Taser ar draws setiau data tair blynedd y Swyddfa Gartref yn cynwys oedolion rhwng 18 a 64 oed[57]. Roedd plant rhwng 11 a 17 oed ynghlwm ag oddeutu wyth y cant (8%) o ddigwyddiadau. Roedd pobl dros 65 oed a phlant o dan 11 oed ynghlwm â llai nag un y cant (1%) o ddigwyddiadau (0.5% a 0.1% yn y drefn honno) ar draws pob un o'r tair blynedd. Canfu dadansoddiad y CoP fod y siawns o Taser yn cael ei dynnu o'i gas a'i danio yn llai pan oedd yr unigolyn o dan 18 oed[58].

Ychydig iawn o blant o dan 11 oed sydd ynghlwm â digwyddiadau Taser. Cofnododd yr heddlu 16 o ddigwyddiadau yn 2017/18[59], 29 o ddigwyddiadau yn 2018/19[60] a 23

---

[55] Y Coleg Plismona (2020) Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

[56] Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Angiolini, E. (Ionawr 2017). Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau ac Anafiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655401/Report_of_Angiolini_Review_ISBN_Accessible.pdf; Lopez, G. (2017, Mawrth 17). Study: people see black men as larger and more threatening than similarly sized white men. Cyrchwyd o https://www.vox.com/identities/2017/3/17/14945576/black-white-bodies-size-threat-study Race-based Patterns of Selective Attention; The Journal of Blacks in Higher Education. (20 Mawrth 2017) Study Finds a Bias in the Perception of the Size and Threat of Black Men. Cyrchwyd o https://www.jbhe.com/2017/03/study-finds-a-bias-in-the-perception-of-the-size-and-threat-of-black-men/

[57] Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics Adroddir oedrannau yn ôl canfyddiad swyddogion.

[58] Y Coleg Plismona (2020) Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

[59] Y Swyddfa Gartref (2018). Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2017 i Fawrth 2018. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2017-to-march-2018 Noder bod yr ystadegau hyn yn seiliedig ar is-set (12,755) o gyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (16,913) h.y. dim ond ar y digwyddiadau hynny lle rhoddwyd manylion ehangach am y digwyddiad.

[60] Y Swyddfa Gartref (2019). Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2018 i Fawrth 2019. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2018-to-march-2019. Noda'r Swyddfa Gartref fod y ffigur hwn yn anghywir, gan ei fod yn cynnwys y defnydd o Taser yn erbyn anifeiliaid ac achosion wedi'u categoreiddio'n anghywir.

o ddigwyddiadau yn 2019/20[61]. Ni ddarparwyd data ar y math o ddefnydd o Taser ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. Fodd bynnag, darparodd y set ddata ddiweddaraf ddadansoddiad o'r math o ddefnydd o Taser, ac ni chofnodwyd yr un o'r digwyddiadau fel Taser wedi'i danio (er ni chofnodwyd y math o ddefnydd o Taser mewn saith o'r rhain).

Mae nifer y digwyddiadau Taser yn cynnwys plant rhwng 11 a 17 oed yn fwy pryderus:

- yn 2017/18, roedd 938 o ddigwyddiadau yn cynnwys plant rhwng 11 a 17 oed
- yn 2018/19, cynyddodd hyn i 1,671 o ddigwyddiadau
- yn 2019/20, cynyddodd hyn eto i 2,795 o ddigwyddiadau

Fel yr uchod, nid yw dadansoddiadau o'r mathau o ddefnydd ar gael ar gyfer y ddwy set ddata gyntaf, ond dengys y data diweddaraf fod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau (90%) yn rhai lle na thaniwyd Taser. O'r 2,795 o ddigwyddiadau, taniwyd Taser mewn 134 ohonynt[62] [63].

Mae'r gyfran o blant o dan 11 oed ynghlwm â'r defnydd o Taser wedi parhau yn sefydlog ar 0.1% ar draws y tair blynedd. Os tybiwn y gellir defnyddio data 2019/20 fel awgrym o flynyddoedd blaenorol, mae'n debygol yr oedd ychydig iawn o'r rhain (os o gwbl) yn cynnwys tanio Taser.

O'i gymharu, mae'r defnydd o Taser yn cynnwys plant rhwng 11 a 17 oed wedi cynyddu fymryn fel canran o'r defnydd cyffredinol o Taser bob blwyddyn (gan gynyddu o 7% yn 2017/18, i 8% yn 2018/19 a 9% yn 2019/20). Dyma newid bach, ond bydd angen monitro a yw'r duedd hon yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

Cydnabu adolygiad o ddigwyddiadau Taser rhwng 2004 a 2013 yr IPCC[64] bryderon mawr am y defnydd o Taser ar blant a phobl ifanc. Mae hyn yn parhau yn bryder mawr i nifer, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd yn y defnydd o Taser yn erbyn plant dros y tair blynedd diwethaf.

Nid yw data'r Swyddfa Gartref yn darparu dadansoddiad o ethnigrwydd y plant ynghlwm â digwyddiadau Taser. Fodd bynnag, dangosodd ymatebion i geisiadau

---

[61] Y Swyddfa Gartref (2020). Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2019-to-march-2020

[62] Mewn 146 o ddigwyddiadau, ni chofnodwyd y math o ddefnydd o Taser.

[63] Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics

[64] IPCC. (2014). Adolygiad yr IPCC o gwynion a digwyddiadau Taser 2004-2013. Cyrchwyd o https://www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/use_of_force_review_of_taser_complaints_and_incidents.pdf

Rhyddid Gwybodaeth gan Gynghrair Hawliau Plant Lloegr (CRAE), rhan o Just for Kids Law, yn y 10 mis cyntaf o 2019, fod 74% o blant a wynebodd Taser yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn yn Llundain o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig[65].

Er bod gan Lundain ddemograffeg a maint unigryw, awgryma'r canfyddiad hwn, ar y cyd â chyfradd anghyfartaledd ethnig yn y defnydd o Taser yn genedlaethol ar draws pob grŵp oedran, ei bod yn bosibl bod plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi'u cynnwys yn anghyfartal mewn digwyddiadau Taser yn genedlaethol.

## Rhyw

Dengys data'r Swyddfa Gartref fod oddeutu 90% o ddigwyddiadau Taser yn cynnwys dynion[66]. Canfu dadansoddiad y CoP fod yr unigolyn yn ddyn yn cynyddu'r siawns o Taser yn cael ei dynnu o'i gas a'i danio[67]. Edrychodd y dadansoddiad hefyd ar rywedd swyddogion ynghlwm â digwyddiadau Taser a chanfu fod swyddogion gwrywaidd yn fwy tebygol o dynnu Taser o'i gas, ond nid yn fwy tebygol o'i danio na swyddogion o rywedd arall.

## Pryderon iechyd meddwl a chorfforol

Wrth gwblhau ffurflen Defnydd o Rym, gofynnir i swyddogion gofnodi a ydynt yn ystyried bod gan yr unigolyn bryderon iechyd meddwl neu anabledd corfforol. Dengys data'r Swyddfa Gartref na adroddodd swyddogion fod gan bobl bryderon iechyd meddwl neu anabledd corfforol mewn oddeutu 80% o ddigwyddiadau Taser[68]. Yn nwy flynedd gyntaf y data, recordiodd swyddogion bryderon iechyd meddwn mewn 18% o ddigwyddiadau. Yn 2019/20, roedd swyddogion yn credu y gallai unigolion fod wedi cael pryder iechyd meddwl mewn 15% o ddigwyddiadau[69]. Roedd swyddogion yn credu bod gan bobl anabledd corfforol mewn llai nag un y cant (1%) o ddigwyddiadau ym mhob un o dair blynedd y data.

Mae'n bwysig cydnabod bod nifer o bryderon iechyd meddwl a chorfforol yn gudd neu nid ydynt yn ganfyddadwy'n uniongyrchol, neu fel arall, a allai olygu ei bod yn

---

65 Cynghrair Hawliau Plant Lloegr. Hawliau plant a phlismona: Tasers a hawliau plant. Cyrchwyd o http://www.crae.org.uk/media/128554/CRAE_POLICING-TASER-PRINT-1.pdf

66 Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics

67 Y Coleg Plismona (2020) Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

68 Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics Fel yr uchod, mae hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau swyddogion.

69 Mae'n werth nodi yng nghyhoeddiadau 2017/18 a 2018/19, y cofnodwyd data ar anabledd canfyddedig fel 'heb ei adrodd' mewn llai nag 1% o ddigwyddiadau, ond cynyddodd hyn i 4% yn y cyhoeddiad diweddaraf (2019/20). Mae'r tabl data ar gyfer 2019/20 yn nodi lle'r oedd manylion llawn digwyddiad ar goll, roedd y digwyddiad hwn yn cael ei gynnwys yn y golofn 'heb ei adrodd', a allai egluro'r gwahaniaeth rhwng blynyddoedd blaenorol.

fwy anodd canfod pryderon iechyd meddwl neu gorfforol. O ganlyniad, dylid trin y ffigurau hyn gyda gofal.

Yn wir, awgryma tystiolaeth arall fod iechyd meddwl yn nodwedd fwy cyffredin mewn digwyddiadau Taser nag yr awgryma data'r Swyddfa Gartref. Canfu adroddiad 2014 yr IPCC fod pryderon iechyd meddwl a hunan-niweidio yn ffactorau yn y rhan fwyaf o achosion diffyg cydymffurfio a adolygasom. Canfu hefyd fod nifer y cwynion yn gysylltiedig â Taser lle'r oedd pryderon iechyd meddwl neu hunan-niweidio yn ffactor wedi cynyddu ers 2007. Yn ogystal â hyn, canfu dadansoddiad y CoP fod unigolyn yn dioddef pryderon iechyd meddwl yn cynyddu'r siawns o Tasers yn cael eu tynnu o'u cas a'u tanio[70].

Canfu adroddiad 2016 yr IPCC fod iechyd meddwl yn ffactor mewn mwy na hanner (53%) yr atgyfeiriadau Taser a adolygasom, ac mewn traean o ymchwiliadau annibynnol[71]. Roedd cynnydd hefyd mewn cwynion yn gysylltiedig â Taser mewn perthynas â digwyddiadau lle'r oedd hunan-niweidio neu bryderon iechyd meddwl yn ffactor.

Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o adolygiad 2016 yr IPCC yn bryderus y gallai namau cudd olygu bod rhai sefyllfaoedd yn gwaethygu'n fwy cyflym oherwydd diffyg dealltwriaeth swyddogion o, neu hyder mewn, delio â phobl â phryderon iechyd meddwl[72]. Dywedodd pobl â phryderon iechyd meddwl y dylai swyddogion gael hyfforddiant i wybod sut mae delio'n effeithiol â digwyddiadau yn cynnwys pobl fregus lle gallai fod yn angenrheidiol defnyddio grym[73].

Amlygodd adolygiad yr IPCC bwysigrwydd asesiadau risg ac awgrymodd fod canllawiau cenedlaethol yn sicrhau bod pwyslais digonol yn cael ei roi ar anghenion pobl fregus pan fydd swyddogion yn ystyried defnyddio grym. Dywedodd yr adolygiad y dylai swyddogion ystyried sut y gallai eu gweithredoedd effeithio ar bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl neu feddygol neu anableddau dysgu, fel y gallant asesu'r cam gweithredu mwyaf priodol i gyfyngu ar unrhyw ofid posibl. Anogodd swyddogion hefyd i geisio cyngor a gwybodaeth gan weithiwr cymorth unigolyn (lle bo'n bosibl a pherthnasol) i lywio penderfyniadau.

---

[70] Y Coleg Plismona (2020) Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

[71] Mae hyn yn seiliedig ar 52 o atgyfeiriadau yn cynnwys Taser rhwng 1 Ebrill 2014 a 30 Mehefin 2014.

[72] IPCC. (2016). Defnydd yr heddlu o rym; tystiolaeth o gwynion, ymchwiliadau a chanfyddiadau'r cyhoedd. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/IPCC_Use_Of_Force_Report.pdf

[73] IPCC. (2016). Defnydd yr heddlu o rym; tystiolaeth o gwynion, ymchwiliadau a chanfyddiadau'r cyhoedd. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/IPCC_Use_Of_Force_Report.pdf

## 5.4 Nodweddion amgylcheddol a sefyllfaol y defnydd o Taser

Dengys data'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2019/20[74] y defnyddir Taser amlaf mewn lleoliadau cyhoeddus (57%), gydag anheddau yn ail (35%). Roedd y defnydd o Taser yn lleoliadau'r heddlu neu mewn lleoliadau meddygol ill dau yn cyfrif am lai na dau y cant (2%) o gyfanswm y digwyddiadau Taser.

Defnyddiwyd Taser 608 o weithiau yn lleoliadau'r heddlu[75] (47 ohonynt yn daniadau), a 565 o weithiau mewn lleoliadau meddygol[76] (95 ohonynt yn daniadau). O'r 47 o daniadau yn lleoliadau'r heddlu, roedd 24 yn y ddalfa, pump yn yr orsaf heddlu (ac eithrio'r ddalfa) a 18 yng ngherbydau'r heddlu. O'r 95 o daniadau mewn lleoliadau meddygol, roedd y rhan fwyaf (52) mewn lleoliad iechyd meddwl, gyda'r gweddill (43) mewn ysbyty (nid ysbyty iechyd meddwl).

Yn ei ddadansoddiad o ddata defnydd o rym wedi'i gofnodi gan yr heddlu, dadansoddodd y CoP ystod o ffactorau sefyllfaol, rhyngweithiol ac eraill a oedd yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd o swyddogion yn tynnu eu Tasers o'u cas a'u tanio. Canfu fod swyddogion yn fwy tebygol o dynnu eu Taser o'i gas a'i danio pan adroddasant wynebu "gwrthwynebiad gweithredol" gan bobl, pan ddywedasant eu bod yn defnyddio grym i amddiffyn eu hunain neu eraill a phan ddigwyddodd y digwyddiad mewn annedd.

Y ffactor â'r cysylltiad cryfaf â Taser yn cael ei danio (ond nid ei dynnu o'i gas) oedd y swyddog yn adrodd eu bod yn wynebu gwrthwynebiad ymosodol neu weithredol gan yr unigolyn. Roedd y siawns o danio Taser yn cynyddu hefyd pan oedd cyfrifoldebau'r swyddog yn cynnwys ymateb arfog a phan oedd y swyddog ar ei ben ei hun. Y ffactor â'r cysylltiad cryfaf â Taser yn cael ei dynnu o'i gas ond nid ei danio oedd y swyddog yn adrodd defnyddio grym i amddiffyn eu hunain neu eraill. Roedd y siawns yn cynyddu hefyd pan oedd gan y swyddog wybodaeth flaenorol am yr unigolyn.

Roedd y tebygolrwydd o Taser yn cael ei dynnu o'i gas a'i dynnu yn lleihau pan ddigwyddodd y digwyddiad yn lleoliadau'r heddlu neu mewn lleoliadau meddygol, lle rhestrwyd alcohol fel ffactor a lle'r oedd torf yn bresennol. Ymhlith y ffactorau yn gysylltiedig â siawns o swyddog yn tynnu Taser o'i gas ond nid ei danio yn lleihau

[74] Y Swyddfa Gartref (2020). Ystadegau defnydd yr heddlu o rym, Cymru a Lloegr: Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2019-to-march-2020
[75] Roedd hyn yn cynnwys yng ngherbydau'r heddlu, yr orsaf heddlu (ac eithrio'r ddalfa) a'r ddalfa.
[76] Roedd hyn yn cynnwys ysbytai, cyfleusterau iechyd meddwl ac mewn ambiwlans.

oedd y swyddog yn meddu ar fwy na 15 mlynedd o wasanaeth, pan nad oedd eu prif gyfrifoldebau yn cynnwys ymateb arfog, a lle rhestrwyd cyffuriau fel ffactor.

Mae rhai o'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau o'n hadroddiadau blaenorol. Canfu adroddiad 2016 yr IPCC o atgyfeiriadau Taser y digwyddodd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yng nghartref unigolyn neu ar dir cyfagos, a bod Taser yn cael ei ddefnyddio'n aml yn dilyn adroddiadau o ymddygiad ymosodol. Dim ond un o'r digwyddiadau a ddigwyddodd yn nalfa'r heddlu. Canfu hefyd fod y defnydd o Taser yn aml yn rhan o weithrediad wedi'i gynllunio i weithredu gwarant chwilio neu'n dilyn galwadau i anghydfod domestig.

Mae canfyddiad y CoP fod y siawns o Taser yn cael ei dynnu o'i gas a'i danio yn lleihau yn lleoliadau'r heddlu neu mewn lleoliadau meddygol, o'i gymharu â'i ddefnydd mewn lleoliadau cyhoeddus, yn gadarnhaol. Yn ein hadroddiad Taser 2014, codwyd pryderon gennym am y defnydd o Taser yn y ddalfa. Er mai cyfran gymharol fechan o achosion o'r fath a nodasom yn unig, dadleuasom fod y bygythiad o drais difrifol yn llawer is nag mewn lleoliadau cymunedol a dylai ei ddefnydd mewn lleoliadau a reoleiddir fod yn destun craffu cadarn a monitro lleol. Dywedasom fod rhaid cyfiawnhau unrhyw ddefnydd o'r fath a galwasom am ganllawiau gwell ar y defnydd o Taser yn y ddalfa.

Mae adroddiadau blaenorol yr IPCC hefyd wedi nodi bod arfau, cyffuriau ac alcohol yn nodwedd gyffredin mewn achosion Taser. Yn adroddiad 2014 yr IPCC, roedd dros hanner yr achosion diffyg cydymffurfio yn cynnwys meddiant arf neu feddiant arf posibl. Yn 2016, canfu dadansoddiad o 32 o ymchwiliadau Taser fod gan 14 (44%) o unigolion arf, a bod arfau yn cynyddu'r siawns o Taser yn cael ei ddefnyddio.

Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau o astudiaeth academaidd, lle'r oedd y siawns o Taser yn cael ei danio yn cynyddu'n sylweddol pan oedd gan yr unigolyn arf a rheswm y swyddog dros ddefnyddio grym oedd "i amddiffyn ei hun neu eraill[77]". Canfu adroddiad 2016 yr IPCC fod alcohol a/neu gyffuriau yn nodwedd ym mron i ddau draean (64%) o'r 52 o atgyfeiriadau Taser.

Cynigiodd adroddiad 2014 yr IPCC fewnwelediad hefyd i'r ffordd y mae'r defnydd o Taser wedi newid ers ei gyflwyno. Canfu mai dim ond ar ôl 2008, pan gyflwynwyd Tasers i swyddogion heb arfau, y datblygodd y cysylltiad rhwng 'cadw' â'r defnydd o Taser.

Cynyddodd nifer y digwyddiadau lle'r oedd 'arestiad' yn ffactor yn aruthrol hefyd ar ôl i Tasers gael eu hymestyn i swyddogion heb arfau, ac adroddodd swyddogion am

[77] Dymond, A. (2020). 'Taser, Taser'! Exploring factors associated with police use of Taser in England and Wales. Cyrchwyd o https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/10439463.2018.1551392

ddefnyddio Taser i'w cynorthwyo wrth atal a/neu efynnu rhywun. Roedd cynnydd sylweddol hefyd mewn cwynion yn gysylltiedig â Taser mewn perthynas ag arestiadau a lle'r oedd hunan-niweidio neu bryderon iechyd meddwl yn ffactor.

## 5.5 Marwolaethau ac anafiadau

### Marwolaethau

Mae ein hymchwiliadau i farwolaeth yn ystyried a allai'r heddlu fod wedi achosi neu gyfrannu at farwolaeth neu fethu ag amddiffyn rhywun. Nid pennu achos y farwolaeth yw ein rôl. Pennir achos y farwolaeth yng nghwest y Crwner.

### Anafiadau

Gall Tasers arwain at ystod o anafiadau, yn cynnwys y dartiau'n treiddio i mewn i'r croen, anafiadau straen neu gyhyrol a chwympiadau nas cefnogir[78]. Gall Taser hefyd beri risgiau penodol i bobl â chyflyrau meddygol penodol, ac mae digwyddiadau cardiaidd a achosir gan y wefr drydanol wedi'u cydnabod[79]. Mae cael eich saethu atoch â Taser yn boenus iawn a gall, fel ffurfiau eraill ar rym yr heddlu, gael goblygiadau seicolegol difrifol ar unigolion.

Mae'r Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Oblygiadau Meddygol Arfau Llai Angheuol (SACMILL)[80] wedi nodi bod nifer yr anafiadau difrifol a achosir gan Taser "yn gymharol isel o'i gymharu â'r nifer o weithiau y defnyddir y dyfeisiau, i bob golwg." Mae SACMILL wedi cydnabod er hynny fod nifer fechan o farwolaethau ac anafiadau difrifol yn y DU wedi bod yn gysylltiedig â Taser[81].

Mae rhai dadansoddiadau o ddefnydd yr heddlu o rym wedi canfod bod defnyddio Taser yn gysylltiedig â llai o anafiadau na defnyddio cŵn yr heddlu, batonau,

78 Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Oblygiadau Meddygol Arfau Llai Angheuol (SACMILL). (2016). Datganiad ar Oblygiadau Meddygol Defnyddio TASER x2 System Dyfais Ynni Wedi'i Ddargludo. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/595242/Medical_Statement_on_the_TASER_X2_system.pdf

79 Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Oblygiadau Meddygol Arfau Llai Angheuol (SACMILL). (2016). Datganiad ar Oblygiadau Meddygol Defnyddio TASER x2 System Dyfais Ynni Wedi'i Ddargludo. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/595242/Medical_Statement_on_the_TASER_X2_system.pdf

80 Mae'r Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Oblygiadau Meddygol Arfau Llai Angheuol (SACMILL) yn darparu cyngor annibynnol i lywodraeth y DU ar effeithiau meddygol arfau llai angheuol.

81 Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Oblygiadau Meddygol Arfau Llai Angheuol (SACMILL). (2016). Datganiad ar Oblygiadau Meddygol Defnyddio TASER x2 System Dyfais Ynni Wedi'i Ddargludo. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/595242/Medical_Statement_on_the_TASER_X2_system.pdf

chwistrell lidus a gwrthdaro corfforol.[82]. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y dadansoddiadau hyn yn cynnwys digwyddiadau lle'r oedd Taser (ac offer arall) wedi'i dynnu o'i gas a'i anelu yn unig ac nid oeddent yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau lle'r oedd cyswllt corfforol. Ymddengys fod SAMCILL yn derbyn y gall Taser fod yn llai niweidiol na ffurfiau eraill ar rym, gan ei fod yn cyfeirio at ffurfiau eraill ar rym "yn fwy niweidiol, o bosibl" na Taser yn ei ddatganiadau, er ni chyflwynir dadansoddiad o'r risgiau cymharol o anaf.[83].

Ystyriodd dadansoddiad 2020 y CoP y tebygolrwydd o anafiadau i swyddogion a'r cyhoedd pan dynnwyd Tasers o'u cas a'u tanio. Canfu fod tanio Taser yn gysylltiedig â siawns uwch o'r unigolyn yn cael ei anafu a'i anfon i'r ysbyty, a chyda swyddogion yn cael eu hymosod arnynt a'u hanafu. Roedd tynnu Taser o'i gas, fodd bynnag, yn lleihau'r tebygolrwydd o swyddogion yn cael eu hymosod arnynt, er ni lwyddodd yr astudiaeth i bennu ai Taser fel y cyfryw oedd y rheswm dros hyn neu a oedd hyn o ganlyniad i ffactorau eraill, megis y pellter y mae Taser yn ei ganiatáu rhwng swyddog ac unigolyn[84].

Canfu adroddiad 2014 yr IPCC, enghreifftiau o anafiadau eilaidd yn dilyn y defnydd o Taser (er nid oedd modd priodoli pob un i Taser). Yn y rhan fwyaf o ymchwiliadau a adolygasom, roedd esboniadau swyddogion dros ddefnyddio Taser yn cyfeirio at Taser fel un o'r ffurfiau lleiaf ar rym ar gael iddynt yn yr amgylchiadau, ac y byddai tactegau eraill wedi peri anaf mwy difrifol. Galwodd yr adolygiad am "fwy o bwyslais...ar gamau cychwynnol y model penderfynu gan swyddogion, gan ddefnyddio cyfathrebu a'r wybodaeth sydd ganddynt, yn hytrach na throi'n gyflym at ddefnyddio grym". Canfu adroddiad 2016 yr IPCC er nad yw hi bob amser yn bosibl cysylltu anafiadau â'r mathau o rym a ddefnyddir, arweiniodd Taser at fân anafiadau, yn cynnwys treiddiad adfachau.

---

[82] Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. (2019). TASER – Fifteen years on. An analysis of TASER use in British Policing. Cyrchwyd o https://www.npcc.police.uk/Taser/NPCC%20Taser%20Report%20combined.pdf; Stevenson, R, Drummond-Smith, I. (Gorffennaf, 2020) Medical implications of Conducted Energy Devices in law enforcement. Cyrchwyd o https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S1752928X2030055X#:~:text=The%20injuries%20sustained%20by%20both%20subjects%20and%20Police,Police%20Dogs%2C%20baton%2C%20irritant%20spray%20or%20physical%20confrontation.

[83] Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Oblygiadau Meddygol Arfau Llai Angheuol (SACMILL). (2016). Datganiad ar Oblygiadau Meddygol Defnyddio TASER x2 System Dyfais Ynni Wedi'i Ddargludo. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/595242/Medical_Statement_on_the_TASER_X2_system.pdf

[84] Y Coleg Plismona (2020) Defnydd yr heddlu o rym: Tactegau, ymosodiadau a diogelwch. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Use_of_force_report.pdf

## 5.6 Anghyfartaledd ethnig

Rhaid edrych ar bryderon am y defnydd anghyfartal o Taser ar leiafrifoedd ethnig (yn benodol pobl Ddu), yng nghyd-destun ehangach a hanesyddol plismona'r cymunedau hyn. Nid diben yr adroddiad hwn yw archwilio'r materion hyn mewn manylder ond o ystyried na ellir deall anghyfartaledd ethnig yn y defnydd o Taser heb y cyd-destun hwn, ceir crynodeb byr isod.

Ym 1999, canfu Ymchwiliad Macpherson[85] i farwolaeth Stephen Lawrence fod gwasanaeth yr heddlu yn hiliol yn sefydliadol. Dywedodd Macpherson fod hyn yn amlwg yn yr ymchwiliad i farwolaeth Stephen, yr ymdriniaeth o'i deulu a ffrindiau, ac yn fwy eang, yn y gwahaniaeth ledled y wlad yn y ffigurau stopio a chwilio a than-adrodd o ddigwyddiadau hiliol. Canfu'r Ymchwiliad dystiolaeth gyson o "or-blismona" a "than-amddiffyn" cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mwy nag 20 mlynedd yn ddiweddarach, dywedodd tystion wrth ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref (HASC) i'r cynnydd a wnaed ers adroddiad Macpherson nad yw gwasanaeth yr heddlu wedi goresgyn problemau a chanfyddiadau o hiliaeth sefydliadol. Dadleuodd rhai tystion nad oes mwy wedi cael ei gyflawni oherwydd bod lluoedd wedi methu â derbyn y broblem o hiliaeth sefydliadol[86], a bod rhaid cydnabod ei chyffredinolrwydd parhaus cyn y gellir cyflawni newid ystyrlon[87]. Amlygodd tystion sut mae pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, hyd heddiw, yn dal i gael eu cynrychioli'n anghyfartal mewn ystadegau arestio, defnydd o rym a stopio a chwilio, a bod anghyfartaledd ethnig yn treiddio drwy bron bob cam o'r system cyfiawnder troseddol[88].

Dengys data'r Swyddfa Gartref fod pobl Ddu ynghlwm â 16% o ddigwyddiadau defnydd o rym yn 2018/19 a 2019/20, er mai nhw yw llai na phedwar y cant (4%) o'r boblogaeth. Mae pobl Ddu yn fwy tebygol yn anghyfartal o wynebu'r defnydd o arfau

---

[85] Syr MacPherson, W. (Chwefror 1999). Ymchwiliad Stephen Lawrence. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/277111/4262.pdf

[86] Tystiolaeth ar lafar gan Deighton, Khan a Ryder i Ymchwiliad HASC. Cyrchwyd o http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/the-macpherson-report-twenty-years-on/oral/103155.pdf

[87] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du (NBPA) i Ymchwiliad HASC. Cyrchwyd o http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/the-macpherson-report-twenty-years-on/written/101991.html

[88] Adolygiad Lammy. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/643001/lammy-review-final-report.pdf

llai angheuol yn eu herbyn, ac mae pobl Ddu ac Asiaidd wedi'u cynnwys yn anghyfartal mewn digwyddiadau arfau tanio[89].

Mae anghyfartaledd yn y defnydd o rym wedi'i briodoli i ganfyddiadau o bobl Ddu yn 'beryglus'[90]. Cydnabu Adolygiad Angiolini[91] fod stereoteipio dynion Du yn "beryglus", "treisgar ac anwadal" yn "thema hirsefydlog sydd wedi ymwreiddio ym meddyliau nifer". Canfu'r adolygiad nad yw'n anghyffredin i swyddogion ddisgrifio dynion Du fel pobl ac iddynt "gryfder goruwchnaturiol", ac "yn aml yn gwbl anghywir", fel y "dyn mwyaf i mi ddod ar ei draws erioed"[92]. Dadleuodd fod canfyddiadau o'r fath yn cynyddu'r tebygolrwydd o rym ac ataliaeth yn cael eu defnyddio, a gallai effaith ddad-ddyneiddio hyn olygu bod swyddogion yn defnyddio grym ac ataliaeth "ar draul unrhyw ffocws ar lesiant y carcharor". Dywedwyd wrth y Pwyllgor Dethol Materion Cartref fod swyddogion yn aml yn 'cyfiawnhau'r' defnydd o rym ar ddynion Du ac Asiaidd gyda sylwadau am "ba mor o dan fygythiad y teimlant"[93].

Yn ogystal, canfu adolygiad Angiolini fod pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu hatal na phobl Wyn, a phrofi "technegau atal peryglus a grym gormodol". Dywedodd Angiolini y gall rhyngblethedd hil ac iechyd meddwl gynyddu'r risg o lefelau uwch o ddefnydd o rym ac ataliaeth[94]. Cydnabu'r adolygiad effaith ddofn y defnydd anghyfartal o rym a marwolaethau yn gysylltiedig ag atal ar gymunedau Du, a sut mae hynny'n berthnasol iawn i'w profiadau o wahaniaethu a gor-blismona.[95].

---

89 Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Defnydd yr Heddlu o Rym. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/collections/police-use-of-force-statistics

90 Tystiolaeth ysgrifenedig gan Open Society Foundations i Ymchwiliad HASC. Cyrchwyd o http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/the-macpherson-report-twenty-years-on/written/103527.pdf

91 Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Angiolini, E. (Ionawr 2017). Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau ac Anafiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655401/Report_of_Angiolini_Review_ISBN_Accessible.pdf

92 Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Angiolini, E. (Ionawr 2017). Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau ac Anafiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655401/Report_of_Angiolini_Review_ISBN_Accessible.pdf

93 Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Ymgyrch Teulu a Ffrindiau Unedig (UFFC) i Ymchwiliad HASC. Cyrchwyd o http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/the-macpherson-report-twenty-years-on/written/95098.html

94 Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Angiolini, E. (Ionawr 2017). Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau ac Anafiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655401/Report_of_Angiolini_Review_ISBN_Accessible.pdf

95 Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Angiolini, E. (Ionawr 2017). Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau ac Anafiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655401/Report_of_Angiolini_Review_ISBN_Accessible.pdf

Mae stopio a chwilio wedi cael effaith anghyfartal ar grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ers i ystadegau gael eu cyhoeddi[96]. Yn 2019/20, roedd pobl Ddu naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a chwilio na phobl Wyn, ac roedd pobl Asiaidd a phobl o ethnigrwydd cymysg ddwywaith yn fwy tebygol[97]. Adroddodd Macpherson fod gwahaniaethu yn 'elfen bwysig yn y broblem stopio a chwilio'[98].

Dadleuodd un astudiaeth, er bod naratif yr heddlu ynghylch stopio a chwilio yn canolbwyntio ar gyllyll, gangiau, troseddau cyfundrefnol, cyflenwi cyffuriau a chaethwasiaeth fodern, fod ei dadansoddiad ei hun, yn hytrach, yn adrodd stori am 'gymunedau lleiafrifol, difreintiedig yn cael eu gor-blismona a'u troseddoli'n ddetholus'[99]. Yn 2017, beirniadodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) fethiant yr heddlu i egluro'r defnydd anghyfartal o stopio a chwilio yn erbyn grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac arddangos bod ei ddefnydd yn rhesymol a theg yn gyson[100].

Yn nhermau arestiadau, dengys ystadegau ar gyfer 2018/19 fod pobl Ddu deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu harestio na phobl Wyn, ac roedd pobl o ethnigrwydd cymysg ddwywaith yn fwy tebygol[101]. Mae anghyfartaledd arestiadau wedi cael ei gysylltu â'r anghyfartaledd yn y defnydd o stopio a chwilio[102].

Mae pryderon hefyd am ddiffyg atebolrwydd swyddogion sy'n ymddwyn mewn ffordd wahaniaethol. Yn y gorffennol, rydym wedi adnabod diffygion difrifol gyda'r ffordd y mae lluoedd yn delio â honiadau o wahaniaethu gan yr heddlu, yn cynnwys methiannau i ystyried difrifoldeb honiadau, casglu tystiolaeth berthnasol, a delio â

[96] Shiner M, Carre Z, Delsol, R, Eastwood N. (2018) The Colour of Injustice: 'Race', drugs and law enforcement in England and Wales. Cyrchwyd o https://www.stop-watch.org/uploads/documents/The_Colour_of_Injustice.pdf
[97] Stopio a chwilio. Ffeithiau a ffigurau ethnigrwydd. Cyrchwyd o https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/policing/stop-and-search/latest#by-ethnicity
[98] Syr MacPherson, W. (Chwefror 1999). Ymchwiliad Stephen Lawrence. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/277111/4262.pdf
[99] Syr MacPherson, W. (Chwefror 1999). Ymchwiliad Stephen Lawrence. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/277111/4262.pdf
[100] HMICFRS. (2017). PEEL: Dilysrwydd yr heddlu 2017: Trosolwg cenedlaethol. Cyrchwyd o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/peel-police-legitimacy-2017-1.pdf
[101] Arestiadau. Ffeithiau a ffigurau ethnigrwydd. Cyrchwyd o https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/policing/number-of-arrests/latest (cyrchwyd 22 Chwefror 2021).
[102] Shiner M, Carre Z, Delsol, R, Eastwood N. (2018) The Colour of Injustice: 'Race', drugs and law enforcement in England and Wales. Cyrchwyd o https://www.stop-watch.org/uploads/documents/The_Colour_of_Injustice.pdf

honiadau lle nad oedd hiliaeth yn amlwg[103]. Mae StopWatch wedi dadlau, hyd yn oed pan mae lluoedd wedi derbyn y posibilrwydd o wahaniaethu sefydliadol, eu bod wedi methu â chanfod unrhyw swyddog unigol yn euog o wahaniaethu[104]. Mae methiannau'r heddlu i ymchwilio i droseddau casineb hiliol a delio â nhw'n ddigonol yn broblem arall sy'n effeithio ar hyder pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn yr heddlu a'u canfyddiad ohono[105].

Canfu adroddiad 2016 yr IPCC fod gan grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a chymunedau Du yn benodol, lefelau is o ymddiriedaeth yn yr heddlu. Adroddasant bryderon am duedd anymwybodol, stereoteipio unigolion a grwpiau, a sut y gall hyn ragbennu ymatebion swyddogion a'u canfyddiad o fygythiad. Canfu grwpiau ffocws a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019 y dywedodd nifer o'r cyfranogwyr Du eu bod yn teimlo'n llai diogel neu'n ofnus ym mhresenoldeb swyddogion, lle dywedodd cyfranogwyr eraill eu bod eisiau mwy o bresenoldeb yr heddlu ar strydoedd.[106].

---

[103] IPCC (Gorffennaf 2013) Adroddiad ar ymdriniaeth y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan o gwynion yn honni gwahaniaethu ar sail hil. Cyrchwyd o https://www.statewatch.org/media/documents/news/2013/jul/uk-ippc-report-met-racism.pdf; IPCC (2017) Adolygiad Dilynol o Ymdriniaeth yr Heddlu o Honiadau o Wahaniaethu. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/discrimination_report_2017.pdf

[104] Nodiadau o gyfarfod â Stopwatch parthed: Adolygiad o Ganllawiau Gwahaniaethu (4 Mawrth 2015)

[105] Ymchwiliad Stephen Lawrence (1999); HMICFRS (2018) "*Understanding the Difference: The initial police response to hate crime*"

[106] Ymchwil Rhanddeiliaid yr IOPC. (Rhagfyr 2019). Cyrchwyd o https://www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/Who-we-are/IOPC-Populus-Stakeholder-Research-2019.pdf

# 6. Canfyddiadau o'n hymchwiliad

## 6.1 Mathau o ymchwiliadau

Cynhelir tri math o ymchwiliadau annibynnol gan yr IOPC - ymchwiliadau i gŵyn, ymchwiliadau i faterion ymddygiad cofnodadwy ac ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol.

Ymchwiliadau i gŵyn yw'r rhai hynny sy'n dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad annibynnol. Gall y rhain fod naill ai'n destun 'gofynion arbennig' (lle mae awgrym y gallai unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu fod wedi torri safonau ymddygiad proffesiynol neu gyflawni trosedd)[107], neu ddim yn ddarostyngedig i ofynion arbennig (lle nad oes awgrym o unrhyw faterion ymddygiad neu droseddoldeb).

Cynhelir ymchwiliadau i ymddygiad naill ai pan fydd llu yn atgyfeirio mater ymddygiad i ni ei ymchwilio, neu'n dilyn atgyfeiriad marwolaeth neu anaf difrifol, lle mae awgrym y gallai unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu fod wedi torri safonau ymddygiad proffesiynol neu gyflawni trosedd.

Mae ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol yn ymdrin ag achosion sydd wedi'u hatgyfeirio i ni fel mater o farwolaeth neu anaf difrifol. Amlinellir y mathau o ymchwiliadau wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn yn nhabl 3.

**Tabl 3: Mathau o ymchwiliadau**

| Math o ymchwiliad | Achosion |
|---|---:|
| Ymchwiliadau i gŵyn | 41 |
| Ymchwiliadau i ymddygiad | 31 |
| Ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol | 29 |
| **Cyfanswm yr ymchwiliadau** | **101** |

[107] Nid yw ardystio bod achos yn destun gofynion arbennig yn golygu o reidrwydd y bydd cyhuddiadau troseddol neu weithdrefnau disgyblu yn dilyn o reidrwydd ar ddiwedd ymchwiliad.

## Ymchwiliadau i gŵyn

Roedd oddeutu 40% o'r ymchwiliadau a ddadansoddwyd gennym yn ymchwiliadau i gŵyn[108]. Mewn oddeutu dau draean o'r achosion hyn (68%), aseswyd bod awgrym y gallai unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu fod wedi torri safonau ymddygiad proffesiynol neu gyflawni trosedd. O'r bobl ynghlwm â'r ymchwiliadau hyn[109], roedd 34 yn Wyn, deg yn Ddu, dau yn Asiaidd ac un o ethnigrwydd cymysg. Roedd pump o'r ymchwiliadau i gŵyn yn cynnwys pobl o dan 18 oed[110].

Roedd pob un o'r achosion hyn yn cynnwys cwynion am ddefnydd swyddogion o rym. Cwynodd nifer yn benodol am y defnydd o Taser, gan honni ei fod yn ddiangen, gormodol neu anghyfartal. Cwynodd tri yn benodol nad oeddent wedi cael unrhyw rybudd cyn i'r Taser gael ei danio[111], cwynodd dau eu bod wedi cael eu saethu â Taser tra oeddent mewn safle neu leoliad anniogel posibl, a chwynodd un am y defnydd o Taser er gwaethaf presenoldeb petrol[112]. Ni chwynodd pob cwyn am y defnydd o Taser yn benodol; cwynodd rhai am dactegau defnyddio grym eraill, megis chwistrell lidus, tactegau diarfog, ataliaeth a gefynnau.

Ar wahân i ddefnyddio grym, y mater mwyaf cyffredin y cwynwyd amdano oedd agwedd swyddogion, yn cynnwys eu bod yn ddigywilydd, bychanol neu ymosodol. Roedd wyth cwyn yn cynnwys honiadau o wahaniaethu: pedair ar sail hil, un ar sail hil a chrefydd a thair ar sail anabledd neu bryderon iechyd meddwl. Honnodd saith achwynydd fod swyddogion wedi methu ag ystyried pryderon iechyd meddwl yn ddigonol yn ystod y digwyddiad neu ddelio â nhw'n briodol yng ngoleuni'r materion hyn. Cwynodd pum unigolyn am gael eu harestio a/neu gadw ar gam, ac roedd pedair cwyn yn cynnwys honiadau fod swyddogion wedi dweud celwydd neu gamarwain eraill am ffeithiau'r digwyddiad.

Roedd cwynion eraill yn cynnwys materion y ddalfa, yn cynnwys diffyg mynediad prydlon at weithwyr meddygol proffesiynol, a materion ar ôl y digwyddiad, megis methu â chyfweld tystion. Cwynodd sawl unigolyn am chwiliadau o'u heiddo. Cwynodd tri unigolyn am yr ôl-ofal a gawsant. Honnodd dau achwynydd eu bod wedi

[108] Cyfeiria hyn at ymchwiliadau yr ymchwiliwyd iddynt fel ymchwiliadau i gŵyn ac nid yw'n adlewyrchu pob ymchwiliad lle derbyniwyd cwyn. Gallai ymchwiliadau i ymddygiad a marwolaeth neu anaf difrifol gynnwys cwynion hefyd ond ni ymchwiliwyd iddynt felly ac o ganlyniad ni chânt eu cyfrif yma.

[109] Roedd un o'r ymchwiliadau hyn yn cynnwys saith unigolyn, ond dim ond un ohonynt a gwynodd. Er hynny, ymchwiliwyd i hyn fel cwyn ac mae pob unigolyn wedi'i gyfrif.

[110] Roedd un o'r ymchwiliadau hyn yn cynnwys saith unigolyn, ond dim ond un ohonynt a gwynodd. Er hynny, ymchwiliwyd i hyn fel cwyn ac mae pob unigolyn wedi'i gyfrif. Ni wnaeth yr unigolyn o dan 18 oed yn yr ymchwiliad hwn gwyno.

[111] Noda APP Taser er mwyn ystyried diogelwch eraill, y dylai swyddogion gyfathrebu eu bod yn defnyddio Taser yn glir drwy ddweud 'Taser, Taser'. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi *"y gall fod yna resymau penodol pam y gallai'r rhybudd hwn fod yn gwbl amhriodol neu ddiangen yn yr amgylchiadau."*

[112] Mae fflamadwyedd yn ffactor risg arall a restrir yn APP Taser.

cael eu poenydio gan y swyddogion. Honnodd dau achwynydd arall fod swyddogion wedi methu ag ystyried oedran yr unigolyn wrth ddelio ag ef.

## Ymchwiliadau i ymddygiad

Roedd tri deg un o'r 101 o achosion a ddadansoddwyd yn ymchwiliadau i ymddygiad. Cyfeiriwyd un ar bymtheg o'r ymchwiliadau hyn i ni yn y lle cyntaf fel materion marwolaeth neu anaf difrifol, a chyfeiriwyd 15 fel materion ymddygiad.

O'r bobl ynghlwm â'r ymchwiliadau hyn, roedd 24 yn Wyn, pump yn Ddu, un yn Asiaidd ac un o ethnigrwydd cymysg. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn yr ymchwiliadau hyn rhwng 26 a 45 oed. Roedd chwech rhwng 18 a 25 oed, a phedwar rhwng 46 a 60 oed. Roedd yr ieuengaf yn 18 oed a'r hynaf yn 59 oed. Roedd dau achos yn cynnwys unigolion 18 oed wedi'u hanafu'n ddifrifol. Anafwyd un wrth gael ei atal a straffaglu â swyddogion. Anafwyd y llall ar ôl syrthio i'r llawr yn dilyn tanio Taser.

## Ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol

Atgyfeiriwyd pum deg un o achosion i ni yn wreiddiol fel materion marwolaeth neu anaf difrifol. Roedd un ar bymtheg o'r achosion a atgyfeiriwyd yn wreiddiol fel materion marwolaeth neu anaf difrifol yn cynnwys marwolaeth unigolyn a 35 yn cynnwys anaf difrifol. Mae'n bwysig pwysleisio nad oedd y marwolaethau a'r anafiadau difrifol a ddigwyddodd yn ganlyniad y defnydd o Taser, o reidrwydd.

Mewn 16 o'r 51 achos, adnabuwyd mater ymddygiad yn ymwneud ag un neu fwy o'r swyddogion neu aelodau o staff yr heddlu ynghlwm, ac ymchwiliwyd i'r rhain fel materion ymddygiad. Ymchwiliwyd i chwe achos arall fel cwynion, yr oedd pedwar ohonynt yn destun gofynion arbennig. Ni adnabuwyd materion ymddygiad mewn 31 o'r 51 achos a atgyfeiriwyd i ni fel materion marwolaeth neu anaf difrifol[113].

Cynhaliwyd naw ar hugain o ymchwiliadau fel ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol felly. O'r bobl ynghlwm, roedd 18 yn Wyn, naw yn Ddu, un yn Asiaidd ac un yn Wyn Affro-Caribïaidd. Roedd y mwyafrif rhwng 26 a 45 oed. Roedd chwech rhwng 18 a 25 oed, a phedwar rhwng 46 a 70 oed. Roedd un ymchwiliad yn cynnwys unigolyn a oedd o dan 18 oed. Roedd yr unigolyn hynaf yn 69 oed.

O'r rhai hynny a fu farw, roedd chwech yn Ddu, un yn Wyn Affro-Caribïaidd a'r gweddill (naw) yn Wyn. Roedd yr ieuengaf yn 21 oed a'r hynaf yn 51 oed. Roedd y

[113] Ymchwiliwyd i ddau o'r achosion hyn fel cwynion nad oedd yn destun gofynion arbennig. Roedd y gweddill yn ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol.

rhan fwyaf o'r rhai hynny a fu farw rhwng 26 a 45 oed. Roedd dau rhwng 18 a 25 oed a dau rhwng 46 a 55 oed.

### Marwolaethau

Roedd un ar bymtheg o'r 101 o achosion a adolygasom yn cynnwys marwolaeth. Mae'n bwysig pwysleisio nad oedd y marwolaethau hyn yn ganlyniad y defnydd o Taser, o reidrwydd.

Canfu pedwar cwest fod y defnydd o Taser, ar y cyd â ffactorau eraill, wedi cyfrannu at farwolaeth unigolyn, neu'n berthnasol iddo.

- Bu farw Jordan Begley yn 2013, yn dilyn digwyddiad lle cafodd ei saethu â Taser a'i atal. Nododd y rheithgor yn y cwest fod y "straen o danio'r [Taser] a'r ataliaeth wedi cyfrannu mwy nag ychydig ac yn sylweddol" at farwolaeth Jordan[114]. Dywedodd y patholegydd nad oedd yn bosibl pennu ai tanio'r Taser ei hun oedd yn gyfrifol am farwolaeth Jordan, ond derbyniai fod 'effaith straen' y Taser yn debygol o fod wedi bod yn berthnasol. Daeth y patholegydd i'r casgliad mai "achos mwyaf tebygol y...farwolaeth oedd datblygiad afreoleidd-dra'r galon wedi'i achosi gan straen a ddigwyddodd ar ddiwedd cyfres hir ac ingol o ddigwyddiadau[115]".

  Bu farw Adrian McDonald yn 2014, yn dilyn digwyddiad lle'r oedd yn dioddef argyfwng iechyd meddwl. Cafodd ei atal, ei saethu â Taser am 24 eiliad dros gyfnod o 27 eiliad a'i frathu gan gi'r heddlu. Canfu dau batholegydd fod cyfuniad o ffactorau, yn cynnwys y straen o gael ei frathu a'i saethu â Taser, yn berthnasol i farwolaeth Adrian. Daeth y cwest i'r casgliad bod straen cyffredinol y digwyddiad, ymysg ffactorau eraill, wedi achosi ei farwolaeth[116].

  Bu farw Darren Cumberbatch yn 2017, naw diwrnod ar ôl digwyddiad lle defnyddiwyd grym yn ei erbyn sawl gwaith tra oedd yn dioddef argyfwng iechyd meddwl, yn cynnwys Taser, trawiadau â baton, chwistrell lidus, trawiadau corfforol, yn cynnwys dyrnu a stampio, ac ataliaeth. Canfu'r rheithgor yn y cwest fod yr ataliaeth a'r defnydd o Taser wedi cyfrannu at ei farwolaeth. Credai'r rheithgor fod yr ataliaeth a ddefnyddiwyd yn 'ormodol' ac 'ar brydiau, yn

---

114 Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. (9 Gorffennaf 2015). NPCC Less-Lethal Weapons Lead requests independent review of Taser safety advice. Cyrchwyd o https://news.npcc.police.uk/releases/npcc-less-lethal-weapons-lead-requests-independent-review-of-taser-safety-advice

115 IOPC. Adroddiad ymchwiliad annibynnol - Mr Jordan Begley. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Jordan_Begley_Final_report_0.pdf

116 Inquest concludes Adrian McDonald died of stress of incident following police dog bites and Taser use as well as effects of cocaine. Cyrchwyd o https://www.inquest.org.uk/adrian-mcdonald-conclusion

ocheladwy o bosibl', a beirniadodd 'methiant swyddogion i ddefnyddio dulliau tawelu digonol'[117].

- Canfu'r cwest i farwolaeth Marc Cole fod Taser wedi chwarae rhan yn ei farwolaeth. Bu farw Marc ar ôl dioddef ataliad y galon yn 2017, yn dilyn saethiadau Taser lluosog a pharhaus am gyfanswm o 43 eiliad, ei roi mewn gefynnau a'r defnydd o faton. Roedd Marc yn dioddef argyfwng iechyd meddwl ac yn hunan-niweidio yn ystod y digwyddiad. Canfu'r cwest fod y defnydd o Taser wedi cael 'effaith fwy na phitw' ar ei farwolaeth[118].

  Yn dilyn y cwest, cyhoeddodd y Crwner Adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol[119], lle codwyd pryderon am ddata cyfyngedig ar effeithiau Taser, y diffyg dealltwriaeth am y 'potensial ar gyfer risg gynyddol â saethiadau Taser lluosog' ac absenoldeb hyfforddiant i swyddogion ar y nifer uchaf o saethiadau neu hyd saethiadau sy'n 'briodol a diogel'.

  Dywedodd y Crwner fod graddau'r risgiau hyn 'ymhell o fod yn glir' a bod data annibynnol annigonol 'o ran angeuoldeb y defnydd o Taser', gan olygu y gallai hyfforddiant ar gyfer swyddogion fod yn 'ddiffygiol neu anghyflawn'. Galwodd y Crwner ar y Swyddfa Gartref a'r CoP i ddarparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant mwy cynhwysfawr i swyddogion Taser, ac awgrymodd 'adolygiad eang o effeithiau saethiadau Taser lluosog a...saethiadau parhaus'[120].

  Gwrthododd y Swyddfa Gartref a'r CoP yr argymhelliad ar gyfer adolygiad eang ar ôl adolygu'r prosesau a mesurau diogelu ar waith ar gyfer defnydd yr heddlu o Taser (a oedd yn cynnwys gwerthusiadau annibynnol o oblygiadau meddygol Taser a gynhaliwyd gan SACMILL,[121] y canllawiau ar gael, safonau hyfforddiant, a'r craffu parhaus ar y defnydd o Taser). Daeth y Swyddfa Gartref a'r CoP i'r casgliad bod canllawiau a hyfforddiant yn ddigonol[122].

---

117 Datganiad i'r wasg INQUEST (28 Mai 2019): Jury finds restraint by Warwickshire police contributed to death of Darren Cumberbatch. Cyrchwyd o https://www.inquest.org.uk/darren-cumberbatch

118 Datganiad i'r wasg INQUEST (28 Ionawr 2020): Inquest finds use of Taser by Devon and Cornwall Police contributed to death of Marc Cole when experiencing paranoia. Cyrchwyd o https://www.inquest.org.uk/marc-cole-close

119 Gwneir 'Adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol: Rheoliad 28' o dan Reoliadau Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013. Cyhoedda crwner adroddiad o'r fath os yw'n teimlo bod achos wedi adnabod problemau fel y dylid gweithredu i atal marwolaethau yn y dyfodol.

125 Rheoliad 30: Gweithredu i atal marwolaethau yn y dyfodol. Crychwyd o https://www.judiciary.uk/wp- content/uploads/2020/04/Marc-Cole-2020-0087-Redacted.pdf

121 Corff cynghori cyhoeddus anadrannol yw'r Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Oblygiadau Meddygol Arfau Llai Angheuol (SACMILL) wedi'i sefydlu i gynghori llywodraeth Prydain ar oblygiadau meddygol arfau llai angheuol.

122 Ar gyfer y ddau ymateb, gweler: https://www.judiciary.uk/publications/marc-cole/

- Bu farw Dalian Atkinson yn 2016, ar ôl digwyddiad lle defnyddiwyd grym yn ei erbyn yn cynnwys defnydd lluosog a pharhaus o Taser, yn cynnwys un saethiad a barodd 33 eiliad, trawiadau â baton a chiciadau i'r pen. Yn dilyn achos troseddol, cafwyd Benjamin Monk, swyddog heddlu Gorllewin Mersia ar adeg y digwyddiad, yn euog o ddynladdiad anghyfreithlon Dalian a'i ddedfrydu i wyth mlynedd o garchar. Dywedodd tystiolaeth gan arbenigwyr erlyn fod defnydd y swyddog o rym wedi cyfrannu'n sylweddol at farwolaeth Dalian[123].

- Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, disgwylir cwest i farwolaeth[124] Spencer Beynon. Bu farw Spencer yn dilyn digwyddiad a oedd yn cynnwys y defnydd o Taser.

## 6.2 Canlyniadau o'n hymchwiliadau

Mewn ymchwiliad annibynnol, ein rôl yw pennu a oes awgrym y gall unrhyw swyddog heddlu neu aelod o staff fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn gweithdrefnau disgyblu yn ei erbyn. Os yw'r heddlu lleol yn anghytuno â'n canfyddiadau o ran a oes gan swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol ac ni ellir datrys y gwahaniaeth barn hwn, mae gennym y pŵer i gyfarwyddo dwyn gweithdrefnau disgyblu, a rhaid i'r heddlu drefnu hyn.

Gallwn hefyd wneud penderfyniadau am faterion eraill, yn cynnwys a oedd perfformiad unigolyn yn anfoddhaol. Gallwn argymell unrhyw weithredu y tybiwn sy'n briodol, er dim ond y pŵer i 'gyfarwyddo' llu sydd gennym o ran dwyn gweithdrefnau disgyblu. Os cyfeiriwn fater i Wasanaeth Erlyn y Goron, y nhw sydd i benderfynu a ddylid erlyn swyddog.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r[125] canlyniadau rydym wedi'u nodi yn ymwneud â'n penderfyniad terfynol ar achos h.y. a:

- oedd tystiolaeth ddigonol y gallai tribiwnlys rhesymol ei defnyddio i ddod i'r casgliad bod gan swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol
- atgyfeiriwyd y mater i Wasanaeth Erlyn y Goron

[123] BBC News 29 Mehefin 2021. Dalian Atkinson: PC Benjamin Monk jailed for ex-footballer's death. Cyrchwyd o https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-shropshire-57603091
[124] IOPC. (7 Ionawr 2018). Spencer Beynon - Heddlu Dyfed Powys. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/investigations/spencer-beynon-dyfed-powys-police
[125] Yw ein hymchwiliadau yn asesu'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn rhoi barn annibynnol ynghylch a oes achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol, neu a oedd perfformiad unigolyn yn anfoddhaol. Ar ddiwedd ymchwiliad, rydym yn cynhyrchu adroddiad terfynol sy'n dadansoddi ac yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd. Mae'r adroddiadau hyn yn sefydlu ein barn ynghylch ymddygiad, perfformiad neu ddysg.

- nodasom faterion perfformiad neu gyfleoedd dysgu i unrhyw swyddogion

Nid yw'r canlyniadau yn ganlyniadau terfynol unrhyw weithdrefnau dilynol, megis paneli neu wrandawiadau camymddygiad, neu unrhyw achos. Mewnbynnir y data hwn â llaw ac fe'i cymerir o system fyw ac felly mae'n agored i newid.

Mewn 74 o'r 101 o achosion a adolygwyd,[126] ni wnaethom ganfod bod gan unrhyw swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol, ac ni wnaethom atgyfeirio'r mater i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mewn rhai achosion, nodasom arferion da gan rai o'r swyddogion ynghlwm, neu bob un ohonynt. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad hefyd achosion lle gwnaeth diffyg manylion neu eglurder mewn canllawiau cenedlaethol hi'n anodd sefydlu'r safonau y dylid eu defnyddio i farnu swyddogion wrth ddefnyddio Taser, yn cynnwys ym mha fath o amgylchiadau y byddai'n briodol neu'n amhriodol defnyddio Taser.

Arweiniodd chwech ar hugain o ymchwiliadau at achos i'w ateb neu atgyfeiriad i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mewn naw achos, canfuom fod gan naw swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol. Roedd gan saith o'r swyddogion hyn achos i'w ateb yn benodol am eu defnydd o Taser, tra'r oedd gan ddau achos i'w ateb am eu defnydd o rym heblaw Taser. Roedd gan un swyddog achos i'w ateb hefyd am fethu ag asesu'n briodol y risg a berai'r unigolyn.

Mewn 15 achos, canfuom fod gan 22 swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol. Mewn 11 o'r rhain, roedd gan swyddog achos i'w ateb mewn perthynas â'i ddefnydd o Taser. Mewn tri achos, roedd gan swyddog achos i'w ateb am ei ddefnydd o rym heblaw Taser. Mewn un achos, roedd gan dri swyddog achos i'w ateb am eu methiannau i drin y mater fel argyfwng meddygol a sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn sylw meddygol prydlon. Ymhlith y materion eraill yr oedd gan y swyddogion hyn achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol oedd gwneud sylwadau anonest neu gamarweiniol, sylwadau neu ddefnydd amhriodol o iaith, methiannau i herio ymddygiad swyddog arall a phenderfyniad i arestio'r unigolyn am ymosod ar swyddog heddlu.

Mewn 17 achos, gwnaethom gyfeirio 25 o swyddogion i Wasanaeth Erlyn y Goron iddo benderfynu a ddylid cyhuddo'r swyddogion o drosedd. Ymosodiad cyffredin neu wir niwed corfforol (ABH) oedd y mathau mwyaf cyffredin o drosedd yr atgyfeiriwyd y swyddogion hyn i Wasanaeth Erlyn y Goron amdanynt[127]. Atgyfeiriwyd sawl swyddog i Wasanaeth Erlyn y Goron iddo ystyried cyhuddiadau o wyrdroi cwrs cyfiawnder, anudon a chamymddygiad mewn swydd gyhoeddus. Atgyfeiriwyd un

[126] Mewn un achos, nid oedd y canlyniad terfynol wedi'i gytuno ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr adran hon.

[127] Trosedd ABH neu 'ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol' yw lle mae gwir niwed corfforol wedi'i achosi i ddioddefwr yn dilyn ymosodiad neu guro.

swyddog am niwed corfforol difrifol (GBH)[128] ac atgyfeiriwyd un swyddog am droseddau trefn gyhoeddus a waethygwyd gan hiliaeth.

O’r 26 o achosion lle’r oedd achos i’w ateb neu atgyfeiriad i Wasanaeth Erlyn y Goron, roedd 13 yn ymchwiliadau i gŵyn, 11 yn ymchwiliadau i ymddygiad a dau yn ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol.

Nodasom hefyd faterion â pherfformiad swyddogion y teimlwn y gellid ymdrin â nhw y tu allan i’r broses camymddygiad ffurfiol mewn 26 achos. Ymdriniwyd â’r swyddogion hyn o dan y Gweithdrefnau ar gyfer Perfformiad Anfoddhaol[129], derbyniasant hyfforddiant, cymerwyd camau gweithredu gan reolwyr yn eu herbyn, neu rhoddwyd rhyw fath o ddysgu iddynt. Canfuom achos i’w ateb ar gyfer sawl un o’r swyddogion hyn ond roeddem yn teimlo y byddai camau gweithredu gan reolwyr, hyfforddiant neu ddysgu yn ymdrin â’r mater orau.

Derbyniodd sawl swyddog ryw ffurf ar weithdrefn ar gyfer perfformiad anfoddhaol, camau gweithredu gan reolwyr, neu ddysgu am wneud sylwadau amhriodol neu ddefnyddio iaith amhriodol. Derbyniodd rhai ddysgu o ran eu cyfrifoldebau wrth ddelio â phobl ifanc neu bobl â syndrom Asperger.

Derbyniodd nifer o swyddogion hyfforddiant, camau gweithredu gan reolwyr neu ryw ffurf arall ar ddysgu mewn perthynas â defnydd o rym hefyd: derbyniodd un swyddog ddysgu ynghylch deddfwriaeth y defnydd o rym; derbyniodd un hyfforddiant i gywiro ei dechneg dal Taser; derbyniodd un gamau gweithredu gan reolwyr ar ôl gwneud rhagdybiaethau am y ffordd y byddai Taser yn peri i unigolyn symud; derbyniodd un hyfforddiant ar y defnydd o Taser yn y ddalfa; a derbyniodd tri swyddog ddysgu am fethu â darparu digon o fanylion am eu rhesymeg dros ddefnyddio’r grym a ddefnyddiasant.

## Argymhellion dysgu cyfundrefnol

Yn ogystal ag adnabod dysgu ar gyfer swyddogion unigol, cyhoeddasom 42 o argymhellion dysgu cyfundrefnol mewn perthynas ag 16 o achosion. Mewn deg o’r achosion hyn, gwnaethom argymhellion yn gysylltiedig â Taser. Amlinellir y rhain isod.

- Bod y llu yn adolygu ei ganllawiau a hyfforddiant i swyddogion y ddalfa ar y defnydd o Taser.

[128] Trosedd o beri neu achosi ‘niwed corfforol difrifol’ yw lle mae niwed corfforol difrifol wedi’i achosi i ddioddefwr yn dilyn ymosodiad neu guro.

[129] Proses ffurfiol yw Gweithdrefnau ar gyfer Perfformiad Anfoddhaol, i ymdrin â materion perfformiad. Mae’n darparu cyfleoedd dysgu i swyddogion ac mae’r tu allan i’r broses ddisgyblu.

Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle saethwyd â Taser at ddyn mewn gefynnau ac atalyddion coesau wrth straffaglu yn erbyn pedwar swyddog yn ceisio ei gario i mewn i gell. Mewn ymateb i'r argymhelliad, dywedodd y llu y byddai'n dosbarthu canllawiau cenedlaethol ar y defnydd o Taser yn y ddalfa i swyddogion y ddalfa a diwygio hyfforddiant i drafod gefynnu, ataliaeth a Taser yn y ddalfa.

- Yr atgoffwyd swyddogion Taser am bwysigrwydd gwarchod y safle lle cyfyd anafiadau, a'r angen i gofnodi penderfyniadau ynghylch a yw'n briodol trefnu gwarchod y safle lle mae Taser wedi'i danio fesul achos.

  Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle saethwyd â Taser at ddyn ddwywaith yn ystod brwydr â swyddogion ar ôl cael ei ddal yn dwyn o siop. Ni chanfu ein hymchwiliad dystiolaeth fod swyddogion wedi ystyried gwarchod neu gynnal unrhyw weithgarwch i warchod y safle neu dynnu llun yr anafiadau i'r unigolyn. Cytunodd y llu i sicrhau y byddai pwysigrwydd gwarchod y safle yn cael ei bwysleisio fel rhan o hyfforddiant.

- Bod y llu yn diweddaru ei bolisïau Taser i sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau cenedlaethol, yn cynnwys APP, a'i fod yn creu 'Gweithdrefn Gweithredu Safonol' benodol ar gario a defnyddio Taser gan swyddogion heb arfau tanio.

  Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle saethwyd â Taser at ddyn tra'r oedd yn hunan-niweidio. Er y canfu ein hymchwiliad fod swyddogion wedi ymddwyn yn briodol yn ystod y digwyddiad, canfuom fod polisïau Taser y llu wedi dyddio ac nad oedd polisi clir ar waith mewn perthynas â swyddogion heb arfau tanio a oedd wedi'u hawdurdodi i gario Taser. O ganlyniad, diwygiodd y llu ei brosesau a gweithdrefnau ac egluro ei Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer swyddogion heb arfau tanio.

- Bod y llu yn sicrhau na hyfforddir unrhyw swyddogion yn eu cyfnod prawf i ddefnyddio Taser[130].

  Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle daeth yn amlwg bod swyddog a daniodd ei Taser yn dal yn ei gyfnod prawf. Roedd hyn yn torri canllawiau cenedlaethol, sy'n nodi bod rhaid i swyddogion basio eu cyfnod prawf cyn y gallant dderbyn hyfforddiant Taser a chario Taser.

- Bod y llu yn ystyried buddion darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth Taser sylfaenol i bob swyddog, ac yn atgoffa swyddogion Taser nad yw PAVA yn

[130] Mae'r argymhelliad dysgu hwn yn adlewyrchu polisi a oedd ar waith ar y pryd. Bellach mae'n dderbyniol hyfforddi swyddogion sy'n fyfyrwyr o fewn polisi diffiniedig.

fflamadwy a'i bod felly yn ddiogel defnyddio Taser ar ôl i rywun gael ei chwistrellu â PAVA.

Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad a ganfu fod gan swyddogion heb dderbyn hyfforddiant Taser ddiffyg dealltwriaeth o beth ydyw a'r hyn sy'n anniogel i swyddogion ei wneud pan fo unigolyn wedi'i saethu â Taser. Dywedodd dau swyddog nad oeddent yn gwybod a oedd hi'n ddiogel cyffwrdd ag unigolyn ar ôl iddo gael ei saethu â Taser, a methodd un arall ag adnabod y gwifrau Taser. Canfu'r ymchwiliad hefyd fod gan swyddogion safbwyntiau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd ynghylch a yw'n ddiogel defnyddio PAVA a Taser ar unigolyn. Diwygiodd y llu ei hyfforddiant i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.

- Bod y llu yn mabwysiadu system i sicrhau bod y cabinet Taser yn cael ei ddefnyddio ag awdurdodiad ac o dan oruchwyliaeth yn unig, ac yn gofyn am gydlofnod gan swyddog goruchwylio pan fydd swyddog yn cwblhau'r llyfr log i ddangos ei fod wedi cymryd Taser.

  Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad lle canfuom fod swyddog wedi anghofio cofnodi ei fod wedi cymryd Taser yn y llyfr log, fel sy'n ofynnol o dan bolisi'r llu. Methwyd hyn oherwydd bod prosesau annigonol ar waith i sicrhau goruchwyliaeth briodol o ddyrannu Tasers.

- Bod swyddogion Taser yn derbyn hyfforddiant digonol ar Weithdrefnau Ar ôl Digwyddiad.

  Gwnaed yr argymhelliad hwn ar ôl canfod bod dau swyddog ynghlwm â digwyddiad lle bu farw dau o bobl, wedi edrych ar eu recordiad fideo camera ar y corff cyn darparu eu datganiadau cychwynnol. Fel arfer, byddai'r swyddogion hyn wedi cael cais i egluro beth a ddigwyddodd cyn edrych ar unrhyw recordiad. Er nad ydym yn credu yr effeithiodd hyn yn negyddol ar yr ymchwiliad, gwnaethom amlygu'r risg y gall edrych ar recordiad fideo camera ar y corff cyn darparu adroddiadau cychwynnol ddylanwadu ar y datganiadau y mae swyddogion yn eu rhoi.

- Bod y llu yn gweithredu polisïau a hyfforddiant mewn perthynas â defnyddio Taser a chŵn yr heddlu gyda'i gilydd, ac yn diwygio hyfforddiant i sicrhau technegau dal Taser priodol.

  Roedd hyn yn dilyn achos lle codwyd cwestiynau am allu swyddog i ddefnyddio ci'r heddlu a Taser yn ddiogel wrth geisio rheoli unigolyn hefyd. Amlygodd ein hymchwiliad ddiffyg canllawiau ynghylch y mater hwn. Canfu'r ymchwiliad hefyd fod y dotyn coch o Taser i'w weld yn symud ar draws yr ystafell, yr ystyriwyd yn

fater diogelwch. Cytunodd y llu i adolygu ac ystyried diweddariadau i hyfforddiant.

- Bod y llu yn ystyried cynnwys senarios yn ei hyfforddiant lle mae trydydd parti yn sefyll neu fel arall rhwng swyddogion a'r unigolyn.

  Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle saethwyd â Taser at drydydd parti yn anfwriadol.

- Bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am drefnu sifftiau a chriwiau yn ceisio sicrhau bod swyddogion Tasers yn cael eu paru â swyddogion Tasers eraill, neu swyddogion ag ymwybyddiaeth Taser, lle bo'n bosibl.

  Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle saethwyd â Taser at unigolyn yn barhaus gan swyddog a oedd yn gweithio â swyddog amhrofiadol gydag ychydig o ymwybyddiaeth Taser.

  Canfuom y gallai diffyg ymwybyddiaeth Taser y swyddog amhrofiadol fod wedi effeithio ar ei allu i gefnogi ei gydweithiwr yn effeithiol ac arwain at y swyddog Taser yn teimlo nad oedd ganddo fawr o opsiynau ond troi at Taser yn barhaus.

Ymhlith y materion eraill y cyhoeddasom argymhellion yn eu cylch oedd y defnydd o fideo camera ar y corff, ymdrin â chwynion, rhannu gwybodaeth, y broses atgyfeirio, swyddogion yn defnyddio cofnodion yn amhriodol, rhwymedigaethau wrth ddelio â phlentyn, hyfforddiant ar argyfyngau meddygol, y defnydd o negodwyr a diogelwch data a recordio.

## 6.3 Sut a phryd y defnyddiwyd Taser

### Math o ddefnydd o Taser[131]

Roedd y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys tanio Taser. Roedd wyth deg naw o'r 101 o ymchwiliadau a adolygasom yn cynnwys tanio Taser, roedd 11 yn achos lle na chafodd Taser ei danio ac roedd un yn cynnwys honiad bod unigolyn wedi'i fygwth â Taser. Dyma adlewyrchiad o'r ffaith ein bod yn ymchwilio i'r achosion mwyaf difrifol a sensitif, gan y gwyddom o ddata'r Swyddfa Gartref nad yw Taser yn cael ei danio mewn mwy na 80% o ddigwyddiadau lle caiff ei ddefnyddio.

[131] Mae'r ystadegau hyn yn cyflwyno'r defnydd 'uchaf' o Taser o bob digwyddiad. Er enghraifft, os cafodd Taser ei dynnu o'i gas, ei anelu, ei anelu â dotyn coch ac yna ei danio, cofnodwyd hyn o dan 'Taser wedi'i danio' yn unig. At ddibenion yr adolygiad hwn, mae Taser wedi'i danio yn cynnwys y defnydd o Taser yn y modd tanio llonyddu neu'r modd tanio llonyddu ar ongl a thaniadau.

O’r achosion lle na chafodd Taser ei danio, roedd pedwar yn achos lle anelwyd Taser a saith yn achos lle anelwyd Taser â dotyn coch.

## Lleoliad lle defnyddiwyd Taser

Dengys Tabl 4 lleoliadau'r digwyddiadau Taser a adolygasom.

**Tabl 4: Lleoliadau'r digwyddiadau Taser**

| Lleoliad | Nifer y digwyddiadau |
|---|---:|
| Annedd | 50 |
| Stryd | 47 |
| Y ddalfa | 3 |
| Lleoliad meddygol | 5 |
| Eiddo busnes | 6 |
| Gorsaf drenau | 1 |
| **Cyfanswm** | **112** |

Nid yw nifer y lleoliadau yn cyfateb i nifer y bobl ynghlwm, oherwydd digwyddodd chwe achos mewn mwy nag un lleoliad. Digwyddodd tri digwyddiad mewn annedd ac ar y stryd. Digwyddodd un digwyddiad mewn annedd, ar y stryd ac yn y ddalfa. Digwyddodd un arall ar y stryd ac yn y ddalfa, a digwyddodd un achos mewn annedd a lleoliad meddygol.

Er bod y mwyafrif o ddigwyddiadau yn cynnwys y defnydd o Taser wedi digwydd mewn annedd (45%), dim ond ychydig yn fwy na'r nifer o ddigwyddiadau a ddigwyddodd ar y stryd (42%) oedd hyn. Dim ond nifer fechan o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn y ddalfa neu mewn lleoliad meddygol (3% a 5% yn y drefn honno). Mae'r canfyddiad bod y defnydd o Taser yn digwydd amlaf mewn anheddau yn gyson â'r canfyddiadau o'n hadroddiadau blaenorol ar Taser a defnydd o rym a chyda dadansoddiad y CoP, er dengys data'r Swyddfa Gartref fod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau Taser yn digwydd mewn lleoliad cyhoeddus. Mae'r canfyddiad mai ychydig iawn o ddigwyddiadau Taser sy'n digwydd yn lleoliadau'r heddlu neu mewn lleoliadau meddygol hefyd yn gyson â'n canfyddiadau blaenorol a data'r Swyddfa Gartref.

Er mai dim ond nifer fechan o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn y ddalfa neu mewn lleoliad meddygol, rydym yn parhau i gael pryderon am y defnydd o Taser mewn lleoliadau a reoleiddir, lle mae'r bygythiad o drais difrifol yn is nag mewn lleoliadau cymunedol. Yn ogystal â hyn, roedd y digwyddiadau hyn yn aml yn cynnwys pobl fregus. Ym mhob un o'r digwyddiadau a ddigwyddodd yn y ddalfa, roedd hi'n hysbys

bod gan yr unigolyn gysylltiad ag alcohol a/neu gyffuriau[132], ac ym mhob un o'r digwyddiadau a ddigwyddodd mewn lleoliad meddygol, adnabuwyd bod gan yr unigolyn bryderon iechyd meddwl.

Eleni, dywedodd HMICFRS fod canfyddiadau o'u rhaglen arolygiadau dafla yn dangos yn gyffredinol bod llywodraethu a goruchwylio'r defnydd o rym yn nalfa'r heddlu yn annigonol. Amlygodd fod data a gwybodaeth sy'n sail i unrhyw oruchwyliaeth o'r fath yn brin ac yn aml yn anghywir[133]. Rydym yn cytuno bod angen i luoedd fynd i'r afael ag absenoldeb prosesau monitro mewnol effeithiol i sicrhau bod y defnydd o Taser yn cael ei graffu arno a'i fonitro'n effeithiol yn y lleoliadau hyn.

## Defnyddio Taser mewn safleoedd anniogel posibl

Roedd pedwar ar ddeg o achosion yn cynnwys y defnydd o Taser tra'r oedd yr unigolyn mewn safle neu leoliad anniogel posibl. Roedd hi'n hysbys bod gan naw o'r bobl yn yr achosion hyn gysylltiad ag alcohol a/neu gyffuriau, ac roedd gan bedwar bryderon iechyd meddwl.

O'r 14 o achosion, roedd naw yn cynnwys y defnydd o Taser tra'r oedd yr unigolyn ar uchder neu mewn safle uwch.

Roedd tri achos yn cynnwys y defnydd o Taser tra'r oedd yr unigolyn ar, neu ger grisiau. Mewn un achos, mynychodd yr heddlu adroddiad o ddigwyddiad cam-drin domestig. Rhoddwyd gwybodaeth i swyddogion bod yr unigolyn yn feddw, ymosodol ac yn meddu ar gyllell. Ar ôl i swyddogion fynd i mewn i'r cyfeiriad, chwifiodd yr unigolyn, tra ar y grisiau, ei fraich yn ôl fel pe bai'n mynd i daro swyddog a oedd ar waelod y grisiau. Trawodd y swyddog flaen braich yr unigolyn gyda'i faton. Ar yr un pryd, taniodd swyddog arall ei Taser. Syrthiodd yr unigolyn am yn ôl o'r bedwaredd neu bumed ris, gan daro ei ben a mynd yn anymwybodol. Rhoddodd swyddogion gymorth cyntaf i'r unigolyn ac aethpwyd ag ef i'r ysbyty. Dioddefodd yr unigolyn benglog toredig a gwaedlif yr ymennydd.

Dywedodd y swyddog yn ddiweddarach yr oedd yn credu y byddai'r unigolyn yn syrthio am ymlaen ar y grisiau pan gafodd ei saethu â Taser, yn hytrach nag i lawr. Dywedodd barn arbenigol yn yr achos hwn nad oes unrhyw ffordd o wybod pa ffordd y bydd unigolyn yn syrthio pan gaiff Taser ei danio. Dywedasant y dylai swyddogion gydnabod y gall unigolyn syrthio mewn unrhyw ffordd yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis lleoliad y dartiau, pa gyhyrau a analluogwyd, a chydbwysedd a symudiad yr

---

[132] Golygai hyn ar adeg y digwyddiad bod yr unigolyn wedi yfed, yn feddw ar, yn meddu ar, neu â phroblemau hysbys ag, alcohol a/neu gyffuriau.

[133] HMICFRS (26 Chwefror 2021). Disproportionate use of police powers – A spotlight on stop and search and the use of force. Cyrchwyd o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publications/disproportionate-use-of-police-powers-a-spotlight-on-stop-and-search-and-the-use-of-force/

unigolyn. Amlygasant mai prif risg tanio Taser yw'r potensial ar gyfer anaf i'r pen wrth syrthio.

Defnyddiwyd Taser ar rywun a oedd ar uchder neu mewn safle uwch pan oedd yr unigolyn yn y lleoliadau canlynol hefyd:

- eistedd ar silff ffenestr llawr gyntaf
- sefyll ar do sied yn yr ardd
- sefyll ar do tŷ gwydr
- sefyll ar wely yn un o gelloedd yr heddlu
- cerdded tuag at y drws i falconi fflat, a thra'r oedd yr unigolyn ar y balconi
- sefyll ar fonet cerbyd yr heddlu

O'r pum achos sy'n weddill, roedd y rhain yn cynnwys y defnydd o Taser tra'r oedd yr unigolyn yn sefyll ar bont dros afon (a thra'r oedd yn yr afon), yn rhedeg tuag at ffordd, mewn cerbyd wedi cael damwain, mewn ystafell ymolchi gwesty ac ar feic modur a oedd yn dal i symud.

Digwyddodd y digwyddiad ar y bont ar ôl i ddau swyddog geisio arestio dau o bobl ar amheuaeth o fod yn meddu ar gyffuriau. Rhedodd y ddau unigolyn i ffwrdd a dechreuodd yr heddlu eu dilyn mewn cerbyd ac ar droed. Tynnodd swyddog a oedd yn dilyn un o'r unigolion ei Taser o'i gas a dilyn yr unigolyn hwnnw at bont dros afon. Gwaeddodd rybudd y byddai'n defnyddio ei Taser pe na bai'r unigolyn yn stopio. Saethodd y swyddog ei Taser at yr unigolyn a ddisgynnodd dros ochr y bont i mewn i'r afon.

Dywedodd y swyddog ei fod wedi tanio ei Taser i weithredu arestiad, ac amddiffyn ei hun, oherwydd eu bod mewn lleoliad peryglus ac roedd yn credu bod yr unigolyn yn meddu ar arf (er gwaethaf y ffaith bod swyddogion wedi chwilio'r unigolyn yn gynharach a heb ddod o hyd i arf).

Taniodd y swyddog ei Taser bedair gwaith wedyn tra'r oedd yr unigolyn yn y dŵr. Dywedodd y swyddog iddo danio ei Taser am yr eildro oherwydd bod yr unigolyn yn gwrthod cydymffurfio ac yn estyn am rywbeth. Dangosodd fideo camera ar y corff fod yr unigolyn, ar y pwynt hwn, yn arnofio ar ei wyneb yn y dŵr. Saethwyd â Taser ar ôl hynny gan fod yr unigolyn yn ceisio dod allan o'r dŵr.

Canfu ein hymchwiliad fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol am ddefnyddio grym nad oedd yn angenrheidiol, gymesur a rhesymol, ac am beidio ag ymddwyn gyda gonestrwydd ac uniondeb pan roddodd wybodaeth anghywir i gydweithwyr wrth egluro'r hyn a ddigwyddodd. Cyfeiriasom y mater i Wasanaeth

Erlyn y Goron hefyd, a benderfynodd peidio â dwyn achos troseddol yn erbyn y swyddog.

Mae'r enghraifft uchod yn arddangos y potensial ar gyfer risg uwch o anaf mewn rhai safleoedd neu leoliadau. Noda APP efallai na all unigolyn yn ystod saethiad Taser reoli ei ystum a dylai swyddogion ystyried y risg o anaf o syrthio'n afreolus. Roedd peth tystiolaeth, er ei bod yn brin, o achosion a ddadansoddwyd gennym fod swyddogion yn ystyried y risg o anaf wrth ddefnyddio Taser tra'r oedd yr unigolyn mewn safle anniogel posibl.

Er enghraifft, mewn un achos, daeth swyddogion ar draws unigolyn a oedd yn eistedd ar do tŷ gwydr, yn dal darn o wydr ac yn bygwth niweidio ei hun ac eraill. Credai swyddogion y gallai'r unigolyn fod yn dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt neu fod o dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau.

Ar un adeg, cerddodd yr unigolyn at y swyddogion tra'r oedd yn dal i afael yn y darn o wydr. Pwyntiodd swyddog ei Taser at yr unigolyn, anelu â dotyn coch, a gweiddi arno i ollwng y gwydr. Dywedodd y swyddog ei fod wedi asesu bod y risg o anafu'r unigolyn gan ddefnyddio Taser ar yr adeg yn llai na'r risg o anaf yr oedd yr unigolyn yn ei pheri iddo'i hun ac eraill. Fodd bynnag, penderfynodd yn erbyn tanio ei Taser, oherwydd y risg o'r unigolyn yn cael ei anafu wrth syrthio oddi ar y to. Yn ddiweddarach neidiodd yr unigolyn oddi ar y to, fe'i harestiwyd ac aethpwyd ag ef i'r ysbyty.

Mewn achos arall, mynychodd swyddogion gyfeiriad yn dilyn adroddiadau o fyrgleriaeth honedig. Amgylchynodd y swyddogion y cyfeiriad. Ymddangosodd yr unigolyn mewn ffenestr i fyny'r grisiau. Pwyntiodd swyddog ei Taser at yr unigolyn, anelu â dotyn coch, a gweiddi arno i adael yr eiddo. Gadawodd yr unigolyn y ffenestr, cyn dychwelyd a sefyll ar y silff ffenestr, gan ddal ei afael yn y ffenestr agored. Diffoddodd y swyddog ei Taser ar y pwynt hwn oherwydd y risg o'r unigolyn yn syrthio ar y llawr concrid. Yna neidiodd yr unigolyn o'r ffenestr ar do sied. Ail-daniodd y swyddog ei Taser a saethodd at yr unigolyn tra'r oedd yn dal i sefyll ar y sied.

Rhesymeg y swyddog dros wneud oedd amddiffyn ei hun a'i gydweithwyr. Roedd yn credu y byddai tanio Taser wedi achosi i'r unigolyn syrthio, ei analluogi, a chaniatáu iddynt ei arestio. Fodd bynnag, ymddangosai nad oedd y Taser wedi bod yn effeithiol a neidiodd yr unigolyn dros ffens yn yr ardd. Cafodd ei ddal a'i arestio yn ddiweddarach gan swyddogion eraill.

Mae'r achosion hyn yn codi pryderon nad yw swyddogion yn ystyried y risg o anaf i bobl o'r amgylchedd o'u hamgylch yn gyson, fel rhan o'u hasesiad risg parhaus. Rydym yn cydnabod bod y risg o anaf i'r unigolyn yn un o blith nifer o ffactorau y mae'n rhaid i swyddogion eu hystyried fel rhan o'u proses benderfynu.

Er enghraifft, mewn 12 o’r 14 achos, adroddwyd bod unigolyn yn dreisgar, ymosodol a/neu’n gwrthsefyll swyddogion, ac mewn pum achos roeddent yn hunan-niweidio, ceisio neu fygwth hunan-niweidio. Rydym yn cydnabod y gallai ffactorau o’r fath gynyddu’r siawns o Taser yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae’n hanfodol bod swyddogion yn cydbwyso’r risgiau hyn, yn ystyried yr amgylchedd o’u hamgylch ac yn asesu’n gadarn y risg o anaf i unigolyn, yn ogystal â nhw eu hunain. Mae’r ystyriaethau hyn yn bwysicach fyth pan mae ffactorau eraill a allai gynyddu bregusrwydd unigolyn, fel yr oedd yn yr achosion hyn.

## Defnyddio Taser lle mae risg o fflamadwyedd

Mae achosion blaenorol wedi amlygu’r risgiau o ddefnyddio Taser ym mhresenoldeb sylweddau fflamadwy. Noda APP nifer o ffactorau risg a allai ddylanwadu ar y defnydd o Taser, yn cynnwys presenoldeb deunydd fflamadwy (e.e. petrol a chwistrell lidus CS).

Roedd pump o’r 101 o achosion a ddadansoddwyd yn cynnwys y defnydd ym mhresenoldeb deunydd fflamadwy. Mewn tri achos, defnyddiwyd chwistrell lidus CS cyn defnyddio Taser ac mewn dau achos arall defnyddiwyd Taser ym mhresenoldeb catalydd. Roedd hi’n hysbys bod gan y bobl ynghlwm â phob un o’r achosion hyn gysylltiad ag alcohol a/neu gyffuriau neu bryderon iechyd meddwl[134].

Roedd pedwar o’r pum achos yn cynnwys mwy nag un saethiad Taser. Roedd dau achos yn cynnwys tri saethiad Taser.

Yn un o’r achosion hyn, aeth dau swyddog at gerbyd ar ôl adroddiadau o gyfres o ddigwyddiadau yn cynnwys deiliaid y cerbyd. Ceisiodd unigolyn yrru i ffwrdd ond tarodd y cerbyd wal gyfagos. Estynnodd un swyddog am ochr teithiwr y cerbyd a defnyddio chwistrell lidus CS. Ymddengys na chafodd hyn unrhyw effaith ar yr unigolyn. Estynnodd y swyddog arall am ochr gyrrwr y cerbyd a thanio ei Taser i ddal yr unigolyn. Ymddengys na chafodd dau saethiad cyntaf y swyddog unrhyw effaith. Taniodd ei Taser am y drydedd gwaith, ac analluogwyd yr unigolyn i bob golwg. Gadawodd yr unigolyn y cerbyd a sylwodd y swyddogion ei fod ar dân. Diffoddodd y swyddogion y tân ac aethpwyd â’r unigolyn i’r ysbyty, lle canfuwyd bod ganddo losgiadau helaeth a braich dde doredig.

Canfu ein hymchwiliad fod defnydd y swyddogion o rym yn rhesymol ac angenrheidiol yn yr amgylchiadau. Rhannwyd canfyddiadau ein hadroddiad â’r adran sy’n gyfrifol am achredu swyddogion wedi’u hyfforddi i ddefnyddio Taser i godi

[134] Mewn tri achos, roedd gan yr unigolyn gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau ac mewn tri achos adnabuwyd bod gan yr unigolyn bryderon iechyd meddwl.

ymwybyddiaeth o’r risg o ymlosgiad pan ddefnyddir Taser ym mhresenoldeb chwistrell lidus CS.

Mewn tri o’r pum achos, saethwyd â Taser yn barhaus am fwy na’r cylch pum eiliad awtomatig. Mewn un achos, nid oedd hyd y saethiadau Taser yn hysbys. Roedd y saethiad parhaus hiraf am ddeg eiliad, a ddilynwyd gan saethiad parhaus a barodd naw eiliad.

Roedd tystiolaeth mewn tri achos bod swyddogion yn ymwybodol o bresenoldeb deunydd fflamadwy cyn defnyddio Taser. Mewn un achos, taniodd swyddog Taser gan nad oedd chwistrell lidus CS wedi bod yn effeithiol ac roedd swyddog arall yn cael ei ymosod arno gan yr unigolyn.

Mewn achos arall, roedd chwistrell CS wedi bod yn aneffeithiol a thaniwyd Taser oherwydd bod yr unigolyn yn hunan-niweidio â chyllell yn y fan a’r lle. Mewn trydydd achos, roedd yr unigolyn wedi tanio catalydd y tu allan i’w eiddo cyn mynd allan. Defnyddiodd swyddog Taser yn y modd tanio llonyddu y tu mewn i’r eiddo ar ôl asesu nad oedd catalydd yn bresennol yn rhan honno o’r eiddo. Mewn dau achos arall, ymddengys nad oedd y swyddogion a ddefnyddiodd Taser yn ymwybodol o bresenoldeb deunydd fflamadwy gan na allent weld neu arogleuo unrhyw ddeunydd o’r fath neu oherwydd sefyllfa ddynamig y digwyddiad nid oeddent yn ymwybodol bod chwistrell CS wedi’i defnyddio’n flaenorol.

Rydym yn cydnabod y gallai fod yna amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau’r defnydd o Taser lle mae deunydd fflamadwy yn bresennol. Fodd bynnag, dim ond pan mae hi’n gwbl anghenrheidiol y dylid defnyddio Taser ym mhresenoldeb deunydd o’r fath, o ystyried goblygiadau angheuol neu ddifrifol, posibl defnyddio Taser lle mae risg o fflamadwyedd.

Mae’r gyfran o achosion sy’n cynnwys saethiadau lluosog neu barhaus hefyd yn codi pryderon ynglŷn ag a yw swyddogion yn ystyried yn ddigonol y risg gynyddol o ymlosgiad gyda phob saethiad Taser neu saethiad estynedig fel rhan o’u hasesiad risg parhaus a phroses benderfynu.

## Saethiadau lluosog

Canfu’r adolygiad o’n hymchwiliadau fod nifer fawr o saethiadau Taser ailadroddus.

**Tabl 5: Nifer y saethiadau Taser yn erbyn unigolion**

| Nifer y saethiadau | Nifer yr unigolion |
|---|---:|
| 0 | 14 |
| 1 | 42 |
| 2 | 20 |
| 3 | 14 |
| 4 | 6 |
| 5 | 4 |
| 6 | 3 |
| 8 | 2 |
| 9 | 2 |
| 12 | 1 |

O’r 94 o bobl y saethwyd atynt â Taser, roedd 45% yn cynnwys un saethiad yn unig, tra’r oedd 55% yn cynnwys sawl saethiad. Fodd bynnag, roedd nifer o achosion yn cynnwys saethiadau lluosog oherwydd ni wnaeth y Taser eu taro, ni wnaeth gysylltu â’r unigolyn yn effeithiol, neu ni wnaeth eu hanalluogi yn llwyddiannus. Nid yw nifer y saethiadau felly yn cyfateb i’r nifer o weithiau y profodd yr unigolyn effeithiau Taser mewn gwirionedd.

O’r bobl ynghlwm â saethiadau lluosog, roedd 72% yn Wyn a 25% yn Ddu. Roedd dau o dan 18 oed, a dau dros 65 oed. Bu farw neu anafwyd ychydig o dan hanner yr unigolion (49%) y saethwyd atynt â Taser sawl gwaith: Bu farw 11 o bobl a dioddefodd 15 anafiadau difrifol, er nid oedd y marwolaethau hyn yn ganlyniad y defnydd o Taser, o reidrwydd.

O’r rhai hynny a fu farw neu a anafwyd yn ddifrifol:

- adnabuwyd bod gan ddeunaw o bobl (69%) bryderon iechyd meddwl
- gwyddys bod gan un ar bymtheg o bobl (62%) gysylltiadau ag alcohol a/neu gyffuriau
- ystyriwyd bod un ar hugain o bobl (81%) yn dreisgar, ymosodol neu wrthsafol gan swyddogion
- roedd deunaw o bobl (69%) yn meddu ar arf
- roedd tri ar ddeg o bobl (50%) yn hunan-niweidio, ceisio neu fygwth hunan-niweidio

Y nifer uchaf o saethiadau yn erbyn un unigolyn oedd 12, er yr awgryma tystiolaeth nad oedd yr un ohonynt yn llwyddiannus. Dyma achos marwolaeth neu anaf difrifol yn cynnwys dyn Du, a ddilynwyd gan swyddogion wrth iddo gerdded drwy'r stryd wedi'i arfogi â dwy gyllell.

Nid oedd yr unigolyn, a oedd â hanes o bryderon iechyd meddwl difrifol, ac a ddywedodd yn ddiweddarach nad oedd wedi cymryd ei feddyginiaeth y diwrnod hwnnw, wedi bwyta ac roedd wedi bod yn yfed. Ni chydymffurfiodd â gorchmynion i ollwng y cyllyll a bygythiodd swyddogion. Pan gyrhaeddodd swyddogion arfog, bygythiodd yr unigolyn nhw â chyllell a thaniodd swyddog ei Taser. Nesaodd yr unigolyn at y swyddog Taser a chafodd ei saethu gan swyddog arall gyda'i arf tanio.

Syrthiodd yr unigolyn i'r llawr a rhoddwyd cymorth cyntaf iddo. Goroesodd yr unigolyn. Ymddengys nad oedd yr un saethiad Taser yn effeithiol ac ni chawsant effaith ar ymddygiad yr unigolyn. Awgrymwyd efallai nad oedd y Taser yn effeithiol oherwydd na dreiddiodd dartiau'r Taser drwy ddillad yr unigolyn. Canfu ein hymchwiliad fod defnydd y swyddogion o Taser wedi bod yn rhesymol, angenrheidiol a chymesur.

Roedd dau achos yn cynnwys naw saethiad Taser a dau arall yn cynnwys wyth. O'r pedwar achos yma, roedd tri o'r bobl y saethwyd atynt â Taser yn Ddu ac un yn Wyn. Roedd iechyd meddwl yn ffactor ym mhob un o'r pedwar achos. Dywedodd swyddogion ym mhob un o'r pedwar achos yma eu bod yn ystyried bod yr unigolion yn arddangos symptomau pryderon iechyd meddwl neu aflonyddwch ymddygiadol acíwt.

Mewn tri o'r pedwar achos, saethwyd â Taser yn barhaus am fwy na phum eiliad. Yn y tri achos yma, fodd bynnag, roedd tystiolaeth nad oedd pob un o'r saethiadau yn effeithiol. Yn un o'r achosion lle saethwyd â Taser wyth gwaith, ymddengys mai dim ond y saethiad olaf a gafodd unrhyw effaith ar yr unigolyn.

## Saethiadau parhaus

O'r 94 o bobl ynghlwm â saethiadau Taser, saethwyd at 28 (30%) yn barhaus[135]. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae saethiad 'parhaus' yn un sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cylch pum eiliad awtomatig, fel bod yr unigolyn yn cael ei saethu ato'n barhaus am fwy na phum eiliad. Roedd chwe deg un y cant o'r bobl hynny yn Wyn a 36% yn Ddu. Roedd un o ethnigrwydd cymysg. Roedd dau o dan 18 oed (roedd y ddau yn 17 oed).

[135] Mewn 14 digwyddiad, roedd hyd y saethiad Taser yn anhysbys.

Mewn ychydig dros hanner y digwyddiadau (54%) lle saethwyd â Taser am gyfnod hir, bu farw neu anafwyd yr unigolyn yn ddifrifol. Bu farw naw o bobl ac anafwyd chwech yn ddifrifol. Fel y nodwyd uchod, mae'n bwysig pwysleisio nad oedd y marwolaethau a'r anafiadau difrifol a ddigwyddodd yn ganlyniad y defnydd o Taser, o reidrwydd.

O'r rhai hynny a fu farw neu a anafwyd yn ddifrifol:

- adnabuwyd bod gan ddeg (36%) bryderon iechyd meddwl
- roedd gan ddeg (36%) gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau ar adeg y digwyddiad
- ystyriwyd bod 13 (46%) yn dreisgar, ymosodol neu wrthsafol gan swyddogion
- roedd naw (32%) yn meddu ar arf
- roedd chwech (21%) yn hunan-niweidio, ceisio neu fygwth hunan-niweidio

**Tabl 6: Hyd saethiadau Taser**[136]

| Hyd y saethiad Taser | Nifer y bobl |
|---|---:|
| 6-10 eiliad | 16 |
| 11-20 eiliad | 4 |
| 21-30 eiliad | 3 |
| 31-40 eiliad | 3 |
| 41-50 eiliad | 1 |
| 51-60 eiliad | 0 |
| Hwy na 60 eiliad | 1 |

Roedd enghreifftiau o saethiadau hir iawn. Roedd pum digwyddiad lle saethwyd â Taser yn barhaus am fwy na 30 eiliad, a thri achos arall lle saethwyd â Taser yn barhaus am fwy nag 20 eiliad.

Parodd y saethiad parhaus hiraf 67 eiliad. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth nad oedd y Taser wedi analluogi'r unigolyn yn effeithiol, wrth iddo barhau i nesáu at y swyddogion yn ystod y saethiad. Bu farw'r unigolyn wedi hynny, ond o anafiadau cyllell wedi'i achosi ganddo ei hun. Mewn achos arall, saethwyd â Taser am 48 eiliad, er yr awgryma tystiolaeth y defnyddiwyd y Taser am 38 eiliad yn y modd tanio llonyddu ar ongl. Digwyddodd y digwyddiad hwn mewn lleoliad meddygol yn ystod ymdrechion i atal y dyn a oedd wedi'i gadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl*.

[136] Mewn sawl digwyddiad roedd mwy nag un saethiad Taser parhaus.

Roedd pob achos yn cynnwys saethiadau parhaus o fwy nag 20 eiliad (wyth achos) yn cynnwys pobl yr adnabuwyd bod ganddynt bryderon iechyd meddwl a/neu roeddent yn arddangos arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Adroddwyd bod yr holl bobl ynghlwm â’r digwyddiadau hyn yn dreisgar, ymosodol a/neu wrthsafol, ac roeddent yn meddu ar arf ar yr adeg y cawsant eu harestio.

Bu farw tri o’r bobl y saethwyd â Taser atynt am fwy nag 20 eiliad wedi hynny. Fel y nodwyd uchod, canfuwyd bod un o’r rhain wedi marw o anafiadau cyllell wedi’i achos ganddo ei hun. Mewn achos arall, canfu’r rheithgor mewn cwest fod y defnydd o Taser yn un o nifer o ffactorau a gyfranodd at achos y farwolaeth. Yn y trydydd achos, nid yw cwest wedi cael ei gynnal eto.

Mewn 25 o’r 28 digwyddiad (89%), saethwyd â Taser fwy nag unwaith. Mewn saith digwyddiad, roedd saethiadau Taser parhaus a lluosog. Er enghraifft, mewn un achos, saethwyd â Taser at unigolyn bum gwaith, roedd tri yn saethiadau parhaus: 14, 15 ac 20 eiliad. Fodd bynnag, roedd nifer o achosion yn cynnwys saethiadau lluosog oherwydd ni wnaeth y Taser eu taro, ni wnaeth gysylltu â’r unigolyn yn effeithiol, neu ni wnaeth eu hanalluogi yn llwyddiannus.

O’r bobl ynghlwm â digwyddiadau lle’r oedd saethiadau Taser lluosog a pharhaus, bu farw neu anafwyd pedwar yn ddifrifol. Adnabuwyd bod gan chwech o bobl bryderon iechyd meddwl (gyda thri yn cael eu cadw’n ddiweddarach o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl*), ac roedd gan bedwar gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau.

Mae nifer y digwyddiadau lle bu farw neu anafwyd unigolyn yn ddifrifol yn codi pryderon am y risgiau cynyddol, posibl sy’n gysylltiedig â saethiadau Taser lluosog a/neu barhaus. Mae canllawiau a hyfforddiant cenedlaethol yn cydnabod risgiau cynyddol saethiadau Taser lluosog a/neu barhaus ac yn addysgu swyddogion i ailasesu eu hopsiynau tactegol yn gyson. Fodd bynnag, byddai ymchwil bellach i risgiau posibl saethiadau Taser lluosog a/neu barhaus yn helpu swyddogion i wneud penderfyniadau gwybodus wrth benderfynu a ddylid tanio Taser eto neu estyn y saethiad.

## Defnydd posibl o Taser er mwyn cydymffurfio

Rhybuddiodd adroddiad Taser 2014 yr IPCC, gyda defnydd cynyddol o Taser, fod risg y byddai swyddogion yn dibynnu fwyfwy ar ddefnyddio grym i sicrhau cydymffurfiaeth. Amlygodd hefyd yr angen i sicrhau na ddefnyddiwyd Taser fel arf cydymffurfio’n unig, h.y. pan ddefnyddir yn y modd tanio llonyddu. Pwysleisiodd yr adroddiad yr angen am hyfforddiant o ansawdd, a monitro a dadansoddi cadarn o’r defnydd o Taser. Amlygodd hefyd bwysigrwydd prosesau dethol priodol ar gyfer swyddogion wedi’u hyfforddi i ddefnyddio Taser, y diwylliant o amgylch ei ddefnydd a goruchwyliaeth.

Nodasom bryderon am y defnydd posibl o Taser er mwyn cydymffurfio mewn 24 o'r 101 o achosion a ddadansoddwyd gennym. Ymchwiliwyd i dri ar ddeg o achosion fel ymchwiliadau i gŵyn a oedd yn destun gofynion arbennig, ac ymchwiliwyd i 11 fel ymchwiliadau i ymddygiad.

O'r bobl ynghlwm â'r achosion hyn, roedd pedwar (17%) yn Ddu a'r gweddill (83%) yn Wyn. Roedd dau o'r bobl Wyn yn ddinasyddion tramor, roedd un yn ddinesydd o Albania ac un arall yn ddinesydd o Sbaen. Roedd yr unigolyn ieuengaf yn 18 oed. Roedd dau dros 60 oed (63 a 74 oed yn y drefn honno). Roedd oedran tri unigolyn yn anhysbys.

Roedd y rhan fwyaf o'r achosion hyn (83%) yn cynnwys tanio Taser. Mewn pedwar achos yn unig (17%) ni chafodd Taser ei danio. Roedd dau o'r achosion hyn yn cynnwys Taser yn cael ei anelu at yr unigolyn. Mewn un achos, dangosodd tystiolaeth fod un swyddog wedi tynnu ei Taser o'i gas a'i anelu at yr unigolyn yr oedd wedi'i atal a gweiddi arno i fynd ar y llawr neu y byddai'n saethu. Ni cheisiodd y swyddog ymgysylltu â'r unigolyn ar lafar cyn anelu ei Taser. Aeth yr unigolyn ar y llawr, cyn cael ei roi mewn gefynnau a'i chwilio ond ni chanfuwyd unrhyw beth.

Canfuom fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol gan nad oedd gan y swyddog seiliau rhesymol dros atal yr unigolyn ac nid oedd ei ddefnydd o rym yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur.

Mewn dau achos, defnyddiwyd Taser wedi'i anelu â dotyn coch ar unigolyn. Er enghraifft, mewn un achos defnyddiodd swyddog ei Taser i anelu â dotyn coch at unigolyn 18 oed tra'r oedd yn gyrru beic modur. Canfuom y gallai'r Taser fod wedi cael ei ddefnyddio fel arf cydymffurfio ac argymellasom gamau gweithredu gan reolwyr i'r swyddog.

Dengys data'r Swyddfa Gartref yn y rhan fwyaf o achosion lle defnyddir Taser, ni chaiff ei danio, ac mai anelu â dotyn coch yw'r math mwyaf cyffredin o ddefnydd heb ei danio. Er y gallai defnydd Taser o'r fath atal neu roi rhybudd gweledol clir, dengys yr achosion hyn fod risg y gallai'r defnydd hwn arwain at ddefnyddio Taser i sicrhau cydymffurfiaeth mewn rhai amgylchiadau.

O'r achosion hyn lle saethwyd â Taser, roedd wyth (40%) yn cynnwys un saethiad yn unig, tra'r oedd 12 (60%) yn cynnwys sawl saethiad. Mae hyn yn ddigon tebyg i'r sampl gyffredinol.

Roedd pum achos yn cynnwys pump neu fwy o saethiadau. Y nifer uchaf o weithiau y saethwyd â Taser yn yr achosion hyn oedd naw. Yn yr achos hwn, nesaodd dau swyddog at ddyn noeth a oedd yn difrodi eiddo, rhedeg i mewn i draffig, ymosod ar bobl ac wedi cael ei daro gan gar.

Ystyriodd y swyddogion fod gan yr unigolyn bryderon iechyd meddwl neu ei fod o dan ddylanwad cyffuriau. Taniodd un swyddog ei Taser deirgwaith cyn i'r unigolyn gael ei roi mewn gefynnau o'r cefn. Cyn tanio am y drydedd gwaith, dywedodd y swyddog wrth yr unigolyn y byddai'n rhaid iddo barhau i saethu â Taser pe bai'n dal ati i symud.

Canfuom y gallai'r datganiad hwn ddangos bod y swyddog yn defnyddio Taser nid yn unig i leihau'r risg o niwed i'r unigolyn ac eraill, ond i orfodi cyfarwyddiadau'r swyddog i'r unigolyn aros yn llonydd. Yn dilyn y trydydd saethiad, roedd yr unigolyn yn rholio ar y llawr, yn rhoi ei ben ar y palmant ac yn ceisio symud y palmant i fyny.

Yn ystod y cyfnod hwn, saethodd y swyddog ei Taser chwe gwaith eto, gan ddweud wrth yr unigolyn i aros i lawr, stopio brifo ei hun a phwyllo. Roedd y chwe saethiad Taser olaf rhwng un a thair eiliad. Cyrhaeddodd swyddogion eraill a daliwyd yr unigolyn o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl*.

Adnabu ein hymchwiliad y gallai'r swyddog fod wedi bod yn defnyddio'r Taser fel arf cydymffurfio ar gyfer y chwe saethiad olaf. Ar ôl i'r unigolyn gael ei roi mewn gefynnau ac ar y llawr, roedd y risg i ddiogelwch unrhyw un wedi lleihau'n sylweddol. Er gwaethaf hyn, parhaodd y swyddog i ddefnyddio'r un lefel o rym, er gwaethaf y dystiolaeth nad oedd y saethiadau Taser yn cael yr effaith a fwriadwyd ar yr unigolyn. Canfuom fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol mewn perthynas â'i ddefnydd o Taser. Cyfeiriasom y mater hwn i Wasanaeth Erlyn y Goron ystyried a ddylid dwyn unrhyw achos troseddol yn erbyn y swyddog.

Roedd tri achos arall yn cynnwys chwe saethiad ac achos arall yn cynnwys pum saethiad. Mewn un achos yn cynnwys chwe saethiad, saethwyd â Taser at yr unigolyn (a gafodd ei ddal o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* yn ddiweddarach) sawl gwaith er gwaethaf ei fod mewn gefynnau, wedi cael ei atal gan swyddogion, a ddim yn bygwth trais.

Dangosodd y dystiolaeth fod swyddog wedi rhybuddio'r unigolyn sawl gwaith y byddai'n cael ei saethu â Taser, a bod y swyddog wedi saethu ei Taser mewn ymateb i'r unigolyn yn peidio â chydymffurfio â'i gyfarwyddiadau. Canfuom y gallai'r swyddog fod wedi defnyddio Taser fel arf cydymffurfio a bod ganddo achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol mewn perthynas â'i ddefnydd o rym. Cyfeiriasom yr achos hwn i Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd. Roedd gan ail swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad am beidio â herio ymddygiad ei gydweithiwr. Deliwyd â hyn gyda chamau gweithredu gan reolwyr.

Mewn achos arall, saethwyd â Taser at unigolyn tra'r oedd yn yr afon. Canfu ein hymchwiliad fod y swyddog wedi defnyddio terminoleg i annog cydymffurfiaeth, er enghraifft, dweud wrth yr unigolyn i ddod allan o'r dŵr neu byddai'n cael ei drydanu.

Ar ôl rhoi'r cyfarwyddiadau, saethodd y swyddog ei Taser. Ni chaniataodd hyn yr unigolyn i gydymffurfio ac ni chaniataodd i'r swyddog arsylwi ar unrhyw newidiadau yn ymddygiad yr unigolyn. Canfuom fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol am ei ddefnydd o rym. Cyfeiriasom y mater hwn i Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd. Yn yr achos yn cynnwys pum saethiad Taser, canfuom fod y saethiad olaf (yn y modd tanio llonyddu am 14 eiliad) yn fesur cydymffurfio oherwydd roedd yr unigolyn yn gorwedd ar y llawr ar ei wyneb, gydag un llaw mewn gefynnau ac yn cael ei atal gan nifer o swyddogion. Roedd gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol mewn perthynas â'i ddefnydd o rym ar yr unigolyn.

Roedd chwe achos yn cynnwys saethiadau parhaus hefyd. Parodd y saethiad hiraf 48 eiliad. Mewn un achos saethwyd â Taser am 24 eiliad (yr ail saethiad hiraf yn yr achosion hyn) yn erbyn unigolyn a oedd yn dioddef anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a syndrom Asperger. Yn ystod y digwyddiad, dywedodd y swyddog wrth yr unigolyn i bwyllo neu byddai'n cael ei saethu â Taser eto. Sgrechiodd yr unigolyn ddwywaith cyn i'r swyddog saethu ei Taser, tra'r oedd yr unigolyn mewn gefynnau, ac roedd tri swyddog arall yn ei atal ar y llawr.

Roedd tystiolaeth bod gan y swyddog a ddefnyddiodd Taser opsiynau eraill llai ymwthiol ar gael, megis cynorthwyo ei gydweithwyr wrth atal yr unigolyn. Roedd tystiolaeth hefyd na chymerodd y swyddog ddigon o ofal wrth ddefnyddio ei Taser, o ystyried bregusrwydd yr unigolyn. Canfu ein hymchwiliad fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol mewn perthynas â'i ddefnydd o rym yn y digwyddiad hwn.

Dengys yr achosion hyn y defnyddiwyd saethiadau Taser lluosog a/neu barhaus pan nad oedd risg amlwg i ddiogelwch swyddogion neu aelodau'r cyhoedd, neu pan oedd risg o'r fath wedi'i lleihau'n sylweddol. Yn ogystal â hyn, adnabuwyd bod gan nifer o bobl yn yr achosion hyn bryderon iechyd meddwl, gyda rhai wedi'u cadw'n ddiweddarach o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl*.

Gallai'r dystiolaeth hon awgrymu na wnaeth y swyddogion ynghlwm asesu bregusrwydd y bobl hyn yn briodol, yn cynnwys sut y gallai'r bregusrwydd effeithio ar ymddygiad neu allu unigolyn i gydymffurfio â chyfarwyddiadau. Mae tystiolaeth hefyd na wnaeth swyddogion yn yr achosion hyn asesu lefel y bygythiad yn briodol cyn penderfynu a oedd saethiad ailadroddus neu barhaus yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur.

Ym mhob achos heblaw un lle nodasom bryderon am y defnydd posibl o Taser er mwyn cydymffurfio, adroddwyd bod yr unigolyn yn dreisgar, ymosodol a/neu wrthsafol.

Cafodd naw o bobl (38%) eu honni neu eu hamau o feddu ar arf gan swyddogion, ond ni chanfuwyd yr un ar yr unigolion. Nid oedd yr un unigolyn yn meddu ar arf ar adeg y digwyddiad.

O'r bobl ynghlwm â'r 24 achos lle nodasom bryderon am y defnydd posibl o Taser er mwyn cydymffurfio, adnabuwyd bod gan wyth o bobl bryderon iechyd meddwl, ac roedd gan 14 gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau ar adeg y digwyddiad. O'r rhain, roedd pedwar hefyd yn arddangos symptomau aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Cafodd y pedwar eu cadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* yn ddiweddarach.

Roedd tystiolaeth mewn sawl un o'r achosion hyn nad oedd swyddogion wedi ceisio cyfathrebu ag unigolion a oedd gan bryderon iechyd meddwl, neu broblemau ag alcohol neu gyffuriau, ac yn hytrach wedi gweiddi cyfarwyddiadau'n unig. Canfuom mewn rhai achosion y defnyddiwyd Taser pan na chydymffurfiodd unigolion â'r cyfarwyddiadau hyn.

Mewn dau achos, roedd yr unigolion yn ddinasyddion tramor yr ymddengys nad oeddent yn gallu siarad Saesneg yn dda iawn. Gallai'r rhwystr iaith hwn fod wedi egluro pam na wnaethant gydymffurfio â chyfarwyddiadau swyddogion.

Dengys hyn fod rhai swyddogion wedi methu ag adnabod, ac o ganlyniad methu ag ystyried, sut y gallai'r bregusrwydd yma effeithio ar ymddygiad unigolyn, yn benodol ei allu i ddeall a chydymffurfio â chyfarwyddiadau. Ni ddylid defnyddio Taser yn syml er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddiadau neu weithdrefnau lle nad oes bygythiad, neu mae'r bygythiad wedi'i leihau'n sylweddol i'r pwynt lle nad yw'n gymesur nac angenrheidiol mwyach.

Un enghraifft o hyn yw lle mae unigolyn yn cael ei roi mewn gefynnau neu'n cael ei atal gan swyddogion eraill. Mae'n bryderus y nodasom broblemau posibl gyda Taser yn cael ei ddefnyddio er mwyn cydymffurfio ym mron chwarter ein hachosion. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod swyddogion yn defnyddio sgiliau cyfathrebu a strategaethau priodol i reoli unigolyn bregus i leihau'r defnydd o rym. Mae'n bwysig ystyried gallu'r unigolyn i ddeall a chydymffurfio â chyfarwyddiadau ac ystyried hyn yn y broses benderfynu. Os na chaiff ei ystyried, mae risg gynyddol bosibl o ddefnyddio Taser er mwyn cydymffurfio.

## Defnyddio Taser yn y modd tanio llonyddu (yn cynnwys y modd tanio llonyddu ar ongl)

Y modd tanio llonyddu yw tanio Taser mewn cyswllt uniongyrchol â'r corff, yn hytrach na saethu o bellter. Nid yw'r modd tanio llonyddu yn creu'r analluogrwydd niwrogyhyrol y mae Taser wedi'i ddylunio i'w gyflawni; dim ond poen cyfyngedig y mae'n ei beri i'r

unigolyn. Nid yw defnyddio Taser yn y modd tanio llonyddu yn dechneg a addysgir i swyddogion mewn hyfforddiant Taser cenedlaethol.

Gellir defnyddio Taser yn y modd ‘tanio llonyddu ar ongl’ hefyd. Yn wahanol i’r modd tanio llonyddu, gellir defnyddio’r modd tanio llonyddu ar ongl i greu analluogrwydd niwrogyhyrol ar ôl saethiad Taser aneffeithiol; er enghraifft, lle mae’r dartiau yn rhy agos at ei gilydd i analluogi’r unigolyn yn effeithiol, neu lle nad yw un dart wedi cysylltu. Yn y modd hwn, lleolir y Taser yn erbyn y corff i ffwrdd o’r dartiau a thannir y Taser.

Awgryma APP presennol y dylid ystyried defnyddio Taser yn y modd tanio llonyddu ar gyfer atgyfeiriad gwirfoddol i’r IOPC[137]. Fodd bynnag, gwyddom o nifer yr achosion lle defnyddiwyd y modd tanio llonyddu a gofnodwyd yn nata’r Swyddfa Gartref mai anaml iawn y mae lluoedd yn atgyfeirio’r achosion hyn i ni. Yn 2017/18, adroddwyd y modd tanio llonyddu mewn 61 o ddigwyddiadau ac, yn 2018/19, adroddwyd mewn 55 o ddigwyddiadau.

Codwyd pryderon am y defnydd o Taser yn y modd tanio llonyddu yn adroddiadau 2008 a 2014 yr IPCC ar Tasers. Canfu adroddiad 2014 fod y defnydd o Taser yn y modd tanio llonyddu yn arwain at nifer fawr o gwynion, ac mewn sawl ymchwiliad lle defnyddiwyd Taser yn y modd tanio llonyddu’n unig, nid oedd y dacteg wedi arwain at y rheolaeth yr oedd y swyddogion wedi gobeithio ac weithiau, perodd i’r unigolyn straffaglu neu atal yn waeth.

O’r 94 o bobl ynghlwm ag achosion lle saethwyd â Taser, saethwyd yn y modd tanio llonyddu at 11 a saethwyd yn y modd tanio llonyddu ar ongl at bedwar (cyfanswm o 15 o bobl). Digwyddodd saith o’r digwyddiadau hyn yn 2018. Dim ond dau achos (ynghlwm â dau o bobl) oedd yn cynnwys y defnydd o Taser yn y modd tanio llonyddu’n unig. Yng ngweddill yr achosion, saethwyd â Taser o leiaf unwaith cyn ei ddefnyddio yn y modd tanio llonyddu neu’r modd tanio llonyddu ar ongl.

O’r 15 o bobl y saethwyd atynt yn y modd tanio llonyddu neu’r modd tanio llonyddu ar ongl[138], gwnaeth saith gŵyn, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â defnydd y swyddogion o rym. Cwynodd dau o bobl yn benodol am y defnydd o Taser, sef bod ei defnydd yn amhriodol oherwydd presenoldeb deunydd fflamadwy, a bod y Taser wedi cael ei ddefnyddio heb unrhyw reswm a chyn i swyddogion gyfathrebu â’r unigolyn.

---

[137] Y Coleg Plismona. Dyfeisiau ynni wedi’i ddargludo (Taser). Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/armed-policing/conducted-energy-devices-taser/

[138] O’r wyth digwyddiad lle saethwyd at yr unigolyn yn y modd tanio llonyddu neu’r modd tanio llonyddu ar ongl, ymchwiliwyd i chwech fel mater ymddygiad ac roedd dau yn ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol.

Roedd tri ar ddeg o'r bobl ynghlwm â'r achosion hyn yn Wyn, un yn Ddu ac un o ethnigrwydd cymysg. Roedd un unigolyn o dan 18 oed. Roedd gan un ar ddeg o bobl gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau ar adeg y digwyddiad, ac roedd gan naw o bobl bryderon iechyd meddwl (yn cynnwys un â syndrom Asperger). Cafodd dau o'r unigolion hyn eu cadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* yn ddiweddarach.

Ym mhob achos yn cynnwys y defnydd o'r modd tanio llonyddu neu'r modd tanio llonyddu ar ongl, adroddwyd bod yr unigolyn yn dreisgar, ymosodol a/neu wrthsafol. Mewn 13 achos, defnyddiwyd y modd tanio llonyddu neu'r modd tanio llonyddu ar ongl yn ystod straffaglu rhwng swyddogion a'r unigolyn neu wrth geisio atal yr unigolyn.

Yn un o'r achosion hyn, roedd yr unigolyn yn ymosod ar swyddogion, yn hytrach na cheisio gwrthsefyll cael ei ddal yn unig. Mewn sawl achos, roedd y saethiad Taser wedi bod yn aneffeithiol ac ystyriodd swyddogion mai defnyddio'r Taser yn y modd tanio llonyddu neu'r modd tanio llonyddu ar ongl oedd eu hopsiwn gorau i allu atal yr unigolyn.

Yn y ddau achos arall, nesaodd y swyddog at yr unigolyn a defnyddio'r Taser yn y modd tanio llonyddu i geisio ei ddal. Mewn un achos, dywedodd y swyddog ei fod yn rhy agos at yr unigolyn i saethu â Taser a bod opsiynau tactegol eraill yn anaddas. Yn y llall, roedd y swyddog wedi saethu â Taser heb lwyddiant felly penderfynodd ddefnyddio'r Taser yn y modd tanio llonyddu ar ongl pan drodd yr unigolyn i ffwrdd.

Saethwyd â Taser yn barhaus at un ar ddeg o bobl, y saethwyd at bump ohonynt yn y modd tanio llonyddu a'r modd tanio llonyddu ar ongl yn barhaus.

Parodd y saethiad parhaus hiraf 48 eiliad. Yn yr achos hwn, galwyd swyddogion i gynorthwyo staff meddygol wrth atal yr unigolyn (a oedd wedi'i gadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* mewn lleoliad meddygol) yr oedd angen ei lonyddu. Yn ystod y digwyddiad, saethodd dau swyddog eu Tasers a ymddangosai'n rhannol effeithiol, gan alluogi'r swyddogion i roi'r unigolyn ar y llawr. Fodd bynnag, parhaodd yr unigolyn i straffaglu a cheisiodd dynnu'r dartiau Taser.

Rhoddodd un o'r swyddogion y gorau i ddefnyddio ei Taser ar ôl pum eiliad i gynorthwyo â'r ataliaeth. Symudodd swyddog Taser arall ymlaen a defnyddio ei Taser yn y modd tanio llonyddu ar ongl. Saethodd ei Taser am 48 o eiliadau i gyd; yr oedd 38 eiliad ohonynt yn y modd tanio llonyddu ar ongl. Roedd swyddogion yn straffaglu â'r unigolyn drwy gydol yr amser hwn ac yn ei chael hi'n anodd ei roi mewn gefynnau. O fewn tair eiliad i'r Taser yn cael ei ddiffodd, rhoddwyd yr unigolyn mewn atalyddion a'i adael yng ngofal y staff meddygol. Ar y cyfan, canfuom fod tystiolaeth annigonol i awgrymu y dylai unrhyw swyddog wynebu gweithdrefnau perfformiad neu ddisgyblu.

Mewn achos arall, defnyddiodd swyddog Taser yn y modd tanio llonyddu deirgwaith - parodd y saethiadau hyn 15 eiliad, 20 eiliad a 14 eiliad yn y drefn honno. Mewn dau achos arall, defnyddiwyd Taser yn y modd tanio llonyddu am wyth eiliad. Yn yr achos olaf, saethodd swyddog ei Taser cyn ei ddefnyddio yn y modd tanio llonyddu ar ongl. Cyfanswm hyd y saethiad hwn oedd 17 eiliad ond ymddengys nad oedd y Taser mewn cyswllt parhaus â'r unigolyn.

Nodwyd pryderon am y defnydd posibl o Taser er mwyn cydymffurfio mewn tri o'r achosion lle saethwyd at unigolion yn y modd tanio llonyddu neu'r modd tanio llonyddu ar ongl. Mewn un achos, cafodd unigolyn ei arestio a'i roi mewn gefynnau gan ddau swyddog yn dilyn digwyddiad cam-drin domestig. Rhoddwyd yr unigolyn yng ngefn cerbyd yr heddlu, pan ddywedwyd wrth y swyddogion fod ganddo orbryder a sgitsoffrenia. Ceisiodd yr unigolyn ddod allan o'r cerbyd a dilynodd straffaglu. Yn ystod y straffaglu roedd yr unigolyn yn dal mewn gefynnau ac wedi'i atal ar y llawr.

Arciodd un o'r swyddogion ei Taser am wyth eiliad a dywedodd wrth yr unigolyn y byddai'n defnyddio Taser pe bai'n "parhau". Yna saethodd y swyddog ei Taser yn y modd tanio llonyddu yn erbyn ardal ysgwydd yr unigolyn. Yn ystod y cylch pum eiliad, symudodd y swyddog y Taser i groth coes yr unigolyn i'w ddefnyddio yn y modd tanio llonyddu ar ongl.

Canfuom fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol mewn perthynas â'i ddefnydd o Taser a'r iaith a ddefnyddiodd. Cyfeiriasom y mater hwn i Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd.

Mewn achos arall, mynychodd tri swyddog adroddiadau o unigolyn yn ceisio mynd i mewn i gerbyd a'i ddifrodi. Adnabuwyd bod gan yr unigolyn bryderon iechyd meddwl a chysylltiadau â chyffuriau neu alcohol. Roedd y swyddog wedi'i arfogi â Taser hefyd o'r farn bod yr unigolyn yn dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt.

Tynnwyd yr unigolyn o'r cerbyd a'i roi ar y llawr. Fel y digwyddodd hyn, tarodd coes yr unigolyn, yn anfwriadol, fraich swyddog arall, a oedd yn dal Taser. Saethodd y swyddog ei Taser yn y modd tanio llonyddu am 15 eiliad. Yna rhoddwyd yr unigolyn mewn gefynnau a'i arestio am ddifrod troseddol. Cerddwyd yr unigolyn i fan yr heddlu, pan ddechreuodd straffaglu â swyddogion. Saethodd y swyddog ei Taser eto yn y modd tanio llonyddu am 20 eiliad. Tra'r oedd y Taser yn cael ei ddefnyddio, dyrnodd swyddog arall yr unigolyn deirgwaith yn y wyneb.

Ceisiodd swyddogion a gwyliwr atal yr unigolyn cyn i'r swyddog danio ei Taser eto. Tynnwyd yr unigolyn i'r llawr a'i saethu â Taser yn y modd tanio llonyddu am y drydedd gwaith, am 14 eiliad, tra'r oedd mewn gefynnau, yn gorwedd ar ei wyneb ar y llawr ac yn cael ei atal gan swyddogion. Aethpwyd â'r unigolyn i'r ddalfa ac yna i'r ysbyty a chafodd ei gadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* yn ddiweddarach.

Canfu ein hymchwiliad y gellid cyfiawnhau'r pedwar saethiad Taser cyntaf ond nad oedd y pumed yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur. Daethom i'r casgliad y gallai panel disgyblu ganfod y defnyddiodd y swyddog ei Taser ar yr achlysur olaf fel arf cydymffurfio, ac felly roedd ganddo achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol. Canfu ein hymchwiliad hefyd fod gan swyddog arall achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol mewn perthynas â'i ddefnydd o rym yn erbyn yr unigolyn. Cyfeiriasom y mater hwn i Wasanaeth Erlyn y Goron.

### Defnydd arall o rym

Roedd nifer fawr o achosion lle defnyddiwyd Taser, hefyd yn cynnwys mathau eraill o rym yn cael eu defnyddio gan swyddogion. Roedd naw deg un o'r 101 o achosion a ddadansoddwyd yn cynnwys mathau eraill o rym yn cael eu defnyddio yn ogystal â Taser. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau o'n hadroddiad 2016 ar y defnydd o rym, a ganfu mewn tri allan o bedwar atgyfeiriad yn cynnwys y defnydd o Taser, roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys math arall o rym.

Roedd y mathau eraill o rym a ddefnyddiwyd gan swyddogion yn yr achosion hyn yn cynnwys gefynnu (y mwyaf cyffredin), atal, tactegau diarfog, atalyddion coesau, mygydau atal poeri, chwistrell lidus, baton, tariannau, arfau tanio a chŵn yr heddlu.

Gallai ymchwil bellach ystyried cyfraddau'r mathau eraill o rym a ddefnyddir ar y cyd â Taser, a pha fathau o rym sy'n cael eu defnyddio cyn ac ar ôl troi at Taser. Byddai hyn yn darparu tystiolaeth bwysig o effeithiolrwydd Taser yn dod â sefyllfaoedd o dan reolaeth yn gyflym heb orfod troi at ffurfiau eraill ar rym. Byddai hefyd yn helpu i bennu'r graddau y defnyddir Taser fel yr opsiwn cyntaf yn hytrach na'r olaf gan swyddogion.

## 6.4 Effaith a ffactorau risg wrth ddefnyddio Taser

### Oedran

Ni chyfeiriwyd bob amser at oedran yr unigolyn yn yr adroddiad terfynol. Cafwyd data oedran o gofnodion y ddalfa, ffurflenni defnydd yr heddlu o rym neu Taser a dogfennaeth arall.

Roedd dros hanner y bobl ynghlwm â'n hachosion rhwng 26 a 48 oed. Yr oedran cyfartalog oedd 35 oed. Roedd oddeutu chwech y cant (6%) o dan 18 oed, ac roedd oddeutu chwarter yn 25 oed neu iau. Ceir dadansoddiad o unigolion yn ôl oedran yn nhabl 7.

**Tabl 7: Oedran unigolion**

| Oedran (blynyddoedd) | Nifer yr unigolion |
|---|---:|
| O dan 18 | 6 |
| 18-25 | 22 |
| 26-35 | 30 |
| 36-45 | 28 |
| 46-55 | 12 |
| Dros 55 | 5 |
| Anhysbys | 5 |
| **Cyfanswm** | **108** |

## Plant a phobl ifanc

Roedd chwech o bobl o dan 18 oed. Yr ieuengaf o'r unigolion hyn oedd dau fachgen Du 14 oed. Roedd tri yn 17 oed, a chofnodwyd un fel 'o dan 18'. Dioddefodd dau o'r chwe unigolyn o dan 18 oed anafiadau difrifol. Roedd gan dri bryderon iechyd meddwl neu anableddau dysgu ac roedd dau o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol. Adroddwyd bod pedwar yn ymosodol neu wrthsafol. Mewn dau achos, saethwyd â Taser at ddau unigolyn 17 oed fwy nag unwaith. Yn y ddau achos, saethwyd â Taser deirgwaith. Saethwyd at y ddau unigolyn 17 oed am gyfnodau parhaus hefyd: naw eiliad a 35 eiliad yn y drefn honno.

Saethwyd â Taser at un o'r unigolion 14 oed unwaith wrth iddo redeg i ffwrdd o'r heddlu. Roedd swyddogion wedi mynychu adroddiadau o grŵp o fechgyn yn ymladd. Dywedodd y swyddog a saethodd ei Taser ei fod yn credu ei fod wedi gweld cyllell yn llaw'r unigolyn.

Cyfeiriwyd yr achos i ni ar ôl i'r unigolyn ddioddef anaf difrifol i'r pen, ar ôl syrthio i'r llawr yn dilyn cael ei saethu â Taser. Cwynodd yr unigolyn am y defnydd o Taser a honnodd ei fod wedi cael ei wahaniaethu oherwydd ei fod yn Ddu. Dywedodd ei fod ef a'i ffrindiau wedi bod yn chwarae gêm ac nad oeddent wedi bod yn ymladd.

Yn ystod ein hymchwiliad, canfuom fod yr unigolyn wedi cael ei gadw mewn gefynnau am amser hir, hyd yn oed ar ôl cael ei chwilio ac ni chanfuwyd cyllell. Dywedodd y swyddog fod yr ardal yn hysbys am drais gangiau a bod plant ynghlwm yn aml. Mae'r achos hwn yn dal i fynd rhagddo.

Yn yr achos arall yn cynnwys unigolyn 14 oed, cwynodd tad yr unigolyn fod ei fab, a oedd ag anabledd dysgu, wedi cael ei ymosod arno ac wedi wynebu iaith hiliol gan yr heddlu. Mynychodd dau swyddog ei gartref ar ôl adroddiadau bod yr unigolyn yn bygwth ei deulu â thrais. Yn fuan ar ôl cyrraedd, penderfynodd swyddog arestio'r unigolyn. Cyfarwyddodd ei gydweithiwr i estyn am ei Taser. Gwrthododd ei gydweithiwr a dywedodd, "Dydw i ddim yn mynd i saethu â Taser at rywun 14 oed". Gwrthsafodd yr unigolyn ymdrechion i'w arestio. Cyrhaeddodd rhagor o swyddogion ac, ar ôl gweld y swyddogion yn bresennol yn straffaglu â'r unigolyn, saethodd un ohonynt ei Taser ato.

Ni chanfu ein hymchwiliad achos i'w ateb ar gyfer y swyddog a saethodd ei Taser, ond canfu fod gan y ddau swyddog a oedd yn arestio achos i'w ateb am eu defnydd o rym, methiannau i barchu hawliau'r unigolyn ac ymddwyn gyda thegwch a didueddrwydd. Cyfeiriwyd y ddau swyddog i Wasanaeth Erlyn y Goron am ymosod a throseddau eraill.

O’r pedwar o bobl o dan 18 oed, roedd dau yn fenywaidd a dau yn wrywaidd. Roedd dau yn Wyn, un yn Ddu ac un o ethnigrwydd cymysg. Adnabuwyd materion ymddygiad ar gyfer swyddogion mewn tri o’r pedwar achos.

Roedd gan y ddwy ferch, 17 oed, bryderon iechyd meddwl. Roedd un ohonynt wedi bygwth swyddogion â chwip, anwybyddu eu ceisiadau ac estyn am wrthrych pan saethodd swyddog ei Taser. Dywedodd y swyddog ei fod yn ofni ei bod yn estyn am arf. Ni chanfu ein hymchwiliad achos i’w ateb ar gyfer unrhyw swyddog.

Yn yr achos arall, roedd yr unigolyn yn ferch Ddu a oedd ar ymweliad o dan oruchwyliaeth o ganolfan iechyd meddwl lle’r oedd yn glaf. Rhedodd i ffwrdd o’r grŵp ac aeth at swyddogion mewn cryn ofid, yn honni ei bod yn cael ei dilyn ac wedi cael ei threisio. Ceisiodd swyddog ei rhoi mewn gefynnau yn sydyn. Gwrthsafodd. Gwaethygodd y sefyllfa a chafodd ei saethu â chwistrell lidus, trawo â baton fwy nag unwaith a’i saethu â Taser.

Canfuom nad oedd gan y swyddog a ddefnyddiodd Taser achos i’w ateb am ei ddefnydd o rym, ond argymellasom fod ‘angen gwella ymarfer’ oherwydd ei ddiffyg hunanreolaeth, parch a chwrteisi. Canfuom hefyd fod gan y swyddog a geisiodd roi’r unigolyn mewn gefynnau yn y lle cyntaf achos i’w ateb am ei drawiadau baton parhaus.

Saethwyd â Taser at fachgen 17 oed ar ôl iddo ymosod ar swyddogion a fynychodd adroddiadau o ymladd mewn siop prydau parod. Cafodd ei saethu â Taser am 35 eiliad yn barhaus. Aeth yn anymwybodol a dioddefodd ataliad y galon ond gwellhaodd yn llwyr. Awgrymai’r dystiolaeth y gallai’r unigolyn fod yn dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt.

Ni nodwyd mater ymddygiad ar gyfer y swyddog Taser. Fodd bynnag, canfuom y gallai swyddogion fod wedi cyfathrebu’n well â’i gilydd, a byddai hyn, efallai, wedi osgoi saethiad Taser parhaus. Anelwyd â dotyn coch at y bachgen arall o dan 18 oed tra’r oedd yn cael ei ddal, yn dilyn honiadau ei fod wedi bygwth aelod o’r cyhoedd â chyllell a’i fod yn meddu ar gyllell hollti.

Fel gydag adolygiad Taser 2014 yr IPCC, canfuom mai ychydig iawn o’n hachosion sy’n cynnwys y defnydd o Taser ar blant, er gwaethaf y ffaith bod oddeutu 2,800 o ddigwyddiadau Taser yn cynnwys plant yn set ddata 2019/20 y Swyddfa Gartref, yr oedd 134 ohonynt yn saethiadau Taser.

## Pobl hŷn

Roedd pedwar o’r unigolion ynghlwm â’n hymchwiliadau yn hŷn na 60 oed. Roedd pob un yn wrywaidd, roedd tri yn Wyn ac un yn Ddu. Roedd gan ddau bryderon

iechyd meddwl. Roedd yr hynaf yn 74 oed ac roedd un arall yn 73 oed. Saethwyd â Taser at un ar ôl i'r heddlu gael eu galw i'r cartref gofal lle'r oedd yn preswylio oherwydd ei fod yn ymddwyn yn ymosodol ac yn gafael mewn cyllell fwrdd. Roedd gan y dyn ddementia. Saethwyd â Taser ato ddwywaith, er ymddengys nad oedd yr un saethiad yn effeithiol. Ni nodwyd materion ymddygiad ar gyfer unrhyw swyddog.

Roedd y llall yn ddyn wedi'i amau o fod yn rhan o fyrgleriaeth, ar gam. Gorchmynnodd y swyddogion i'r dyn fynd ar y llawr a gwrthododd, gan ddweud ei fod wedi cael llawdriniaeth ar ei ben-glin yn ddiweddar. Yna saethodd swyddog ei Taser. Canfuom fod y swyddog wedi defnyddio ei Taser pan nad oedd yr unigolyn yn fygythiad ac y gallai fod wedi'i ddefnyddio er mwyn cydymffurfio. Canfuom, felly, fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol.

## Iechyd meddwl, anableddau dysgu ac aflonyddwch ymddygiadol acíwt

Cofnodwyd pryderon iechyd meddwl neu anableddau dysgu fel ffactor mewn 59[139] o'r 101 o achosion a adolygwyd (58%). Cofnodwyd iechyd meddwl fel ffactor os oedd gan yr unigolyn, neu roedd yn ymddangos bod ganddo, bryderon iechyd meddwl neu aflonyddwch ymddygiadol acíwt ar adeg y digwyddiad, neu os oedd gan yr unigolyn hanes o bryderon iechyd.

Mewn 13 o'r 16 achos a oedd yn cynnwys marwolaeth (81%), roedd gan yr unigolyn bryderon iechyd meddwl; roedd saith o'r rhain wedi hunan-niweidio'n ddifrifol. Dioddefodd pedwar ar bymtheg o bobl anaf difrifol. Roedd naw ohonynt wedi hunan-niweidio ac roedd un ohonynt yn ceisio crogi ei hun. Mewn saith achos, daliwyd yr unigolyn o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl*.

O'i gymharu â'r sampl gyffredinol, roedd achosion lle'r oedd iechyd meddwl yn ffactor yn fwy tebygol o lawer o arwain at ymchwiliad i farwolaeth neu anaf difrifol (39% o'i gymharu â 29% o'r sampl gyffredinol). Fodd bynnag, roedd awgrymiadau y gallai swyddogion fod wedi torri safonau ymddygiad proffesiynol mewn 46% o ymchwiliadau yn cynnwys iechyd meddwl. Mewn 37% o ymchwiliadau yn cynnwys iechyd meddwl, roedd cwyn am weithredoedd swyddogion.

O'r bobl ynghlwm â'r achosion hyn, roedd 42 yn Wyn (72%), 14 yn Ddu (24%), dau yn Asiaidd ac un o ethnigrwydd cymysg. Roedd dau ar bymtheg (29%) yn 25 oed neu iau, yn cynnwys pedwar a oedd o dan 18 oed (7%). Roedd hanner yr unigolion

[139] Roedd dau o'r achosion hyn yn cynnwys yr un unigolyn (un ymchwiliad i farwolaeth neu anaf difrifol ac ymchwiliad i gŵyn ar wahân). Roedd iechyd meddwl yn ffactor felly mewn 59 achos yn cynnwys 58 o bobl.

(29) rhwng 26 a 45 oed, 15% rhwng 46 a 55 oed a dim ond dau oedd yn hŷn na 55 oed[140].

O'i gymharu â'r sampl gyffredinol, roedd y bobl ynghlwm ag achosion iechyd meddwl ychydig yn fwy tebygol o fod yn Ddu ac yn 25 oed neu iau. Roedd gan fwy na hanner (14) y 24 o unigolion Du ynghlwm â'r achosion a adolygasom bryderon iechyd meddwl; ac roedd gan oddeutu tair rhan o bump (61%) o'r 28 o unigolion 25 oed neu iau, bryderon iechyd meddwl.

Saethwyd â Taser at dri deg chwech o'r 58 o unigolion (62%) fwy nag unwaith, a saethwyd at 22 o unigolion (40%) yn barhaus. Golyga hyn, mewn digwyddiadau lle'r oedd iechyd meddwl yn ffactor, roedd unigolion yn fwy tebygol o wynebu saethiadau lluosog a pharhaus o'i gymharu â'r sampl gyffredinol.

Nid yw'r rhesymau dros hyn yn glir. Er bod unigolion mewn achosion lle'r oedd iechyd meddwl yn ffactor yn fwy tebygol o gael arf na'r sampl gyffredinol (55% o'i gymharu â 33% yn y sampl gyffredinol), nid oedd cyffuriau a/neu alcohol yn fwy tebygol o fod yn ffactor (52% o'i gymharu â 51 yn y sampl gyffredinol). Roedd unigolion hefyd ychydig yn llai tebygol o fod yn ymosodol, treisgar, neu wrthsafol na'r sampl gyffredinol (80% o'i gymharu â 83%).

Roedd effeithiolrwydd swyddogion wrth ymdrin â phobl â phryderon iechyd meddwl neu anableddau dysgu yn amrywio'n sylweddol. Mewn rhai achosion, ymatebodd swyddogion yn dda ac roeddent yn dilyn canllawiau a hyfforddiant.

Er enghraifft, roedd un achos yn cynnwys unigolyn â sgitsoffrenia paranoiaidd a oedd yn dioddef pwl seicotig. Pan gyrhaeddodd swyddogion, roedd yr unigolyn yn noeth ac yn taflu dodrefn oddi ar ei falconi. Nesaodd swyddogion at yr unigolyn. Roeddent yn bwyllog a chyfeillgar. Gwrthododd yr unigolyn ymgysylltu, dywedodd wrthynt am adael ac nid oedd yn credu eu bod yn swyddogion heddlu. Ceisiodd swyddogion ei sicrhau eu bod yn swyddogion heddlu. Ar un adeg, symudodd yr unigolyn at y balconi. Roedd swyddog yn ofni y byddai'n neidio oddi ar y balconi a saethodd ei Taser. Syrthiodd yr unigolyn a cheisiodd godi ar ei draed, saethodd y swyddog ei Taser am yr eildro. Yna rhoddwyd yr unigolyn mewn gefynnau. Symudodd y swyddogion yr unigolyn i mewn a galw ambiwlans. Roedd yr unigolyn yn ffwndro, nid oedd yn gwybod ei enw na phwy oedd ei deulu ac roedd yn gweld pethau.

Canfu ein hymchwiliad fod cyfathrebu'r swyddogion â'r unigolyn drwy gydol y digwyddiad yn unol ag arferion da. Canfuom fod esboniad y swyddog dros ddefnyddio Taser, h.y. am na allai gyrraedd yr unigolyn mewn pryd, ac roedd yn

[140] Roedd oedran un unigolyn yn anhysbys.

poeni y byddai'n neidio oddi ar y balconi, yn rhesymol. Ar ôl y saethiadau Taser, sicrhaodd y swyddogion yr unigolyn, ac ymgysylltu ag ef mewn modd amyneddgar a thosturiol, nad oedd yn heriol. Gwnaethant roi duvet drosto, a dod o hyd i drowsus iddo a'i helpu i'w roi ymlaen. Gwnaethant ufuddhau i orchymyn yr unigolyn i edrych ar eu hoffer, ni wnaethant ofyn am esboniad dros ei ymddygiad ac roeddent yn ddymunol a chyfeillgar. Roedd pob swyddog yn cydnabod bod yr unigolyn yn fregus.

Fodd bynnag, roedd enghreifftiau hefyd lle ni ddilynodd swyddogion ganllawiau ar ddelio â phobl â phryderon iechyd meddwl - weithiau oherwydd eu bod wedi methu ag adnabod arwyddion pryderon iechyd meddwl posibl. Mewn un achos, gwelodd swyddog nad oedd ar ddyletswydd unigolyn yn rhedeg allan o'i dŷ, a oedd yn ymddangos yn 'gythryblus iawn'. Syrthiodd dros wal yn yr ardd, tarodd ei ben a rhedodd i ffwrdd. Dilynodd y swyddog yr unigolyn, a gafodd ei daro gan gar wedyn, cyn parhau i redeg. Cyrhaeddodd rhagor o swyddogion a cheisiasant ymgysylltu â'r unigolyn. Ni ymatebodd ac nid oedd yn ymddangos fel pe bai yn deall beth oedd yn digwydd. Ceisiodd swyddogion ddal yr unigolyn, a wrthwynebodd. Dilynodd straffaglu, a chafodd yr unigolyn ei saethu ato â Taser wyth gwaith.

Canfu ein hymchwiliad fod ffocws cyfyngedig ar iechyd meddwl yr unigolyn, er gwaethaf arwyddion clir. Dywedasom y gallai'r swyddogion fod wedi defnyddio sgiliau cyfathrebu'n well a rhoi lle i'r unigolyn, a fyddai wedi gallu atal y sefyllfa rhag gwaethygu. Ymddengys fod swyddogion a gyrhaeddodd yn ddiweddarach yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar gyfathrebu ac ymatebodd yr unigolyn yn gadarnhaol i hyn.

Mewn achosion eraill, methodd swyddogion â dilyn canllawiau ar ddelio â phryderon iechyd meddwl, er gwaethaf eu bod wedi adnabod yr arwyddion. Mewn un achos, galwyd swyddogion i adroddiadau o ddyn noeth, yn rhedeg drwy'r stryd, gyda gwaed arno, yn difrodi eiddo ac yn ymosod ar bobl yn mynd heibio. Dywedodd galwyr fod y dyn yn ymddangos yn fregus ac y gallai fod yn ceisio lladd ei hun. Roedd yn gweiddi "helpwch fi" drosodd a throsodd.

Cydnabu swyddogion a ymatebodd yr ymddengys fod yr unigolyn yn cael 'rhyw fath o bwl iechyd meddwl'. Fodd bynnag, ni wnaethant fawr o ymdrech i gyfathrebu â'r unigolyn, oni bai am roi gorchmynion. Pan fethodd yr unigolyn â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau, saethwyd ato â Taser. Saethwyd â Taser at yr unigolyn naw gwaith i gyd, weithiau mewn ymateb i'w ymdrechion i frathu'r palmant. Ni ffoniodd yr un swyddog ambiwlans. Dywedodd un fod ganddo broblemau â'i radio. Dywedodd un arall na chafodd y cyfle i alw am ambiwlans a'i fod yn tybio y byddai'r ystafell reoli wedi galw am un pan ddywedwyd wrthynt fod yr unigolyn wedi cael ei saethu â Taser. Galwyd ambiwlans un ar bymtheg o weithiau ar ôl i'r swyddogion cyntaf gyrraedd gan swyddog arall, a gyrhaeddodd yn ddiweddarach.

Argymellasom fod y swyddogion yn derbyn camau gweithredu gan reolwyr i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd galw am ambiwlans mewn argyfyngau meddygol. Canfuom hefyd fod gan y swyddog a ddefnyddiodd Taser achos i'w ateb am ei 'ddefnydd anwahaniaethol o Taser'.

Canfuom fod swyddogion wedi methu cyfleoedd posibl i dawelu'r sefyllfa mewn 15 achos (25%), ac mewn 16 achos (27%) nodasom broblemau â chyfathrebu swyddogion. Roedd y gyfran o achosion lle canfuom fethiannau i dawelu neu broblemau â chyfathrebu yn is mewn achosion yn cynnwys iechyd meddwl na'r sampl gyffredinol.

Mewn 26 achos lle'r oedd iechyd meddwl yn ffactor, roedd yr unigolyn yn hunan-niweidio neu wedi bygwth hunan-niweidio. Mewn 19 o'r achosion hyn, saethwyd â Taser at unigolyn a oedd yn hunan-niweidio ar y pryd, neu a oedd yn meddu ar arf ac yn bygwth hunan-niweidio yn y fan a'r lle. Yn yr achosion hyn, ymddengys fod y swyddogion wedi saethu eu Taser, neu o leiaf yn rhannol, i atal yr unigolyn rhag achosi niwed iddynt eu hunain, er saethodd rhai swyddogion eu Taser i atal yr unigolyn rhag hunan-niweidio ac amddiffyn eu hunain neu swyddogion eraill.

Mewn dau achos arall, roedd yr unigolyn wedi hunan-niweidio cyn i'r heddlu fynychu, ac ymddengys fod y swyddogion wedi defnyddio eu Tasers i atal rhagor o hunan-niweidio, yn ogystal ag amddiffyn eu hunain neu eraill. Mewn rhai achosion, roedd yr unigolyn wedi niweidio ei hun neu wedi bygwth hunan-niweidio, ond ymddengys na ddefnyddiwyd Taser mewn ymateb i hyn.

Canfuom enghreifftiau o swyddogion yn cymryd camau gweithredu cyflym ac effeithiol i atal yr unigolyn rhag achosi niwed iddo'i hun. Fodd bynnag, er gwaethaf enghreifftiau o'r fath o arferion da, awgryma ein hadolygiad o achosion lle'r oedd iechyd meddwl, anableddau dysgu neu aflonyddwch ymddygiadol acíwt yn ffactor, nad yw swyddogion yn dilyn canllawiau ar ddelio â'r sefyllfaoedd hyn yn gyson.

Mewn nifer o achosion, methodd swyddogion â chyfathrebu â'r unigolion cyn rhoi cyfarwyddiadau ac, mewn sawl achos, gwnaethant eu bygwth â saethiadau Taser dilynol os nad oeddent yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau. Mewn wyth ymchwiliad yn cynnwys iechyd meddwl (14%), canfuom y gallai Taser fod wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion cydymffurfio.

Awgryma hyn nad yw rhai swyddogion yn deall neu'n ystyried y gallai rhywun sy'n dioddef pryderon iechyd meddwl neu, aflonyddwch ymddygiadol acíwt neu anableddau dysgu fod mewn sefyllfa lle na allant ddeall cyfarwyddiadau neu gydymffurfio â nhw. Roedd enghreifftiau hefyd o sylwadau amhriodol gan swyddogion, yn cynnwys y defnydd o dermau difrïol neu sarhaus i ddisgrifio unigolion.

Rhaid i swyddogion allu cydnabod yr arwyddion y gallai rhywun fod yn fregus ac ystyried a oes angen iddynt fabwysiadu dull arall i gyfathrebu'n effeithiol. Rhaid i hyfforddiant a chanllawiau roi strategaethau priodol i swyddogion dawelu digwyddiadau o'r fath, yn cynnwys ceisio dal yr unigolyn, lleihau amhariadau, egluro eu gweithredoedd, gwrando, rhoi amser a lle i'r unigolyn a cheisio help gan unrhyw ofalwyr, perthnasau neu weithwyr cymorth iechyd meddwl. Dioddefodd bron i hanner y bobl (32%) â salwch meddwl, anableddau dysgu neu aflonyddwch ymddygiadol acíwt anaf difrifol yn dilyn y digwyddiadau hyn: mae hyn yn tanlinellu'r risgiau lle mae swyddogion yn methu â thawelu'r sefyllfaoedd hyn.

## Aflonyddwch ymddygiadol acíwt

Term ymbarél yw aflonyddwch ymddygiadol acíwt a ddefnyddir i ddisgrifio symptomau y gall nifer o gyflyrau eu hachosi. Cyfeirir ato fel 'deliriwm cynhyrfus' weithiau hefyd. Mae'r cyflyrau hyn yn gysylltiedig â chynnwrf seicolegol a meddyliol eithafol, y gall aflonyddwch eithafol, gelyniaeth, cryfder eithriadol a dal ati heb flino eu nodweddu[141]. Gall anadlu cyflym, chwysu eithafol, trothwy poen uchel, bod yn boeth i'ch cyffwrdd a thrais ei nodweddu hefyd.

Roedd pedwar ar ddeg o bobl wedi'u hamau o ddioddef, neu'n dangos arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Roedd cyffuriau a/neu alcohol yn ffactor mewn 12 o'r rhain. Gwnaeth pump o bobl hunan-niweidio neu fygwth hunan-niweidio, a chafodd pump eu cadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* yn ystod neu ar ôl y digwyddiad. Anafwyd tri o bobl yn ddifrifol, yn cynnwys unigolyn 17 oed a ddioddefodd ataliad y galon ar ôl cymryd cyffuriau ac alcohol a chael ei saethu â Taser yn barhaus. Bu farw pump o bobl, ac mewn pedwar o'r rhain, pennodd cwest fod y defnydd o Taser wedi chwarae rhan yn y farwolaeth.

Mae'n glir o adolygu'r achosion hyn y gall swyddogion sydd ynghlwm â digwyddiadau lle mae unigolyn yn arddangos symptomau posibl aflonyddwch ymddygiadol acíwt ddehongli'r sefyllfa'n wahanol. Er enghraifft, roedd un unigolyn yn ymddwyn yn rhyfedd, yn aflonydd iawn, yn siarad ag ef ei hun ac yn chwysu'n ofnadwy. Dywedodd dau swyddog eu bod yn amau bod yr unigolyn yn dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt, roedd un swyddog yn credu bod ganddo bryderon iechyd meddwl, tra'r oedd y rhan fwyaf o swyddogion yn credu bod yr unigolyn wedi cymryd cyffuriau. Er gwaethaf gwahaniaethau wrth ddehongli, roedd pob swyddog yn cydnabod bod angen sylw meddygol brys ar yr unigolyn.

Mae gwahaniaethau o'r fath mewn rhagdybiaethau yn ddealladwy gan nad yw hi bob amser yn bosibl gwahaniaethu arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt oddi wrth bryderon iechyd meddwl neu feddwdod. Ar ben hynny, rhoddir canllawiau tebyg i swyddogion ar sut mae delio â'r materion hyn, ac mae arferion gorau wrth ymateb i'r sefyllfaoedd hyn yn aml yn edrych yn debyg.

Mae APP ar fregusrwydd a salwch meddwl yn ymdrin â phryderon iechyd meddwl, aflonyddwch ymddygiadol acíwt a meddwdod, ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu, tawelu ac asesiadau o risg a bygythiad[142]. Noda APP fod rhaid trin unigolion wedi'u hamau o ddioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt fel argyfwng

[141] Y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys. Acute-behavioural-disturbance (ABD): guidelines on management in police custody. Cyrchwyd o https://library.college.police.uk/docs/appref/Acute-behavioural-disturbance_Apr19.pdf

[142] Y Coleg Plismona. Bregusrwydd a salwch meddwl. Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/mental-health/mental-vulnerability-and-illness/?highlight=acute%20behavioural?s=acute+behavioural#top

meddygol a dylai swyddogion alw ambiwlans heb oedi. Noda APP hefyd y dylid ‘dal yn hytrach nag atal’ unigolion wedi’u hamau o aflonyddwch ymddygiadol acíwt ‘hyd nes y gellir cael gafael ar gymorth meddygol’[143], ac y dylid eu hatal mewn argyfwng yn unig.

Awgryma ein hachosion fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o aflonyddwch ymddygiadol acíwt a’r canllawiau ar ddelio ag ef, yn amrywio. Dangosodd rhai ymchwiliadau dystiolaeth o gydymffurfio â rhai agweddau ar y canllawiau ond nid eraill. Mewn achosion eraill, methodd swyddogion â chydymffurfio â chanllawiau er gwaethaf eu bod wedi adnabod arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt ac, mewn rhai achosion, methodd swyddogion ag adnabod yr arwyddion yn gyfan gwbl.

Mewn un achos, cafodd unigolyn ei amau o ddioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt a chafodd ei ddal o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* a’i anfon i uned iechyd meddwl. Tra yno, aeth yr unigolyn yn fwy aflonydd a gofynnwyd i swyddogion atal yr unigolyn fel y gellid ei lonyddu.

Saethodd swyddog ei Taser am 48 eiliad. Dywedodd y swyddog ei fod wedi cael ei addysgu y gallai atal unigolion ag aflonyddwch ymddygiadol acíwt fod yn beryglus iawn ac, felly, saethodd ei Taser hyd nes y gallai swyddogion roi gefynnau ac atalyddion coesau i osgoi ataliaeth gorfforol barhaus.

Cydnabu ein hymchwiliad fod y canllawiau gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM)[144] [145] yn nodi y dylid atal am gyn lleied o amser ag sy’n bosibl. Nodasom hefyd fod canllawiau RCEM yn nodi: “Mae ymchwil annigonol ar effeithiau Taser ar aflonyddwch ymddygiadol acíwt fodd bynnag gallai ei ddefnyddio fel dull cyflym o dynnu rhywun i lawr i gyfyngu ar yr amser atal...a chaniatáu ar gyfer ymyrraeth feddygol gyflym fod yn angenrheidiol ar ôl i ddulliau anghorfforol fethu.” Daethom i’r casgliad, felly, fod y defnydd o Taser yn unol â chanllawiau.

Saethwyd â Taser at un unigolyn bum gwaith, er bod amheuaeth ei fod yn dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt, o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol ac wedi bygwth hunan-niweidio. Dywedodd goruchwyliwr er nad yw saethu â Taser at rywun bum gwaith “yn gyffredin”, gwyddai o hyfforddiant y gallai saethu â Taser at rywun ag

---

[143] Y Coleg Plismona. Asesiad risg. Cyrchwyd o https://www.app.college.police.uk/app-content/detention-and-custody-2/risk-assessment/#top

[144] Y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM). (Mai 2016). Guidelines for Management of Excited Delirium / Acute Behavioural Disturbance. Cyrchwyd o https://www.rcem.ac.uk/docs/College%20Guidelines/5p.%20RCEM%20guidelines%20for%20management%20of%20Acute%20Behavioural%20Disturbance%20(May%202016).pdf

[145] Mae canllawiau RCEM wedi’u dylunio fel canllaw wedi’i ysgrifennu i glinigwyr yng nghyd-destun gweld claf mewn Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys.

aflonyddwch ymddygiadol acíwt fod yn aneffeithiol ac, o ganlyniad, nid oeddent yn poeni am nifer y saethiadau.

Mewn achos arall, methodd organau unigolyn ar ôl cael ei saethu â Taser bedair gwaith. Dywedodd dau swyddog eu bod wedi ystyried y gallai'r unigolyn fod yn dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt ar y pryd, tra dywedodd pedwar swyddog arall mai dim ond wedyn y gwnaethant ystyried hynny. Dywedodd pob swyddog, er gwaethaf aflonyddwch ymddygiadol acíwt, na fyddent wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol.

Cydnabu ein hymchwiliad y dylid osgoi ataliaeth pan amheuir aflonyddwch ymddygiadol acíwt a chanfu fod y defnydd o Taser yn briodol. Fodd bynnag, canfuom fod methiant sawl swyddog i adnabod arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt, monitro'r unigolyn, ei drin fel argyfwng meddygol a galw ambiwlans yn gyflym yn gyfystyr â pherfformiad anfoddhaol.

Yn dilyn achos arall, cyhoeddasom argymhelliad i'r llu i sicrhau bod swyddogion yn deall y berthynas rhwng aflonyddwch ymddygiadol acíwt, deliriwm cynhyrfus, straen a'r symptomau a'r ymddygiad a allai awgrymu problem feddygol ddifrifol. Roedd swyddogion ynghlwm â'r achos hwn wedi diystyru'r posibilrwydd o aflonyddwch ymddygiadol acíwt oherwydd eu bod wedi canolbwyntio ar y ffaith nad oedd yr unigolyn yn ymddangos yn boeth iawn na heb dynnu ei ddillad (dau symptom aflonyddwch ymddygiadol acíwt cydnabyddedig).

Canfuom dystiolaeth hefyd y gall swyddogion, weithiau, adnabod arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt, ond methu â gweithredu ar hyn hyd nes y caiff yr unigolyn ei ddal. Mewn un achos, dywedodd swyddog ei fod yn fwy pryderus am "gael yr unigolyn o dan reolaeth" yn hytrach na mynd i'r afael â'r broblem o aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Mewn achos arall, dywedodd dau swyddog eu bod wedi ystyried y gallai'r unigolyn fod yn dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt, ond bod eu ffocws ar amddiffyn eu hunain a galw am gymorth wrth gefn. Ni ystyriodd y naill swyddog alw am ambiwlans tan ar ôl i'r unigolyn gael ei saethu â Taser ac roedd yn anymwybodol.

Mewn un achos, methodd swyddogion â dilyn canllawiau. Saethwyd â Taser at unigolyn sawl gwaith, am gyfnodau hir, gan gynnwys yn y modd tanio llonyddu, a chafodd ei atal gan nifer o swyddogion yn gorwedd ar ei wyneb.

Canfuom fod cyfathrebu'r swyddogion â'r unigolyn drwy gydol y digwyddiad yn amhriodol. Roeddent yn ymosodol ac amharchus, er gwaethaf bod un swyddog wedi adnabod arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt a bod swyddog arall yn credu bod yr unigolyn yn feddw. Ni wnaeth yr unigolyn fygwth y swyddogion, nid oedd yn ymosodol na threisgar, a gwnaeth sawl ymgais i gyfathrebu â nhw.

Mewn pedwar o’r 14 achos lle’r oedd aflonyddwch ymddygiadol acíwt yn ffactor, canfuom fod swyddogion wedi methu â thrin yr unigolyn fel argyfwng meddygol neu sicrhau sylw meddygol prydlon. Mewn pum achos, canfuom fod swyddogion wedi methu cyfleoedd i dawelu’r sefyllfa, ac mewn chwe achos roedd problemau â chyfathrebu swyddogion. Saethwyd â Taser at un ar ddeg o bobl fwy nag unwaith. Saethwyd at chwech ohonynt yn barhaus, gan gynnwys dau yn y modd tanio llonyddu ac un yn y modd tanio llonyddu ar ongl.

## Problemau iechyd sylfaenol eraill

Roedd gan naw o bobl bryderon iechyd sylfaenol eraill. Saethwyd â Taser at bob un ohonynt a bu farw dau yn dilyn y digwyddiad. Roedd yr ieuengaf o’r rhain yn dioddef dibyniaeth ar alcohol ac, yn ystod y mis cyn y digwyddiad, roedd wedi bod yn llewygu ac yn cael poenau yn ei frest. Bu farw ar ôl cael ei saethu â Taser am wyth i naw eiliad. Roedd gan yr unigolyn arall a fu farw gyflwr ar ei galon a’i arennau.

Roedd pedwar o bobl yn eu pedwar degau hefyd. Roedd gan un anhwylder straen wedi trawma (PTSD), angina ac wedi cael tri ataliad ar y galon yn flaenorol. Saethwyd â Taser at yr unigolyn ddwywaith am bum eiliad yr un. Ni ddioddefodd anaf difrifol. Fodd bynnag, roedd yr unigolyn wedi bod yn y fyddin a dywedodd ei seicolegydd fod y defnydd o Taser wedi “efelychu profiadau o’r gorffennol yn uniongyrchol” a gweithredu fel “sbardun pwerus” i’w symptomau PTSD, a oedd wedi “cynyddu’n sylweddol” ar ôl y digwyddiad.

Roedd un arall o’r unigolion hyn wedi torri ei gefn, a saethwyd â Taser ato bedair gwaith, bob un oddeutu pedwar a phum eiliad. Ni ddioddefodd anaf difrifol. Roedd trydydd unigolyn wedi torri ei gefn hefyd, ac wedi cael dwy glun newydd. Defnyddiai ffon gerdded. Saethwyd â Taser ato am bum eiliad ac aethpwyd ag ef i’r ysbyty, ond ni ddioddefodd anaf difrifol. Roedd gan y pedwerydd unigolyn yn ei bedwar degau epilepsi. Saethwyd â Taser ato unwaith am gyfnod anhysbys. Llewygodd a dioddefodd anaf difrifol.

Roedd gan un unigolyn yn ei bum degau un ysgyfant. Saethwyd â Taser ato am bum eiliad ac ni ddioddefodd anaf difrifol. Roedd dau o bobl gyda chyflyrau iechyd yn eu saith degau. Roedd gan un ddementia, tiwmor ar yr ymennydd ac roedd yn dioddef o haint ar y pryd. Saethwyd â Taser ato ddwywaith, ond ymddengys na chafodd yr un effaith ac ni ddioddefodd anaf difrifol. Roedd yr unigolyn arall yn ei saith degau newydd gael llawdriniaeth ar ei ben-glin a saethwyd â Taser ato unwaith, am bum eiliad. Ni anafodd.

Mae ymchwil yn brin ar raddfa a natur y risgiau sy’n gysylltiedig â Taser pan gaiff ei ddefnyddio yn erbyn pobl â chyflyrau penodol. Golyga hyn fod swyddogion wedi’u llesteirio yn eu gallu i asesu a chydbwyso risgiau yn briodol fel rhan o’u proses

benderfynu. Er bod nifer y digwyddiadau a amlinellir uchod yn gymharol fach, mae'n cynrychioli 8% o unigolion, yn cynnwys dwy farwolaeth ac un anaf difrifol. Dylai swyddogion gael gwybodaeth am effaith bosibl defnyddio Taser ar bobl â phryderon iechyd i wneud penderfyniadau deallus am ddefnyddio Taser.

## Cyffuriau a/neu alcohol

Roedd cyffuriau a/neu alcohol yn ffactor mewn 52 achos yn cynnwys 53 o bobl[146]. Cofnodwyd cyffuriau a/neu alcohol fel ffactor os, ar adeg y digwyddiad, roedd yr unigolyn newydd yfed, yn feddw ar, yn meddu ar, neu â phroblemau hysbys ag, alcohol a/neu gyffuriau.

Saethwyd â Taser at wyth ar hugain o bobl y cofnodwyd bod cyffuriau a/neu alcohol yn ffactor iddynt fwy nag unwaith, a saethwyd at 17 yn barhaus. Defnyddiwyd Taser yn y modd tanio llonyddu neu'r modd tanio llonyddu ar ongl ar 11 o bobl. Mewn 14 achos, canfuom dystiolaeth o ddefnydd posibl o Taser er mwyn cydymffurfio. Roedd naw achos yn cynnwys y defnydd o Taser mewn lleoliad peryglus, megis ar uchder, ar risiau a thra'r oedd yr unigolyn yn rhedeg tuag at ffordd.

Roedd gan ddeg ar hugain o'r 53 o bobl (57%) bryderon iechyd meddwl, anableddau dysgu neu o dan amheuaeth o ddioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Cafodd pedwar eu cadw gan swyddogion o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl*. Roedd pedwar ar ddeg (26%) yn hunan-niweidio, ceisio neu fygwth hunan-niweidio Roedd deunaw (34%) yn meddu ar arf. Adroddwyd bod bron pob un (49) yn ymosodol, treisgar neu wrthsafol. Mewn 15 achos, canfuom fod swyddogion wedi methu cyfleoedd i dawelu'r sefyllfa, ac mewn traean o achosion canfuom broblemau â chyfathrebu swyddogion.

Mewn pum achos, canfuom fod swyddogion wedi methu â thrin yr unigolyn fel argyfwng meddygol, neu sicrhau y cafodd sylw meddygol prydlon, pan ddylid fod gwneud hynny. Roedd un o'r rhain yn cynnwys marwolaeth. Canfuom hefyd, mewn pedwar achos, yr ymddengys yr oedd rhagdybiaethau neu amheuon fod yr unigolion yn ffugio bod yn sâl, yr oedd tri ohonynt yn cynnwys marwolaeth.

Anafwyd un ar bymtheg o'r 53 o bobl (30%) yn ddifrifol yn ystod y digwyddiad, a bu farw deuddeg. Golyga hyn fod cyffuriau a/neu alcohol yn nodwedd mewn 75% o'r 16 digwyddiad lle bu farw pobl.

Canfuwyd bod deg o'r unigolion a fu farw o dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol ar adeg y digwyddiad: roedd wyth wedi cymryd cyffuriau ac un wedi yfed alcohol yn unig. Cymerodd un o'r unigolion hyn ei fywyd ei hun. Yn y ddau achos arall,

[146] Roedd hyn yn cynnwys 53 o bobl. Roedd dau achos ar wahân yn cynnwys yr un unigolyn. Roedd dau achos yn cynnwys dau unigolyn.

canfuwyd bod un unigolyn yn meddu ar ganabis, ond roedd yn aneglur a oedd yn feddw ar y pryd. Roedd gan yr unigolyn arall hanes o seicosis yn gysylltiedig â chyffuriau ond nid oedd wedi cymryd unrhyw sylweddau cyn ei farwolaeth. Bu farw'r ddau unigolyn o anafiadau wedi'u hachosi ganddynt eu hunain. Mewn tri o'r marwolaethau hyn, canfu cwest y gallai'r defnydd o Taser fod wedi cyfrannu at y farwolaeth.

Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg iawn i'r rheiny a amlinellir yn ein hadroddiadau ystadegol ar farwolaethau yn ystod neu ar ôl cyswllt â'r heddlu, sydd wedi dangos patrwm cyson o alcohol a/neu gyffuriau yn nodwedd gyffredin mewn marwolaethau yn y ddalfa.

Dengys ystadegau o 2019/20, o'r 18 o bobl a fu farw yn nalfa'r heddlu neu'n dilyn hynny, roedd hi'n hysbys bod gan 14 ohonynt gysylltiad â chyffuriau a/neu alcohol[147]. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi galwadau am fwy o ymchwil i'r risgiau o ddefnyddio Taser ar rywun sydd wedi cymryd cyffuriau a/neu alcohol.

## Pobl yr adroddwyd eu bod yn dreisgar, ymosodol, neu wrthsafol yn ystod digwyddiad

Disgrifiodd neu adroddodd swyddogion fod naw deg o bobl (83%) yn ymosodol, treisgar neu wrthsafol. O ystyried bod adroddiadau o ymosod, trais neu wrthsefyll yn ffactor yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, mae'n fwy dadlennol canolbwyntio ar yr amgylchiadau lle defnyddiwyd Taser pan nad oedd yr unigolyn yn ymosodol na gwrthsafol.

Adroddwyd nad oedd deunaw o bobl yn ymosodol, treisgar neu wrthsafol pan ddefnyddiwyd Taser yn eu herbyn. Saethwyd â Taser at bedwar ar ddeg ohonynt ac anelwyd â dotyn coch at bedwar. Yn yr achosion lle saethwyd â Taser, roedd wyth o bobl yn hunan-niweidio neu'n bygwth hunan-niweidio. Ymddengys fod Taser, wedi'i saethu yn yr achosion hyn, yn rhannol o leiaf, i atal yr unigolion rhag niweidio eu hunain neu achosi rhagor o niwed. Roedd gan chwech o'r unigolion hyn gyllell ac roeddent yn torri eu hunain. Roedd gan un wn i'w ben, ac roedd gan un arall gortyn o amgylch ei wddf.

Mewn pum achos, roedd yr unigolyn yn rhedeg i ffwrdd o'r heddlu, yn ceisio osgoi cael ei ddal neu ei arestio. Dioddefodd pedwar o'r bobl hyn anaf difrifol, yr oedd tri yn ganlyniad uniongyrchol syrthio o ganlyniad i gael eu saethu â Taser. Dioddefodd dau anafiadau i'r pen neu'r wyneb a dioddefodd un anafiadau i'r ben-glin. Saethwyd â

[147] IOPC. Marwolaethau yn ystod neu'n dilyn cyswllt â'r heddlu: Ystadegau Cymru a Lloegr 2019/20. Cyrchwyd o https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/statistics/deaths_during_following_police_contact_201920.pdf

Taser at y pedwerydd unigolyn tra'r oedd yn sefyll ar ddodrefn yn yr ardd ar ôl neidio o ffenestr. Torrodd ei arddwrn.

Defnyddiwyd Taser yn erbyn pedwar unigolyn tra'r oeddent yn cael eu dal. Anelwyd â dotyn coch at ddau: roedd un yn cael ei ddal ar ôl adroddiadau ei fod wedi bygwth aelod o'r cyhoedd â chyllell hollti, ac roedd y llall o dan amheuaeth o feddu ar bastwn. Saethwyd â Taser at un unigolyn mewn siop ac roedd ganddo gyllell. Saethwyd â Taser at unigolyn arall ar ôl methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau i fynd ar ei ben-gliniau, er gwaethaf yr unigolyn yn dweud wrth y swyddog na allai wneud hynny am ei fod wedi cael llawdriniaeth ar ei ben-glin yn ddiweddar.

Nid yw'r canfyddiad yr adroddwyd bod 83% o unigolion yn ymosodol, treisgar neu wrthsafol yn syndod, gan mai dim ond lle mae 'potensial ar gyfer gwrthdaro' y dylid defnyddio Taser. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau uchod yn codi nifer o faterion allweddol.

Mae angen ystyried ymhellach y defnydd o Taser i atal rhywun rhag niweidio eu hunain. Mae achosion o'r fath yn codi cwestiynau am rôl asiantaethau neu wasanaethau cymunedol eraill. Mae swyddogion yn gorfod delio â phobl â phryderon iechyd meddwl yn gynyddol, gan gynnwys y rheiny sy'n niweidio eu hunain, a dengys nifer o'r achosion hyn yr achubodd gweithredoedd swyddogion fywydau. Fodd bynnag, mae angen cymorth ar bobl sy'n delio â phryderon iechyd meddwl i atal problemau rhag cyrraedd y pwynt hwn. Rydym yn cydnabod ei bod yn anochel y bydd swyddogion yn dod ar draws pobl sy'n hunan-niweidio ond, pan fo hyn yn digwydd, dylai gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol neu feddygol eraill gefnogi swyddogion i ddelio â'r digwyddiadau hyn.

Cwestiwn arall, sy'n destun cryn ddadlau, yw pa mor briodol yw saethu â Taser at unigolyn sy'n rhedeg i ffwrdd. O'r pump o bobl y saethwyd â Taser atynt wrth iddynt geisio dianc oddi wrth yr heddlu, ac nid oeddent yn dreisgar nac yn peri risg uniongyrchol, anafwyd pedwar yn ddifrifol. Dioddefodd tri ohonynt anafiadau difrifol o ganlyniad uniongyrchol i syrthio.

## Presenoldeb arfau yn ystod digwyddiad

Roedd un traean o'r unigolion (36) yn meddu ar arf ar adeg y digwyddiad. Roedd y mathau o arf yn cynnwys cyllyll (y mwyaf cyffredin), gynnau, cyllell hollti a chwip. Saethwyd â Taser at ddau draean o'r rheiny a oedd yn meddu ar arf fwy nag unwaith, a saethwyd at draean yn barhaus. Saethwyd â Taser at dri unigolyn yn y modd tanio llonyddu.

Mewn 81% o'r digwyddiadau hyn, rhestrwyd iechyd meddwl neu aflonyddwch ymddygiadol acíwt fel ffactor, ac mewn mwy na hanner, roedd yr unigolyn wedi

hunan-niweidio neu'n bygwth hunan-niweidio. Disgrifiwyd wyth deg un y cant o'r unigolion a oedd yn meddu ar arf yn ymosodol, treisgar neu wrthsafol. Mewn saith digwyddiad, canfuom dystiolaeth o ddefnydd amhriodol neu aneffeithiol o dechnegau cyfathrebu gan swyddogion ac mewn pedwar achos canfuom fod swyddogion wedi methu cyfleoedd i dawelu'r sefyllfa. Fodd bynnag, canfuom hefyd enghreifftiau o arferion da mewn saith achos, yn cynnwys o ran cyfathrebu a delio ag unigolion â phryderon iechyd meddwl.

Roedd gan un ar ddeg o'r unigolion a fu farw arf, ac roedd wyth wedi hunan-niweidio neu fygwth hunan-niweidio. Dioddefodd pedwar ar ddeg o'r unigolion a oedd yn meddu ar arf anaf difrifol ac, unwaith eto, roedd wyth ohonynt wedi hunan-niweidio, ceisio hunan-niweidio neu fygwth hunan-niweidio.

## Presenoldeb torf

Mewn 22 achos, roedd torf yn bresennol yn ystod y digwyddiad. Digwyddodd un ar bymtheg o'r rhain ar y stryd, digwyddodd tri mewn eiddo busnes, digwyddodd un mewn gorsaf drenau a dau mewn annedd neu yn yr ardal gyfagos. Roedd cyffuriau a/neu alcohol yn ffactor mewn 17 (77%) o'r rhain.

Gall presenoldeb torf gynyddu canfyddiadau swyddogion o fygythiad ac effeithio ar y ffordd y maent yn dewis delio â'r digwyddiad. Er enghraifft, mewn un achos, mynychodd swyddogion siop prydau parod i arestio grŵp o dan amheuaeth o ymosod. Pan gyrhaeddodd swyddogion, roedd grŵp mawr o bobl yn bresennol. Yn sydyn iawn, dechreuodd yr unigolyn ac unigolyn arall ymosod ar y ddau swyddog. Roedd y dorf yn gweiddi ar y swyddogion ac yn ffilmio wrth i'r swyddogion ymladd â'r ddau unigolyn. Ar ôl saethiad Taser parhaus, roedd yr unigolyn yn anymwybodol. Gwaeddodd y dorf fod y swyddog wedi'i ladd. Parhaodd yr unigolyn arall i ymosod ar yr ail swyddog, cyn rhedeg o gwmpas a neidio ar gerbydau.

Yn ei ddatganiad, dywedodd y swyddog Taser ei fod wedi tynnu ei Taser o'i gas oherwydd ei fod yn cael ei ymosod arno, yn bryderus y gallai aelodau eraill o'r grŵp ymuno â'r ymosodiad ac yn ofni am ei ddiogelwch. Dywedodd y swyddog ei fod eisiau dod â'r straffaglu o dan reolaeth yn gyflym. Darparodd arbenigwr dystiolaeth i'n hymchwiliad a dywedodd fod y defnydd o Taser yn "realistig a derbyniol o ystyried natur y bygythiad a berwyd" gan y ddau unigolyn a'r grŵp mwy.

Mewn achos arall, roedd unigolyn ar ymweliad o dan oruchwyliaeth o gyfleuster iechyd meddwl wedi rhedeg i ffwrdd o'r grŵp. Roedd swyddogion yn cael trafferth i ddal yr unigolyn pan ymddangosodd y grŵp. Aeth aelod o staff at y swyddogion ond cafodd ei wthio i ffwrdd. Daliodd ati i geisio siarad â'r unigolyn, ond gwthiodd y swyddog ef i ffwrdd yn barhaus, gan weiddi arno i fynd yn ôl. Nesaodd claf arall a dechrau sgrechian.

Ataliwyd y claf gan swyddog arall, a dynnodd ei efynnau allan. Aeth aelod o staff at y claf arall a chafodd ei wthio i ffwrdd eto. Dywedodd swyddogion yn ddiweddarach eu bod yn credu bod yr aelod o staff yn ceisio “ymyrryd” i’w nadu rhag dal yr unigolyn. Dywedodd yr aelod o staff ei fod yn ceisio helpu, gan egluro mai ei glaf oedd yr unigolyn ac y gallai ei dawelu.

Canfu ein hymchwiliad nad oedd y swyddog a wthiodd yr aelod o staff i ffwrdd wedi ceisio canfod pwy ydoedd na beth oedd yn ceisio ei wneud cyn ei wthio i ffwrdd a bod y swyddog wedi dangos diffyg parch a chwrteisi at yr aelod o staff, a allai danseilio hyder y cyhoedd. Dywedodd y swyddog a geisiodd roi’r claf arall mewn gefynnau ei fod eisiau gwneud hynny oherwydd ei fod yn credu bod y claf yn mynd i darfu ar yr heddwch. Canfuom fod y swyddog yma wedi methu â defnyddio tactegau cyfathrebu gyda’r claf na’r aelod o staff ac na gyflawnodd ei ddyletswydd o ofal tuag at y claf.

Mae’r canfyddiadau a amlinellir yn y bennod hon yn debyg i ganfyddiadau o adroddiadau blaenorol, sef bod iechyd meddwl, cyffuriau a/neu alcohol a phresenoldeb arfau yn nodweddion cyffredin mewn achosion Taser.

Disgrifir y rhan fwyaf o unigolion yn ymosodol, treisgar neu wrthsafol. Mae hyn yn cefnogi ein canfyddiadau blaenorol y defnyddir Taser yn aml yn dilyn adroddiadau o ymddygiad treisgar. Mae hefyd yn cefnogi canfyddiad diweddar y CoP mai’r ffactor sydd â’r cysylltiad cryfaf â saethiad Taser, yw’r swyddog yn adrodd ei fod yn wynebu gwrthwynebiad treisgar neu weithredol.

Mae ein canfyddiad bod torf yn bresennol mewn oddeutu pumed o’n hymchwiliadau Taser hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiad y CoP y gall presenoldeb torf gynyddu’r tebygolrwydd o Taser yn cael ei ddefnyddio.

## 6.5 Gweithredoedd, canfyddiadau ac ymddygiad swyddogion

### Cyfleoedd a gollwyd i dawelu

Mewn ychydig o dan draean (32%) o’r achosion a ddadansoddwyd gennym, nodasom gyfleoedd a gollwyd i swyddogion dawelu sefyllfaoedd. Golyga hyn, yn ystod digwyddiad, fod cyfleoedd i swyddogion ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a negodi i ddatrys sefyllfa yn hytrach na defnyddio grym.

Roedd tri ar hugain (72%) o unigolion ynghlwm ag achosion lle nodwyd cyfleoedd a gollwyd i dawelu gennym yn Wyn. Roedd dau o’r rhain yn ddinasyddion tramor: roedd un yn ddinesydd o Wlad Pwyl ac un arall yn ddinesydd o Sbaen. Roedd wyth

(25%) yn Ddu ac un (3%) yn Asiaidd. Yr oedran mwyaf cyffredin oedd rhwng 19 a 30 oed, gyda'r hynaf yn 59 oed. Roedd oedran tri unigolyn yn anhysbys.

Roedd dau unigolyn o dan 18 oed. Roedd yr ieuengaf yn 14 oed ac roedd ganddo anabledd dysgu. Tra'r oedd swyddogion yn ceisio cyfathrebu â'r unigolyn hwn, dywedodd un o'r swyddogion wrtho, os nad oedd yn siarad, y byddai'n dod yn nes at y Taser nag y byddai wedi'i ddymuno.

Mewn cyfweliad, dywedodd y swyddog fod hyn er mwyn "dechrau sgwrs" ac nad oedd wedi'i ddweud mewn ffordd fygythiol. Yn ystod y digwyddiad, dywedodd y swyddog, "Os wyt i'n mynd i fod yn ddigywilydd...a dechrau rhwbio dy ddwylo fel pe baet eisiau fy nghwffio, yna bydd gennym gwffas ac ni fydd yn gorffen gyda thi'n ennill." Yna aeth y swyddog ymlaen i arestio'r unigolyn, pan ddechreuasant straffaglu.

Canfu ein hymchwiliad fod y swyddog wedi defnyddio iaith y gellid ei hystyried yn fygythiol ac ymfflamychol, yn hytrach nag ystyried anableddau dysgu'r unigolyn a dangos mwy o oddefgarwch wrth geisio ei ymgysylltu.

Ym mron pob achos (94%) lle nodasom gyfleoedd a gollwyd i dawelu, ystyriwyd bod yr unigolyn yn dreisgar, ymosodol neu wrthsafol gan swyddogion. Mewn dros draean o achosion (34%) yn cynnwys cyfleoedd a gollwyd i dawelu, defnyddiwyd Taser ym mhresenoldeb torf. Dim ond pedwar unigolyn (13%) oedd yn meddu ar arf ar adeg y digwyddiad. Cafodd deg o bobl (31%) eu honni neu eu hamau o feddu ar arf gan swyddogion, ond ni chanfuwyd yr un ar yr unigolion.

Fel y nodwyd uchod, gall y dystiolaeth hon ddarparu mewnwelediad i ragdybiaethau a chredoau swyddogion yn ystod digwyddiad, yn benodol canfyddiad uwch o fygythiad ymhlith rhai swyddogion. Gall rhagdybiaethau o'r fath effeithio ar ymddygiad swyddogion, a allai gynyddu'r risg o golli cyfleoedd i dawelu'r sefyllfa.

Adnabuwyd bod gan ychydig o dan hanner yr unigolion (47%) bryderon iechyd meddwl. Roedd gan yr un ganran o unigolion gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau. Mae'r gyfran uchel o achosion yn cynnwys iechyd meddwl, anableddau dysgu, alcohol a/neu gyffuriau fel ffactorau yn amlygu pwysigrwydd swyddogion yn gallu adnabod yr arwyddion y gallai rhywun fod yn fregus a chymryd camau i dawelu'r sefyllfa, yn cynnwys addasu eu technegau cyfathrebu, ac osgoi'r angen i ddefnyddio grym.

Mewn ychydig dros hanner yr achosion hyn (53%), gwnaeth swyddogion sylwadau amhriodol neu gyfathrebu'n amhriodol yn ystod y digwyddiad, yn ôl y sôn. Roedd tystiolaeth mewn rhai achosion fod defnydd y swyddogion o iaith wedi gwaethygu'r digwyddiad.

Mewn un achos, roedd swyddog yn mynychu digwyddiad arall pan welodd unigolyn a stopio i'w ymgysylltu. Yn fuan ar ôl gadael y cerbyd, tynnodd swyddog ei Taser o'i gas. Yn ystod y cysylltiad hwn, dywedodd yr unigolyn wrth y swyddog i adael llonydd iddo fwy nag unwaith, tra bygythiodd y swyddog yr unigolyn â'i Taser a dweud wrtho ei fod wedi'i arestio. Arweiniodd y sgwrs hon at yr unigolyn yn dweud wrth y swyddog i roi ei Taser o'r neilltu cyn dweud "Mi fyddi di ar dy din".

Ymatebodd y swyddog drwy saethu ei Taser at wyneb yr unigolyn gan ddweud, "Cymera honna". Gwnaeth aelod o'r cyhoedd sylw fod y Taser wedi taro'r unigolyn yn ei wyneb, ymateb y swyddog i hynny oedd, "Da iawn".

Canfu ein hymchwiliad y gallai'r swyddog fod yn gyfrifol am bryfocio a gwaethygu'r digwyddiad. Canfuom fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol mewn perthynas â'i ddefnydd o iaith ac ymddygiad, methu ag ymddwyn gyda hunanreolaeth a goddefgarwch, methu ag ystyried opsiynau eraill heblaw Taser a methu â defnyddio Taser yn rhesymol a chymesur. Cyfeiriasom y mater i Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd.

Canfu arolwg[148] gan y CoP yn 2020 ei bod yn fwy cyffredin i swyddogion ddefnyddio sgiliau anghorfforol (megis cyfathrebu) yn hytrach na sgiliau corfforol (megis ataliaeth), gyda 'chyfathrebu ar lafar dieiriau' ymhlith y sgiliau anghorfforol i gael eu defnyddio amlaf gan swyddogion. Fodd bynnag, canfu'r arolwg fod chwarter (26%) y swyddogion yn teimlo na threulir digon o amser yn eu hyfforddi ar gyfathrebu allweddol, a dim ond hanner (52%) oedd yn credu bod eu hyfforddiant wedi'u haddysgu i ymdrin â gwrthdaro.

Mae'r cyfleoedd a gollwyd i dawelu a nodasom mewn oddeutu traean o'n hachosion yn cefnogi'r canfyddiadau hyn. Mae hefyd yn cwestiynu'r graddau y mae swyddogion yn deall y dylid defnyddio Taser (a ffurfiau eraill ar rym) dim ond pan mae hi'n angenrheidiol gwneud hynny a phan, os yw'n briodol, fydd cyfleoedd i dawelu digwyddiad a dod ag ef i ben heb orfod troi at rym, wedi'u harchwilio.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynir uchod, mae'n hollbwysig bod heddluoedd yn sicrhau y rhoddir mwy o ffocws mewn hyfforddiant a chanllawiau ar sgiliau cyfathrebu a thawelu. Yn benodol, rhaid iddynt roi'r wybodaeth a sgiliau i swyddogion sy'n ofynnol i reoli a thawelu digwyddiadau yn cynnwys pobl fregus, megis y rheiny o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, â phryderon iechyd meddwl neu anableddau dysgu, neu sy'n arddangos symptomau aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Rydym yn croesawu cyflwyniad canllawiau rheoli gwrthdaro newydd y CoP a'r

[148] Y Coleg Plismona. Arolwg Cenedlaethol o Ddiogelwch yr Heddlu. Cyrchwyd o https://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/National_police_safety_survey.pdf

hyfforddiant arfaethedig i'w cefnogi , ac yn obeithiol y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd swyddogion o sgiliau tawelu.

## Cyfathrebu neu sylwadau amhriodol gan swyddogion

Mewn 33 achos, yn cynnwys 34 unigolyn, gwnaeth swyddogion sylwadau amhriodol neu gyfathrebu'n amhriodol yn ystod y digwyddiad, yn ôl y sôn. Roedd hyn yn cynnwys swyddogion yn rhegi ar, ac yn gwneud sylwadau difenwol tuag at yr unigolion, a gwneud sylwadau amhroffesiynol tuag atynt a'u teuluoedd. Mae gan sylwadau o'r fath y potensial i effeithio'n negyddol ar ganfyddiad y cyhoedd o swyddogion a'r gwasanaeth heddlu.

Mewn 15 o'r 33 achos, gwnaethpwyd cwyn gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd. Roedd tri o'r cwynion hyn yn dyfynnu'n benodol sylwadau a wnaethpwyd gan swyddogion tuag at yr unigolyn. Roedd dau ar bymtheg o'r rhain yn ymchwiliadau i ymddygiad, er roedd y materion ymddygiad a archwiliwyd fel rhan o'r ymchwiliadau hyn yn ymestyn y tu hwnt i gyfathrebu neu sylwadau amhriodol honedig gan swyddogion. Ymchwiliwyd i un achos fel mater marwolaeth neu anaf difrifol.

O'r 34 o bobl ynghlwm â'r achosion hyn, roedd 24 (71%) yn Wyn, wyth (24%) yn Ddu, un (3%) yn Asiaidd ac un (3%) yn Wyn Affro-Caribïaidd. Roedd tri o dan 18 oed. Roedd yr ieuengaf yn 14 oed ac roedd ganddo anabledd dysgu.

Roedd gan hanner yr unigolion (17) ynghlwm â'r achosion hyn gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau, ac adnabuwyd bod gan 14 (41%) bryderon iechyd meddwl.

O'r unigolion hynny â chysylltiadau ag alcohol a/neu gyffuriau neu bryderon iechyd meddwl, roedd chwech wedi'u hamau o ddioddef, neu'n dangos arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt.

Rydym yn cydnabod bod swyddogion, mewn rhai achosion, wedi gwneud sylwadau amhriodol wrth ddelio â digwyddiad gofidus, neu'n syth wedyn. Mae'n hanfodol bod swyddogion heddlu a staff yn deall sut y gallai eu hagwedd a thuedd effeithio ar eu hymddygiad a sut y gallai eu hiaith a chyfathrebu effeithio ar aelodau'r cyhoedd.

O dan God Moeseg yr heddlu, mae gan swyddogion ddyletswydd i adrodd, herio neu weithredu yn erbyn ymddygiad cydweithwyr sydd yn is na'r safon o ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir. Mewn rhai achosion, gwelsom dystiolaeth o swyddogion yn herio neu godi pryderon am sylwadau neu gyfathrebu amhriodol gan gydweithwyr, ond mewn nifer o achosion ni ddigwyddodd hyn.

## 6.6 Anghyfartaledd a gwahaniaethu

### Defnydd o Taser yn ôl ethnigrwydd[149]

Dengys ein hadolygiad o achosion fod pobl Ddu wedi'u cynnwys yn anghyfartal yn ein hymchwiliadau annibynnol yn cynnwys y defnydd o Taser. Roedd saith deg un y cant o'r unigolion yn Wyn, 22% yn Ddu, llai na phedwar y cant (4%) yn Asiaidd a llai na dau y cant (2%) o ethnigrwydd cymysg.

Mae'r ystadegau hyn yn cyd-fynd yn fras â data ethnigrwydd y Swyddfa Gartref ar y defnydd o Taser: Roedd pobl Ddu wedi'u cynrychioli fymryn yn fwy anghyfartal yn ein hachosion Taser nag yn y cyfanswm digwyddiadau Taser a gofnodwyd gan luoedd (22% o'i gymharu â 20-21%), tra'r oedd pobl Asiaidd wedi'u tangynrychioli yn ein hachosion.

### Nifer y saethiadau

Roedd pobl Ddu, fel cyfran, yn llai tebygol o gael Taser wedi'i saethu atynt o'i gymharu â phobl Wyn. Roeddent yn fwy tebygol o gael Taser wedi'i anelu atynt â dotyn coch, heb ei danio. Mae hyn yn groes i ddata'r Swyddfa Gartref sy'n dangos er bod pobl Ddu yn fwy tebygol o fod ynghlwm â'r defnydd o Taser yn gyffredinol, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y tebygolrwydd o bobl Ddu a phobl Wyn yn cael eu saethu atynt â Taser.

Dim ond unwaith y saethwyd â Taser at bron i hanner yr unigolion Gwyn, lle saethwyd â Taser unwaith at chwarter y bobl Ddu. Yn fras, saethwyd dwy neu deirgwaith at yr un gyfran o bobl Ddu a phobl Wyn. Roedd pobl Ddu, fel cyfran, yn fwy tebygol o gael eu saethu atynt fwy na phum gwaith. Fodd bynnag, fel y dangosir yn nhabl 8, mae nifer yr achosion yn fach.

### Hyd y saethiadau

O'r 19 o bobl Ddu ynghlwm â saethiadau Taser, saethwyd at naw yn barhaus. Roedd iechyd meddwl yn ffactor mewn wyth o'r naw achos hyn. Saethwyd â Taser yn barhaus am fwy nag 20 eiliad at dri o'r unigolion hyn. Parodd y saethiad parhaus hiraf 67 eiliad. Saethwyd at chwech o'r unigolion Du yn barhaus am fwy na'r cylch pum eiliad awtomatig. Mewn pedwar achos, nid oedd hyd y saethiadau yn hysbys.

---

149 Ni chyfeiriwyd bob amser at ethnigrwydd yr unigolyn yn adroddiad terfynol yr ymchwilydd. O ganlyniad, pennwyd ethnigrwydd yr unigolyn yn aml drwy gofnodion y ddalfa, cofnodion meddygol, ffurflenni defnydd yr heddlu o rym neu Taser a dogfennaeth arall. Gall dibynadwyedd cofnodi ethnigrwydd amrywio rhwng y dogfennau hyn.

O'i gymharu, o'r 72 o bobl Wyn ynghlwm, saethwyd at 18 yn barhaus. Roedd chwech o'r rhain yn cynnwys saethiadau parhaus o 20 eiliad neu fwy. Parodd y saethiad parhaus hiraf 48 eiliad. Saethwyd at bedwar deg pedwar o bobl am bum eiliad neu lai. Fodd bynnag, saethwyd â Taser at nifer o'r unigolion fwy nag unwaith, felly roedd cyfanswm yr amser y saethwyd â Taser atynt yn fwy na phum eiliad. Nid oedd hyd y saethiadau Taser yn hysbys ar gyfer deg unigolyn.

Heb ystyried y digwyddiadau lle'r oedd hyd y saethiadau yn anhysbys, dioddefodd naw ar hugain y cant (29%) o bobl Wyn ynghlwm â saethiadau Taser, saethiadau parhaus o fwy na phum eiliad, lle dioddefodd 60% o bobl Ddu ynghlwm â saethiadau Taser, saethiadau parhaus o fwy na phum eiliad. O ganlyniad, roedd pobl Ddu yn llai tebygol o fod ynghlwm â saethiadau Taser, ond pan oeddent, roeddent yn fwy tebygol o gael eu saethu am gyfnodau parhaus.

O'r ddau unigolyn Asiaidd ynghlwm â saethiadau, saethwyd at un am bum eiliad, a saethwyd at y llall deirgwaith am gyfnod anhysbys. Saethwyd at yr unigolyn o ethnigrwydd cymysg ynghlwm â saethiad Taser, am bum eiliad.

**Tabl 8: Saethiadau Taser yn erbyn unigolion yn ôl ethnigrwydd**

| | Ethnigrwydd | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyn | | Du | | Asiaidd | | Cymysg | | Arall | | Cyfanswm | |
| Nifer y saethiadau | Rhif | % | Rhif | % | Rhif | % | Rhif | % | Rhif | % | Rhif | % |
| 0 | 5 | 6% | 5 | 21% | 2 | 50% | 1 | 50% | 1 | 100 | **14** | **13%** |
| 1 | 36 | 47% | 6 | 25% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **42** | **39%** |
| 2 | 16 | 21% | 3 | 13% | 1 | 25% | 0 | 0 | 0 | 0 | **20** | **19%** |
| 3 | 9 | 12% | 4 | 17% | 1 | 25% | 0 | 0 | 0 | 0 | **14** | **13%** |
| 4 | 5 | 6% | 1 | 4% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **6** | **6%** |
| 5 | 2 | 3% | 1 | 4% | 0 | 0 | 1 | 50% | 0 | 0 | **4** | **4%** |
| 6 | 3 | 4% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **3** | **3%** |
| 8 | 0 | 0 | 2 | 8% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2** | **2%** |
| 9 | 1 | 1% | 1 | 4% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2** | **2%** |
| 12 | 0 | 0 | 1 | 4% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1** | **1%** |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **77** | **100%** | **24** | **100%** | **4** | **100%** | **2** | **100%** | **1** | **100%** | **108** | **100%** |

## Hyd y saethiadau

O’r 19 o bobl Ddu ynghlwm â saethiadau Taser, saethwyd at naw yn barhaus. Roedd iechyd meddwl yn ffactor mewn wyth o’r naw achos hyn. Saethwyd â Taser yn barhaus am fwy nag 20 eiliad at dri o’r unigolion hyn. Parodd y saethiad parhaus hiraf 67 eiliad. Saethwyd at chwech o’r unigolion Du yn barhaus am fwy na’r cylch pum eiliad awtomatig. Mewn pedwar achos, nid oedd hyd y saethiadau yn hysbys.

O’i gymharu, o’r 72 o bobl Wyn ynghlwm, saethwyd at 18 yn barhaus. Roedd chwech o’r rhain yn cynnwys saethiadau parhaus o 20 eiliad neu fwy. Parodd y saethiad parhaus hiraf 48 eiliad. Saethwyd at bedwar deg pedwar o bobl am bum eiliad neu lai. Fodd bynnag, saethwyd â Taser at nifer o’r unigolion fwy nag unwaith, felly roedd cyfanswm yr amser y saethwyd â Taser atynt yn fwy na phum eiliad. Nid oedd hyd y saethiadau Taser yn hysbys ar gyfer deg unigolyn.

Heb ystyried y digwyddiadau lle’r oedd hyd y saethiadau yn anhysbys, dioddefodd naw ar hugain y cant (29%) o bobl Wyn ynghlwm â saethiadau Taser, saethiadau parhaus o fwy na phum eiliad, lle dioddefodd 60% o bobl Ddu ynghlwm â saethiadau Taser, saethiadau parhaus o fwy na phum eiliad. O ganlyniad, roedd pobl Ddu yn llai tebygol o fod ynghlwm â saethiadau Taser, ond pan oeddent, roeddent yn fwy tebygol o gael eu saethu am gyfnodau parhaus.

O’r ddau unigolyn Asiaidd ynghlwm â saethiadau, saethwyd at un am bum eiliad, a saethwyd at y llall deirgwaith am gyfnod anhysbys. Saethwyd at yr unigolyn o ethnigrwydd cymysg ynghlwm â saethiad Taser, am bum eiliad.

## Honiadau o wahaniaethu

Roedd wyth o’r 101 o achosion a adolygasom yn cynnwys honiadau gan yr achwynydd ei fod wedi cael ei wahaniaethu. Roedd pump yn credu eu bod wedi cael eu gwahaniaethu ar sail hil, yn cynnwys un a honnodd wahaniaethu ar sail hil a chrefydd. Roedd y tri arall yn cynnwys honiadau eu bod wedi cael eu gwahaniaethu ar sail anabledd neu bryderon iechyd meddwl. Roedd pob un o’r unigolion hyn yn wrywaidd.

Er bod nifer yr honiadau penodol o wahaniaethu yn gymharol isel, mae enghreifftiau eraill o stereoteipiau, rhagdybiaethau a methiannau i ystyried nodweddion gwarchodedig mewn achosion lle ni wnaethpwyd honiad o wahaniaeth. O ran hil, roedd sylwadau a rhagdybiaethau stereoteipiol yn amlwg mewn sawl achos arall yn cynnwys unigolion Du.

## Hil

O’r rheiny a honnodd eu bod wedi cael eu gwahaniaethu ar sail hil, roedd pedwar yn Ddu ac un yn Asiaidd. Credai’r unigolyn Asiaidd ei fod wedi cael ei wahaniaethu oherwydd ei fod yn Asiaidd ac yn Fwslimaidd. Roedd dau o’r unigolion hyn yn 14 oed, ac roedd un dros 60 oed.

Roedd gan un o’r unigolion 14 oed anabledd dysgu, ac roedd y swyddogion yn mynychu yn ymwybodol o hyn. Er hynny, dywedodd un swyddog fod gan yr unigolyn “agwedd o’r cychwyn un”, ei fod yn “edrych fel pe bai eisiau cwffio”, a bod ganddo “gryfder anghredadwy”. Dywedodd y ddau swyddog eu bod yn amau bod yr unigolyn o dan ddylanwad cyffuriau oherwydd ei “lefel o ymosodedd”.

Fodd bynnag, ni chwiliodd yr un swyddog yr unigolyn am gyffuriau. Dywedodd yr unigolyn fod y swyddogion a’i cludodd i’r ddalfa wedi’i gam-drin yn hiliol. Gwadodd y swyddogion hyn. Cwynodd tad yr unigolyn fod ei fab wedi cael ei ymosod arno a’i gam-drin yn hiliol.

Canfu ein hymchwiliad nad oedd tystiolaeth i gefnogi’r honiadau bod yr unigolyn wedi bod yn ymosodol a’i fod, yn hytrach, wedi bod yn ‘oddefol wrthsafol’. Nid oedd yn bosibl sefydlu’r rhesymau dros benderfyniadau’r swyddogion i arestio’r unigolyn. Canfuom y gallai’r dystiolaeth, gyda’i gilydd, fod yn gyfystyr â “gwahaniaethu drwy ragfarn ddiarwybod, anwybodaeth, difaterwch neu stereoteipio hiliol”.

O ran yr honiad bod y swyddogion wedi cam-drin yr unigolyn yn hiliol, ni chanfuom dystiolaeth annibynnol i gadarnhau’r naill adroddiadau anghyson a dywedasom fod hyn yn fater i banel gamymddygiad ei benderfynu.

Saethwyd â Taser at yr unigolyn 14 oed arall tra’r oedd yn rhedeg oddi wrth yr heddlu. Roedd swyddogion wedi mynychu adroddiadau “o fechgyn yn rhedeg o gwmpas ac yn ymladd”. Dywedodd y swyddog ei fod wedi saethu ei Taser oherwydd ni wnaeth yr unigolyn gydymffurfio â’i gyfarwyddiadau i roi’r gorau iddi, ei fod yn credu bod yr unigolyn yn erlid eraill ac y gallai beri niwed iddynt, ac oherwydd ei fod yn credu ei fod wedi gweld cyllell yn llaw’r unigolyn.

Dioddefodd yr unigolyn anaf i’w ben yn sgil syrthio ar ôl cael ei saethu â Taser. Cafodd ei chwilio, ond ni ddaethpwyd o hyd i gyllell. Cafodd ei roi mewn gefynnau am oddeutu 16 munud, hyd yn oed ar ôl i’r chwiliad orffen. Dywedodd y swyddog fod hyn oherwydd nad oedd wedi gallu chwilio’r unigolyn yn drylwyr oherwydd ei anafiadau ac felly roedd yn poeni y gallai cyllell fod arno o hyd.

Dywedodd yr unigolyn ei fod wedi cael ei wahaniaethu ar sail hil a bod y swyddog wedi tybio ei fod mewn gang am ei fod yn Ddu. Mewn cyfweliad, dywedodd y

swyddog fod yr ardal yn hysbys am drais gangiau a bod plant ynghlwm yn aml. Gwadodd ei fod wedi'i gymell gan wahaniaethu. Mae'r achos hwn yn mynd rhagddo.

Cwynodd un unigolyn y defnyddiwyd yr arfer proffilio hiliol arno ar ôl iddo gael ei stopio gan swyddogion o dîm yn canolbwyntio ar ddelio â chyffuriau yn lleol. Tynnodd swyddog Taser o'i gas wrth iddo nesáu at yr unigolyn. Dywedodd y swyddog ei fod yn meddwl bod yr unigolyn yn celu rhywbeth yn ei fand gwasg a'i fod yn ofni y byddai'n ymateb yn ymosodol.

Dywedodd y swyddog fod yr unigolyn wedi mabwysiadu "ystum barod i ymladd" pan nesaodd, a'u bod mewn ardal lle'r oedd eiddo yn delio cyffuriau gerllaw. Dywedodd y swyddog ei fod yn ymwybodol bod "bechgyn ifanc Du o Lundain" ynghlwm â chyflenwi cyffuriau yn dod i'r ardal, bod gwybodaeth yn dangos bod aelodau gangiau yn cario arfau yn rheolaidd, a bod yr unigolyn yn edrych yn "llechwraidd a nerfus". Chwiliodd y swyddogion yr unigolyn. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw arfau.

Canfu ein hymchwiliad efallai nad oedd seiliau rhesymol dros amau bod yr unigolyn yn cario arf na'i stopio a'i chwilio. Awgrymasant y gellid fod wedi ymgysylltu ar lafar cyn tynnu Taser o'i gas, ac nid oeddem yn ystyried ei fod wedi bod yn ymosodol mewn ffordd weladwy. Canfuom fod gan y swyddog achos i'w ateb am ei ddefnydd o rym ond ni ddaethom o hyd i dystiolaeth ddigonol fod y swyddog wedi stopio'r unigolyn yn seiliedig ar ei ethnigrwydd yn unig.

Mewn achos arall, honnodd unigolyn ei fod wedi cael ei gam-drin yn hiliol ar ôl i swyddogion ddod ato mewn achos o gam-adnabod. Credai'r unigolyn ei fod wedi cael ei gam-gymryd am y dyn arall am fod y ddau yn Ddu. Dywedodd yr unigolyn wrth swyddogion ei fod yn cael ei erlid ac awgrymodd fod yr heddlu yn targedu pobl Ddu. Dywedodd dro ar ôl tro nad ef oedd y dyn yr oeddent yn chwilio amdano. Dywedodd y swyddogion fod yr unigolyn yn "ymosodol, digywilydd a bygythiol yn syth".

Gwnaeth yr unigolyn ddatganiadau bygythiol ac roedd yn ymddangos yn ddig. Cafodd ei saethu â Taser a'i arestio am drosedd trefn gyhoeddus ac ymosod ar yr heddlu. Mewn datganiad, cyfeiriodd y swyddog a saethodd ei Taser at gryfder yr unigolyn a dywedodd ei fod wedi saethu ei Taser i'w "berswadio i gydymffurfio". Dywedodd yr unigolyn fod rhaid i swyddogion ddeall os ydynt yn stopio rhywun oherwydd ei hil, bod hyn yn peri "aflonyddwch, braw a gofid a gallai olygu'r defnydd o iaith gref er mwyn gwrthwynebu'n gyfreithlon...eu hymddygiad".

Cwynodd tyst fod gweithredoedd y swyddogion wedi'u cymell gan hil hefyd. Dywedodd pob un o'r pedwar tyst i'r digwyddiad eu bod yn credu na fyddai'r unigolyn wedi cael ei saethu â Taser pe bai'n Wyn. Dywedodd y swyddog Taser fod

cyhuddiadau'r unigolyn o hiliaeth wedi gwneud iddo gredu ei fod yn fygythiad. Gwadodd ei fod wedi'i gymell gan wahaniaethu ar sail hil.

Canfu ein hymchwiliad y gallai'r defnydd o Taser wedi bod yn ormodol, ond bod tystiolaeth annigonol fod swyddogion wedi trin yr unigolyn yn wahanol oherwydd ei hil.

Roedd yr unigolyn Asiaidd yn yrrwr tacsi a gafodd ei saethu ato â Taser deirgwaith, ei gicio a thrawo yn ystod gweithrediad wedi'i gynllunio ymlaen llaw i ddal y teithiwr yn y cerbyd. Credai'r unigolyn y saethwyd ato â Taser fel hyn am ei fod yn Asiaidd ac yn Fwslimaidd.

Dywedodd y swyddog ei fod wedi saethu ei Taser i dynnu sylw'r unigolyn, yr oedd yn credu y gallai fod yn meddu ar arf, ac i osgoi defnyddio arfau tanio. Dywedodd y swyddog fod yr unigolyn wedi gwrthwynebu ac estyn am rywbeth yn ei fand gwasg, i bob golwg. Disgrifiodd swyddogion yr unigolyn fel “dyn cydnerth” a dywedodd un ei fod wedi'i “synnu gan gryfder [ei] wrthwynebiad”. Dywedodd swyddogion nad oeddent wedi gweld yr arwydd tacsi a gwadasant fod ethnigrwydd yr unigolyn wedi effeithio ar eu gweithredoedd. Ni chanfuom dystiolaeth annibynnol i gynorthwyo wrth bennu a fu gwahaniaethu ac ni wnaethom gadarnhau'r gŵyn.

Ymchwiliasom hefyd a oedd gweithredoedd a phenderfyniadau'r swyddogion wedi'u cymell neu eu dylanwadu gan wahaniaethu ar seiliau hil mewn chweched achos, er gwaethaf dim honiad o wahaniaethu gan yr achwynydd.

Cafodd dyn Du ei stopio am drosedd traffig. Defnyddiwyd grym o fewn dim, a saethwyd â Taser at y dyn deirgwaith. Disgrifiodd swyddogion y dyn yn ymosodol yn gyson a dywedasant ei fod wedi “rhuthro” atynt dro ar ôl tro. Dywedodd un swyddog nad oedd y saith swyddog yn bresennol yn gallu llethu'r dyn a'i fod wedi arddangos “swm aruthrol o gryfder yn rhan uchaf ei gorff”.

Clywyd tyst ar fideo camera ar y corff yn nodi bod yr heddlu yn ymddwyn mewn modd gwahaniaethol yn hiliol. Gwadodd y ddau swyddog eu bod wedi'u dylanwadu gan duedd hiliol. Awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein hymchwiliad nad oedd y dyn yn ymddwyn mewn ffordd fygythiol.

Daethom i'r casgliad bod tystiolaeth annigonol o wahaniaethu uniongyrchol, ond y gallai tuedd anymwybodol fod wedi dylanwadu ar ganfyddiad y swyddogion o fygythiad. Canfuom fod y defnydd o sgiliau cyfathrebu yn brin, bod swyddogion wedi methu ag archwilio opsiynau tactegol eraill cyn penderfynu arestio'r dyn, y gallai'r arestiad fod wedi bod yn ddiangen ac islaw safonau disgwyliedig, ac y gallai'r defnydd o rym fod wedi bod yn ormodol. Argymellasom fod dau swyddog ynghlwm

â’r digwyddiad yn cwblhau hyfforddiant gloywi mewn tuedd anymwybodol. Canfuom hefyd fod gan y ddau swyddog yma achos i’w ateb am eu defnydd o rym.

O’r pum unigolyn Du a’r un unigolyn Asiaidd y cyfeiriwyd atynt uchod, disgrifiodd swyddogion fod pedwar ohonynt yn ‘dreisgar’ neu ‘ymosodol’. Mewn tri o’r achosion hyn, ni wnaethom gytuno â’r disgrifiadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth. Mewn pedwar achos, cyfeiriodd swyddogion at faint, cryfder neu gorffolaeth yr unigolyn. Gwnaeth swyddogion dybio neu amau bod gan yr unigolyn gyffuriau neu arfau mewn pedwar achos, lle nad oedd tystiolaeth i gefnogi’r rhagdybiaethau hyn ac, mewn dau o’r rhain, er gwaethaf datganiadau bod swyddogion yn credu bod gan yr unigolyn gyffuriau neu arfau, ni chafodd yr un ohonynt eu chwilio. Mewn dau achos, gwnaeth swyddogion sylwadau amhriodol neu ymfflamychol.

Roedd cyfeiriadau at gryfder, maint neu gorffolaeth yr unigolyn mewn pum achos arall. Disgrifiwyd un unigolyn yn “gyhyrog iawn” ac yn “hynod gryf”. Dywedodd swyddog arall nad oedd “yr un dechneg peri poen er cydymffurfiaeth yn mynd i atal y dyn hwn”. Disgrifiodd tystion annibynnol yr unigolyn fel “stwcyn canolig”. Mewn digwyddiad arall, disgrifiwyd yr unigolyn yn “ddyn Du mawr a chyhyrog”, a oedd yn elyniaethus ac yn ‘gwneud ei hun edrych yn fwy a mwy bygythiol’. Disgrifiwyd un arall yn “athletaidd”, “anferth”, “eithaf cyhyrog” ac yn “gwneud ei gorff yn fawr iawn”. Disgrifiwyd un unigolyn a chanddo “gryfder goruwchnaturiol”.

Disgrifiwyd pedwar o’r unigolion hyn yn ymosodol, peryglus neu wrthwynebol hefyd. Ni chadarnhaodd tystion annibynnol mewn dau o’r achosion hyn, ddisgrifiadau’r swyddogion. Roedd un unigolyn yn syllu gyda’i lygaid mewn modd ymosodol, yn ôl swyddog.

Dywedwyd bod unigolyn arall yn ‘ymosodol yn syth’ a dywedodd swyddogion eu bod yn poeni am eu bywydau. Dywedodd tystion nad oedd yr unigolyn yn ymddangos yn ymosodol. Mewn cyfweliad, dywedodd swyddog eu bod yn credu bod yr unigolyn yn mynd i ymosod arnynt yn seiliedig ar hyn yr oedd yn ei ddweud a’r ffordd yr oedd yn dod atynt, a oedd yn fygythiol. Ni wnaeth yr unigolyn, a oedd yn dioddef pwl o iechyd meddwl, unrhyw fygythiadau. Symudodd at y swyddogion ddwywaith ond ni wnaeth eu herlid.

Ar wahân, mewn achos yn cynnwys menyw â phryderon iechyd meddwl difrifol, dywedodd swyddog, “Roedd hi’n dangos lefel anarferol o gryfder i rywun oedd yn edrych fel yr oedd hi” ac yn dangos “lefel anhygoel o wrthsafiad”.

Gwnaethpwyd rhagdybiaethau am gyffuriau neu arfau mewn tri achos. Tybiwyd bod un unigolyn wedi cymryd cyffuriau, er gwaethaf diffyg tystiolaeth i gadarnhau’r rhagdybiaeth ac arwyddion clir bod yr unigolyn yn dioddef argyfwng iechyd meddwl. Dywedodd unigolyn arall mai un o’r pethau cyntaf a ofynnodd swyddog iddo oedd, a

oedd wedi cymryd cyffuriau. Dywedodd fod hyn yn wahaniaethol a bod swyddogion wedi drysu straen â defnyddio cyffuriau.

Mewn achos arall, dilynwyd unigolyn yn ei gerbyd am yrru'n rhy gyflym a methu â stopio. Dywedodd un swyddog y "canodd larymau" oherwydd bod y car wedi'i logi ac y defnyddir y rhain gan "gangiau i gyflawni troseddau". Dywedodd y swyddog ei fod yn credu bod y teithiwr yn y car yn debygol o fod yn beryglus a meddu ar gyffuriau neu alcohol. Dywedodd fod hyn yn "rhagdybiaeth yn seiliedig ar brofiad". Pan ddaeth y gyrrwr allan o'r cerbyd, saethodd ei Taser oherwydd ei fod yn ofni bod yr unigolyn yn estyn i'w fag am arf. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw arfau.

O'r 24 o unigolion Du ynghlwm â'r achosion a adolygasom, roedd naill ai honiadau o wahaniaethu, neu dystiolaeth o ragdybiaethau stereoteipiol cyffredin, yn bresennol mewn 13 achos. O'r rhain, roedd tystiolaeth hefyd fod gan naw o bobl bryderon iechyd meddwl neu anabledd dysgu. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau gan eraill fod rhyngblethedd hil ac iechyd meddwl yn gallu effeithio ar ganfyddiadau a gweithredoedd swyddogion, a all arwain at y defnydd o rym.

## Cenedligrwydd

Roedd chwech o unigolion Gwyn yn ein hachosion yn ddinasyddion o wledydd eraill. Mewn un o'r achosion hyn, canfuom dystiolaeth o wahaniaethu a gwnaethom gwestiynu a oedd swyddogion wedi methu â gwneud addasiadau i'r unigolyn, yr oedd Saesneg yn ail iaith iddo. Canfuom hefyd faterion gyda methu â gwneud addasiadau yn seiliedig ar rwystrau iaith mewn ail achos.

Roedd yr achos cyntaf yn cynnwys dyn yr ymddengys nad oedd yn gallu siarad Saesneg yn dda iawn. Roedd y dyn wedi mynd i mewn i gefn cerbyd dieithryn tra'r oedd y deiliaid yn dal i fod yn y cerbyd. Pan gyrhaeddodd swyddogion, cafodd y dyn ei dynnu'n ffisegol o'r cerbyd ond wrth straffaglu â'r heddlu a gwrthsefyll cael ei efynnu. Saethwyd â Taser at y dyn bum gwaith, gan gynnwys pedair gwaith yn y modd tanio llonyddu. Drwy gydol y digwyddiad, ceisiodd y dyn gyfathrebu â'r swyddogion a ddywedodd wrtho am "gau ei geg" dro ar ôl tro, cyfeiriodd swyddogion ato gan ddefnyddio enwau difrïol ac iaith sarhaus. Dyrnwyd y dyn sawl gwaith yn y wyneb cyn iddo lewygu yn y ddalfa. Cafodd ei gadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl* yn ddiweddarach.

Ystyriodd ein hymchwiliad a oedd swyddogion wedi'u cymell gan wahaniaethu yn seiliedig ar genedligrwydd, ac a roddasant 'ystyriaeth briodol' i'r ffaith bod yr unigolyn yn ddinesydd tramor ac, o bosibl, yn methu â deall Saesneg.

Canfuom y gallai'r iaith ddifrïol ac ymadroddion sarhaus a ddefnyddiwyd gan y swyddogion fod wedi awgrymu nad oedd ganddynt 'fawr o barch at yr [unigolyn] o'r

cychwyn un'. Roedd swyddogion yn swnllyd ac ymosodol, i'r gwrthwyneb i'r canllawiau ar ddelio â phobl a allai fod wedi bod yn dioddef pryderon iechyd meddwl. Daethom i'r casgliad y gallai gweithredoedd y swyddogion fod wedi'u cymell gan wahaniaethu a bod gan y swyddog Taser achos i'w ateb am ei ddefnydd estynedig o'r modd tanio llonyddu tra'r oedd y dyn yn cael ei atal gan sawl unigolyn.

Cyfeiriasom ddau swyddog (yn cynnwys yr un a ddefnyddiodd Taser) i Wasanaeth Erlyn y Goron, i ystyried cyhuddiadau o ymosod, ABH a throseddau trefn gyhoeddus a waethygwyd gan hiliaeth.

Yn yr ail achos, yn cynnwys dinesydd o Albania a gafodd ei saethu â Taser chwe gwaith, canfuom fod y swyddog wedi methu ag ystyried y posibilrwydd mai ail iaith oedd Saesneg i'r unigolyn ac efallai na allai ddeall cyfarwyddiadau yn llawn. Cyfaddefodd y swyddog yn ddiweddarach y gallai rhwystrau iaith fod wedi egluro methiant yr unigolyn i gydymffurfio â gorchmynion, a'i fod wedi tybio bod yr unigolyn ar y pryd yn gwrthod cydymffurfio.

Daethom i'r casgliad bod Taser wedi cael ei ddefnyddio i geisio cydymffurfiaeth a phan berodd yr unigolyn fygythiad. Gwnaeth y swyddog ragdybiaethau hefyd am yr unigolyn yn meddu ar gyffuriau ac arfau.

## Anabledd/iechyd meddwl

Er gwaethaf nifer yr achosion lle'r oedd iechyd meddwl yn nodwedd, dim ond tri achwynydd honnodd eu bod wedi cael eu gwahaniaethu ar sail anabledd neu iechyd meddwl. Gwnaed pob cwyn gan ddynion, yr oedd dau ohonynt wedi cael diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl difrifol. Roedd y trydydd achos yn cynnwys unigolyn a oedd wedi bod yn y fyddin, wedi cael diagnosis o PTSD ac wedi'i adnabod fel 'dan straen yn feddyliol ac emosiynol' cyn i swyddogion gyrraedd y lleoliad. Saethwyd â Taser at bob un o'r tri ddwywaith. Ni wnaethom gadarnhau unrhyw un o'r tri chwyn hyn am wahaniaethu.

Roedd achos arall yn cynnwys unigolyn Du 17 oed, a oedd yn glaf mewn canolfan iechyd meddwl i bobl ifanc. Ar ôl mynd at swyddogion mewn gofid a dweud dro ar ôl tro bod ganddo bryderon iechyd meddwl, gwaethygodd y sefyllfa a chafodd ei saethu â Taser deirgwaith, ei drawo â baton dros 20 gwaith, ei chwistrellu â chwistrell lidus a'i atal.

Dywedodd mam yr unigolyn a'r Ymddiriedolaeth GIG, a oedd yn gyfrifol am ei ofal, fod swyddogion wedi methu ag ystyried problemau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'r unigolyn (er ni wnaethant honni ei fod wedi cael ei wahaniaethu).

Dywedodd ymgynghorydd arbenigol yr ymddangosai fod gan un o'r swyddogion "ganfyddiad uwch o berygl" drwy gydol y digwyddiad. Canfu ein hymchwiliad fod y swyddog hwn yn "canolbwyntio gormod ar y dasg" ac, o ystyried ei fod yn ymgysylltu ag unigolyn ifanc bregus iawn, yn ymddangos yn ansensitif a lletchwith.

Canfuom na ddefnyddiodd y swyddog y lleiaf o rym a oedd ei angen ac y gallai fod wedi ystyried opsiynau eraill. Ystyriasom fod swyddog arall wedi'i dynnu i mewn i'r digwyddiad yn emosiynol, dangos diffyg hunanreolaeth, a dangos diffyg parch a chwrteisi tuag at yr unigolyn. Gwnaethom hefyd gwestiynu a fyddai cyfathrebu mwy effeithiol ar ddechrau'r rhyngweithiad wedi dileu'r angen am ddefnydd grym.

## 6.6 Materion eraill a nodwyd gan yr adolygiad hwn

### Arferion da gan heddlu

Mewn deg achos, nodasom arferion da gan rai o'r swyddogion ynghlwm, neu bob un ohonynt. Roedd yr achosion i gyd yn cynnwys pobl â phryderon iechyd meddwl. Mewn pedwar achos, roedd gan yr unigolion gysylltiadau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o'r arferion da a nodasom yn ymwneud â swyddogion yn cydnabod bregusrwydd y bobl hynny a rheoli'r digwyddiad yn unol â hynny.

Arddangosodd swyddogion sgiliau cyfathrebu da mewn chwe achos, i ddod â'r digwyddiad i ben heb orfod defnyddio grym.

Mewn un achos, mynychodd swyddogion adroddiadau o gleifion mewn cyfleuster iechyd meddwl wedi'u harfogi â gwrthrychau metel, yn ymosod ar staff ac yn hunan-niweidio. Pan gyrhaeddodd swyddogion, roedd gan un claf eitem fetel o hyd ac yn gwrthod ei rhoi'n ôl. Siaradodd swyddog â'r unigolyn yn bwyllog a chlir, gan ofyn iddo pam oedd yn teimlo fel yr oedd, beth y gellid ei wneud i'w helpu ac archwilio ffyrdd o ddatrys y sefyllfa.

Negododd swyddogion yn bwyllog â'r unigolyn hyd nes y safodd ar ei draed a cherdded at y swyddogion, cyn codi'r eitem fetel a'i chwifio at swyddog. Defnyddiodd un o'r swyddogion chwistrell lidus, ceisiodd swyddog arall drawo'r eitem fetel i'r llawr gyda'i faton, a oedd yn aflwyddiannus, a saethodd swyddog arall ei Taser. Tynnwyd yr eitem fetel oddi ar yr unigolyn a chafodd ei efynnu. Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r unigolyn, mynd ag i ystafell ynysu, tynnu ei efynnau a gadael yr unigolyn yng ngofal staff meddygol.

Canfu ein hymchwiliad fod cyfathrebu'r swyddogion â'r unigolyn drwy gydol y digwyddiad yn unol ag arferion da, a daethom i'r casgliad bod defnydd y swyddogion o rym yn briodol.

Roedd tystiolaeth hefyd mewn sawl achos bod swyddogion wedi mabwysiadu eu dull o reoli digwyddiad oherwydd bregusrwydd unigolyn. Er enghraifft, mewn rhai achosion, gwnaeth swyddogion ymdrechion i roi ‘amser a lle’ i’r unigolyn i geisio tawelu’r digwyddiad. Mewn achosion eraill, yn cynnwys unigolion a oedd mewn gofid ac yn aflonydd, roedd swyddogion yn bwyllog, amyneddgar ac empathig.

Mewn chwech o’r deg achos, roedd yr unigolyn yn hunan-niweidio, ceisio hunan-niweidio neu fygwth hunan-niweidio. Canfuom enghreifftiau o swyddogion yn cymryd camau gweithredu cyflym ac effeithiol i atal yr unigolyn rhag achosi niwed difrifol iddo’i hun.

Er enghraifft, mewn un achos, galwyd yr heddlu i adroddiadau o unigolyn a oedd wedi cloi ei hun mewn ystafell ymolchi â chyllell ac yn bygwth lladd ei hun. Cyrhaeddodd swyddogion a cheisio cyfathrebu â’r unigolyn drwy’r drws dan glo. Cadarnhaodd yr unigolyn fod ganddo gyllell ac yn mynd i ladd ei hun.

Ceisiodd y swyddogion ddarbwyllo’r unigolyn i agor y drws a rhoi’r gyllell i lawr, ond gwrthododd yr unigolyn. Gorfododd swyddogion eu hunain i mewn a chanfu’r unigolyn yn trywanu ei hun ac yn sgrechian. Aeth swyddog ato’n syth a cheisio cymryd y gyllell oddi wrtho. Brathodd yr unigolyn y swyddog, felly ciliodd. Saethodd swyddog arall ei Taser. Ni chafodd hyn effaith, felly saethodd eto. Analluogodd hyn yr unigolyn i bob golwg a chymerodd y swyddogion y gyllell o law’r unigolyn. Rhoddodd y swyddogion yr unigolyn mewn gefynnau, galw ambiwlans a rhoi cymorth cyntaf.

Canmolodd ein hymchwiliad y swyddogion am eu hymdriniaeth o’r sefyllfa. Gwnaethant aros yn bwyllog, dangos empathi a defnyddio sgiliau cyfathrebu cadarnhaol. Canmolwyd y swyddog a aeth at yr unigolyn am ei anhunanoldeb hefyd wrth fynd at yr unigolyn i’w atal rhag achosi rhagor o niwed iddo’i hun, er gwaethaf y risg iddo ef ei hun.

## Sicrhau bod pobl yn derbyn sylw meddygol prydlon a phriodol

Mewn wyth achos, roedd tystiolaeth bod swyddogion wedi methu â thrin y sefyllfa fel argyfwng meddygol neu sicrhau bod yr unigolyn yn cael sylw meddygol yn brydlon.

Er enghraifft, mewn un achos, mynychodd dau swyddog gyfeiriad ar ôl pryderon y gallai unigolyn fod yn feddw wrth ofalu am ei ferch. Yn ystod y digwyddiad saethwyd â Taser at yr unigolyn, cafodd ei drawo â baton, ei atal a’i ddyrnu yn y wyneb. Methodd y ddau swyddog â rhoi gwybod i’r swyddogion a oedd yn trosglwyddo’r unigolyn i’r ddalfa, am y grym a ddefnyddiwyd. Nid oedd swyddog y ddalfa yn ymwybodol felly o’r grym a ddefnyddiwyd, ac ni dderbyniodd yr unigolyn sylw meddygol prydlon. Yn dilyn hyn, argymhellodd nyrs y ddalfa y dylid mynd â’r

unigolyn i'r ysbyty. Cafodd yr unigolyn bwythau ar gyfer anaf i'w wefus ac archwiliad pelydr X ar ei goes.

Roedd un o'r achosion hyn yn cynnwys marwolaeth a phedwar yn cynnwys yr unigolion yn dioddef anafiadau difrifol. O'r bobl ynghlwm â'r wyth achos hyn, roedd pump yn Wyn a thri yn Ddu. Roedd dau o dan 18 oed. Roedd yr ieuengaf yn 14 oed a'r llall yn 17 oed.

Mewn pump o'r achosion hyn, roedd gan yr unigolyn gysylltiadau ag alcohol a/neu gyffuriau, roedd hefyd yn arddangos symptomau aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Bu farw neu anafodd yr unigolyn yn ddifrifol mewn tri o'r pedwar achos lle'r oedd yn arddangos symptomau aflonyddwch ymddygiadol acíwt.

Mewn chwe achos, roedd saethiadau Taser lluosog, er yr awgryma'r dystiolaeth nad oedd pob saethiad yn effeithiol wrth analluogi'r unigolion. Roedd pedwar o'r chwe achos hyn yn cynnwys saethiadau parhaus hefyd. Parodd y saethiad hiraf 35 eiliad.

Mewn naw achos, canfuom dystiolaeth o swyddogion yn araf yn darparu sylw meddygol priodol i bobl, oherwydd rhagdybiaethau eu bod yn ffugio bod yn sâl neu'n anymwybodol. Mewn un achos, mynychodd swyddogion gyfeiriad ar ôl adroddiadau bod unigolyn yn ymddwyn mewn modd bygythiol ac wedi cau ei hun yn yr ystafell fyw.

Roedd yr unigolyn o dan ddylanwad cyffuriau ac yn arddangos arwyddion aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Aeth trafodwr cŵn a chi'r heddlu i mewn i'r ystafell fyw a dilynodd straffaglu, pan saethodd y swyddog ei Taser bedair gwaith a brathodd ci'r heddlu freichiau a choesau'r unigolyn. Yna cafodd yr unigolyn ei arestio, ei efynnu a'i roi yn fan yr heddlu. Gadawyd un swyddog i oruchwylio'r unigolyn, pan aeth yn anymwybodol.

Roedd y swyddog yn credu bod yr unigolyn yn ffugio salwch ac ni aeth i mewn i'r fan i edrych ar yr unigolyn. Pan rododd yr unigolyn y gorau i anadlu, i bob golwg, roedd y swyddog yn dal i gredu y gallai fod yn ffugio, felly galwodd gydweithiwr cyn agor drws y fan i geisio deffro'r unigolyn. Ar ôl i'r swyddog fethu â dod o hyd i guriad y galon, galwyd ambiwlans a dechreuodd swyddogion berfformio cymorth cyntaf. Cyhoeddwyd yr unigolyn yn farw yn y lleoliad yn ddiweddarach.

Canfu ein hymchwiliad fod gan dri swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol am fethu â thrin yr unigolyn fel argyfwng meddygol a methu â galw cymorth meddygol prydlon. Cyfeiriasom yr achos hwn i Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd i benderfynu a ddylid dwyn gweithdrefnau troseddol yn erbyn y ddau swyddog.

Mewn achos arall, aeth dau swyddog at fenyw ac unigolyn mewn perthynas â throseddau traffig honedig. Yn ystod y cysylltiad hwn, tynnodd un o'r swyddogion ei Taser o'i gas ac anelu â dotyn coch at yr unigolyn. Anelodd y swyddog arall ei Taser at y fenyw, gan honni ei bod wedi rhuthro atynt. Dywedodd y fenyw wrth y swyddog fod ganddi epilepsi. Dywedodd y swyddog wrth y fenyw ei bod yn cael ei arestio am ymosod ar swyddog heddlu ac aeth ymlaen i'w gefynnu. Dechreuodd y fenyw gael trawiad.

Ni ddarparodd y swyddogion unrhyw gymorth meddygol i'r fenyw. Ceisiodd yr unigolyn fynd at y fenyw ond cafodd ei wthio'n ôl dro ar ôl tro gan un o'r swyddogion. Wrth i'r unigolyn blygu at y fenyw, saethodd y ddau swyddog eu Tasers at yr unigolyn.

Gofynnodd y fenyw am ambiwlans ac aildrodd bod ganddi epilepsi. Cyrhaeddodd swyddogion eraill a chafodd yr unigolyn ei efynnu a'i arestio. Ar ôl i'r unigolyn gael ei efynnu, clywyd un o'r swyddogion yn dweud "ei bod yn ffugio epilepsi". Yn ffurflen defnydd o Taser a datganiad y swyddog, mae'n nodi ei fod yn credu yr oedd y fenyw yn ffugio trawiad. Gofynnwyd am ambiwlans oddeutu pump i chwe eiliad ar ôl i'r fenyw gael trawiad.

Canfu ein hymchwiliad fod gan y ddau swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol am eu hymddygiad yn ystod y digwyddiad hwn, yn cynnwys defnydd gormodol o rym a methu â darparu gofal meddygol priodol.

Rydym wedi ymchwilio i achosion eraill, nad ydynt yn cynnwys y defnydd o Taser, lle mae swyddogion wedi tybio bod unigolyn yn ffugio salwch neu anaf pan oedd yn sâl neu wedi'i anafu o ddifrif. Mewn argymhelliad blaenorol i'r CoP, gwnaethom amlygu peryglon gwneud rhagdybiaethau o'r fath, a dweud y dylai hyfforddiant a chanllawiau sicrhau y rhoddir pwyslais ar drin unigolyn yn unol â sut mae'n cyflwyno ei hun, ac amlygu risgiau tybio bod unigolyn yn ffugio problem feddygol.

Mae rhai o'r achosion hyn yn codi cwestiynau ynglŷn ag a yw swyddogion yn gwerthfawrogi'n briodol y risgiau y gall Taser eu peri, yn benodol, gan fod yr achosion hyn yn aml yn cynnwys saethiadau Taser lluosog a pharhaus, sy'n ffactorau risg hysbys. Mewn digwyddiadau o'r fath, mae'n bwysig bod swyddogion, cyn belled ag sy'n bosibl, yn asesu'r unigolyn yn rheolaidd a thrylwyr am unrhyw arwyddion o salwch, anaf neu anymwybyddiaeth ac, os oes angen, yn sicrhau eu bod yn cael sylw meddygol prydlon.

Gall rhagdybiaethau gan swyddogion fod unigolyn yn ffugio salwch neu anymwybyddiaeth gael goblygiadau difrifol drwy oedi darpariaeth sylw meddygol y mae mawr ei hangen. Nid yw swyddogion heddlu yn weithwyr meddygol hyfforddedig a byddai'n afresymol iddynt wneud diagnosis ynglŷn ag a yw cyflwr

unigolyn yn wir ai peidio. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy hanfodol bod swyddogion yn trin unigolion sy’n arddangos arwyddion salwch, anaf neu anymwybyddiaeth yn unol â sut y maent yn cyflwyno eu hunain ac yn ceisio sylw meddygol prydlon.

# 7. Safbwyntiau'r gymuned a rhanddeiliad

Ym mis Mai 2020, galwasom am fwy o graffu ar y defnydd o Taser. Roedd hyn yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau a phryderon cymunedol cynyddol gan ystod o randdeiliaid y siaradasom â nhw am ei ddefnydd anghyfartal:

> "Mae'r IOPC yn cydnabod bod y defnydd o Taser yn bwysig wrth helpu swyddogion i ymateb i sefyllfaoedd sy'n aml yn beryglus a heriol. Fodd bynnag, mae defnydd cynyddol o Taser a phryderon cynyddol, yn lleol a chenedlaethol, am ei ddefnydd anghyfartal yn erbyn dynion Du a'r rheiny â phryderon iechyd meddwl"[150].

Nodasom er bod gan yr IOPC rôl i ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol yn cynnwys Taser, mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau rôl hefyd wrth roi sicrwydd i'r gymuned am y defnydd o Taser. Gwnaethom erfyn ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'r gwasanaeth heddlu yn ehangach i 'wrando ar, ac ymateb i bryderon a godir.'

Croesawodd amrywiaeth o sefydliadau cenedlaethol, arweinwyr a grwpiau cymunedol lleol ein galwadau am fwy o graffu, fel y gwnaeth arweinwyr plismona. Yna adleisiodd arweinydd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar y defnydd o rym, bryderon am anghyfartaledd ac ysgrifennodd at Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona i alw am adolygiad o hyfforddiant Taser[151].

Ni chytunodd Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr â'n barn, gan nodi: 'Nid ydym yn cydnabod nac yn cytuno bod defnydd anghyfartal o Taser yn erbyn pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu bobl â salwch meddwl'[152]. Barn y Ffederasiwn oedd bod Tasers yn ddarn hanfodol o offer sy'n achub bywydau, yn cael ei ddefnyddio

---

[150] Datganiad i'r wasg yr IOPC (14 Mai 2020) Yr IOPC yn galw am fwy o graffu ar y defnydd o Taser yn dilyn pryderon cynyddol. Cyrchwyd o https://www.policeconduct.gov.uk/news/iopc-calls-greater-scrutiny-taser-use-following-increasing-concerns#:~:text=IOPC%20calls%20for%20greater%20scrutiny%20of%20Taser%20use,incidents%20and%20increasing%20community%20concerns%20in%20recent%20months

[151] Erthygl Police Professional. (15 Mai 2020) APCC calls for 'urgent review' of Taser training. Cyrchwyd o https://www.policeprofessional.com/news/iopc-confirms-investigation-of-gmp-taser-incident/

[152] Datganiad i'r wasg Ffederasiwn yr Heddlu (14 Mai 2020) Federation disputes IOPC Taser use claims. Cyrchwyd o https://www.polfed.org/news/latest-news/2020/federation-disputes-iopc-taser-use-claims/

mewn nifer fechan o ddigwyddiadau yn unig a bod ei ‘bresenoldeb yn unig...yn aml yn ddigon i dawelu sefyllfaoedd, gan ei wneud yn hynod effeithiol’.

Mae’r bennod hon yn amlinellu’r safbwyntiau a’r pryderon yr ydym wedi’u clywed gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid drwy ein gweithgareddau ymgysylltu o ddydd i ddydd. Maent wedi’u strwythuro’n thematig. Nid ydym wedi cynnal ymchwil benodol i gasglu’r safbwyntiau hyn. Yn hytrach, mae’r sylwadau a’r trafodaethau a nodir isod yn rhai a gafwyd yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu arferol, yn cynnwys cyfarfodydd Grwpiau Cyfeirio Cymunedol,[153] a grwpiau un i un â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau eraill yr ydym yn cyfarfod â nhw. Nid ydym yn cyflwyno’r safbwyntiau hyn fel asesiad sy’n gynrychiadol yn genedlaethol o safbwyntiau’r cyhoedd, gan fod natur ein gwaith yn golygu ein bod yn aml yn dod i gysylltiad â’r rheiny nad oes ganddynt hyder yn yr heddlu.

Rydym hefyd yn cyfeirio at y pryderon mae ein rhanddeiliaid sefydliadol wedi’u mynegi’n gyhoeddus. Nid diben y bennod hon yw dadlau rhinweddau’r pryderon a amlygir.

## 7.1 Defnyddio Taser yn erbyn pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

Mae’r pryderon a’r materion mwyaf cyffredin am y defnydd o Taser yn ymwneud â gwahaniaethu ac anghyfartaledd ethnig, a barn y gall tueddiadau hiliol a diwylliannol effeithio ar benderfyniadau i ddefnyddio Taser. Cefnogir y gred hon gan ddata’r heddlu ei hun sy’n dangos bod pobl Ddu yn fwy tebygol o lawer o fod ynghlwm â’r defnydd o Taser na phobl Wyn.

Mae’r anghyfartaledd ethnig yn y defnydd o Taser (a’r defnydd o rym yn gyffredinol) yn arwain yn anochel at drafodaethau am hiliaeth systemig a chyfundrefnol. Mae ymdeimlad bod ‘hanes yn parhau i ailadrodd ei hun’. Adrodda cymunedau Du eu bod wedi bod yn dweud wrth yr heddlu beth yw’r problemau ers blynyddoedd lawer. Credant nad oes fawr ddim wedi newid oherwydd bod gwasanaeth yr heddlu wedi methu â gwrando.

Mae rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol wedi egluro mai dim ond drwy wrando ar brofiadau cymunedau Du y gellir deall hiliaeth systemig, ac na ellir edrych ar

[153] Sefydlir Grwpiau Cyfeirio Cymunedol yn dilyn digwyddiad lle’r ydym yn bryderus am effaith y digwyddiad ar y gymuned leol. Rydym yn rhoi’r newyddion diweddaraf am ymchwiliadau a chyfle i leisio eu pryderon i Grwpiau Cyfeirio Cymunedol - yn nhermau’r digwyddiad ei hun ac yn ehangach.

ddigwyddiadau unigol ar eu pen eu hunain - maent yn rhan o broblemau hirsefydlog rhwng yr heddlu a’r gymuned Ddu.

Er enghraifft, mewn cyfarfod Grŵp Cyfeirio Cymunedol, siaradodd cyfranogwr sy’n gweithio â phlant o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig am “waddol hanesyddol hiliaeth systemig yn yr heddlu”, a sut yr effeithir ar ymddiriedaeth y gymuned gan y trawma sy’n aros gyda chymunedau ar draws cenedlaethau. Trafododd y Grŵp Cyfeirio Cymunedol strwythurau cymdeithasol a diffyg gweithredu gan yr heddlu i fynd i’r afael â thuedd, sydd yn eu tyb nhw, yn atal gwelliannau. Dywedodd rhai aelodau fod arweinwyr yr heddlu yn osgoi trafodaethau am ‘y gwir na feiddia neb ei ddweud’ ynghylch hiliaeth.

Yn ein gweithgareddau ymgysylltu o ddydd i ddydd, mae rhanddeiliaid wedi nodi bod stereoteipio pobl Ddu yn nodwedd allweddol o hiliaeth gyfundrefnol. Dywedwyd wrthym fod pobl Ddu mewn rhai cymunedau yn ‘gwybod’ eu bod yn cael eu stereoteipio gan yr heddlu ac mae hyn, ynghyd â’r wybodaeth fod swyddogion wedi’u harfogi ac yn gallu defnyddio grym, yn codi ofn. Mae pryder penodol am stereoteipio bechgyn a dynion ifanc Du, sy’n arwain atynt yn wynebu defnydd yr heddlu o rym yn anghyfartal.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud bod swyddogion yn anwybyddu, i bob golwg, y ddyletswydd o ofal sydd ganddynt tuag at y plant a’r bobl ifanc Ddu y maent yn ymgysylltu â nhw. Dywedant fod hyn yn peri tensiynau sylweddol yn y gymuned a gall arwain at wrthdaro â’r heddlu. Maent wedi beirniadu Taser a defnydd arall o rym ar ddynion ifanc Du am fân droseddau yn cynnwys meddu ar gyffuriau. Ystyrir hyn yn enghraifft o’r heddlu yn targedu grwpiau sydd eisoes yn fregus.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn aml yn cyfeirio at fideos ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys y defnydd o Taser yn erbyn unigolyn o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Cred rhai bod y fideos hyn yn darparu tystiolaeth o Taser yn cael ei ddefnyddio’n anghyfartal a heb gyfiawnhad yn erbyn y grŵp hwn o bobl.

Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon am ddisgrifiadau swyddogion o bobl Ddu yn ymosodol a gwrthsafol, gan ddadlau bod hyn yn bwydo stereoteipiau. Mewn rhai achosion, mae rhanddeiliaid wedi dweud yr oedd yr unigolyn yn ymateb mewn ffordd sy’n arferol o rywun yn cael ei arestio neu ei efynnu ac ni ddylai hyn gyfiawnhau’r defnydd o Taser. Wedi gweld fideos o’r fath, teimlant na fyddai Taser wedi cael ei ddefnyddio pe bai’r unigolyn yn Wyn a bod swyddogion yn troi at ddefnyddio Taser yn rhy sydyn, heb geisio cyfathrebu yn gyntaf.

Mae tuedd anymwybodol yn bwynt trafod cyffredin. Mae rhai rhanddeiliaid y bu i ni ymgysylltu â nhw yn awyddus i ddeall beth mae lluoedd yn ei wneud i fynd i’r afael â hyn. Mae eraill wedi dadlau’n gryf yn erbyn canolbwyntio ar duedd anymwybodol.

Mae amlder y digwyddiadau sy'n cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, lle'r oedd y gymuned yn ystyried gweithredoedd swyddogion yn ormodol neu ddiangen, wedi arwain at rai i ddadlau nad yw swyddogion yn gweithredu ar duedd anymwybodol; ond yn gweithredu ar eu tueddiadau yn ymwybodol. Mae eraill wedi dweud wrthym fod canolbwyntio ar duedd anymwybodol yn golygu osgoi bai a dwyn swyddogion i gyfrif am ymddygiad gwahaniaethol.

Nid yw'r pryderon hyn wedi'u cyfyngu i grwpiau cymunedol yn unig. Mae sefydliadau cenedlaethol y siaradasom â nhw'r un mor bryderus am Taser yn cael ei ddefnyddio yn anghyfartal yn erbyn grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Maent wedi amlygu enghreifftiau o achosion lle ni wnaethant ystyried y defnydd o Taser yn angenrheidiol neu resymol, a siarad am y risgiau o anhrefn cymunedol posibl os na chaiff mwy ei wneud i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr heddlu.

Ym mis Mawrth 2020, ymddiswyddodd rhai aelodau o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Randdeiliaid Taser (NTSAG),[154] gan nodi methiant i fynd i'r afael â phroblemau anghyfartaledd ethnig fel y prif reswm. Sefydlwyd NTSAG i graffu'n annibynnol a chynghori ar y defnydd o Taser gan gyrff plismona cenedlaethol.

Roedd y rheiny a ymddiswyddodd yn cynnwys Liberty, INQUEST, Open Society Justice Initiative, StopWatch a Dr Michael Shiner. Yn eu llythyr ymddiswyddo ar y cyd, dywedasant fod arweinwyr plismona yn methu â chymryd anghyfartaledd o ran hil yn y defnydd o Taser o ddifrif, ac nad yw camau ystyrlon yn cael eu cymryd i'w gydnabod, ei asesu a'i drechu[155]. Cododd aelodau a oedd yn ymddiswyddo, bryderon am ffocws ar hyfforddiant tuedd anymwybodol hefyd. Dywedasant fod canolbwyntio ar duedd anymwybodol yn cam-ddisgrifio'r broblem ac yn methu ag archwilio problemau yn ymwneud ag anghydraddoldeb strwythurol.

Rhannodd yr aelodau sy'n weddill o NTSAG bryderon y rheiny a ymddiswyddodd yn ysgrifenedig, ond cytunasant i aros yn aelodau yn amodol ar Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethu a defnydd anghyfartal o Taser ar unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn amodol ar adolygiad parhaus rheolaidd gan aelodau NTSAG, ac mae NTSAG wedi galw am unrhyw adolygiad o'r fath i fod yn gwbl annibynnol ar Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

[154] Mae NTSAG yn grŵp annibynnol o arbenigwyr a rhanddeiliaid â diddordeb sy'n darparu arfarniad a chyngor allweddol cyn penderfyniadau ynghylch TASER yng Nghymru a Lloegr. Mae NTSAG yn cysylltu â Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona, a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys SACMILL a'r Swyddfa Gartref, i ddarparu'r cyngor a'r oruchwyliaeth allweddol yma.

[155] The Guardian. (17 Ebrill 2020) Rights groups quit police body over stun gun use against BAME people. Cyrchwyd o https://www.theguardian.com/uk-news/2020/apr/17/rights-groups-quit-uk-police-body-stun-gun-use-bame-people

Galwodd nifer o randdeiliaid y bu i ni ymgysylltu â nhw am adolygiadau o hiliaeth systemig, ac eraill am sicrhau bod mecanweithiau a hyfforddiant ar waith i fynd i'r afael â thuedd anymwybodol. Mae rhai wedi erfyn ar yr heddlu i ddefnyddio gwersi o brofiadau'r UDA. Mae consensws bod angen i luoedd ddeall gwahaniaethu yn well a sut y gall ddwyn ffrwyth.

Mae Panel Ieuenctid yr IOPC[156] wedi dadlau y dylid addysgu swyddogion am yr hanes y tu ôl i stereoteipiau a chamganfyddiadau cyffredin ac y dylai recriwtio sicrhau na dderbynnir swyddogion rhagfarnllyd. Awgrymodd y panel brofi swyddogion yn rheolaidd am duedd hefyd. Mae rhai rhanddeiliaid y siaradasom â nhw wedi dadlau dros ymagwedd 'egluro neu ddiwygio' ar lefel llu, tîm ac unigol i fynd i'r afael â'r defnydd anghyfartal o Taser yn erbyn grwpiau penodol.

## 7.2 Defnyddio Taser ar blant

Mae rhai sefydliadau wedi bod yn codi pryderon am y defnydd o Taser ar blant a phobl ifanc ers amser maith. Ym mis Mawrth 2020 yn ei gyfarfod briffio[157] amlinellodd Cynghrair Hawliau Plant Lloegr (CRAE) ei bryder am y defnydd cynyddol o Taser ac ofnau y bydd Taser yn cael ei ddefnyddio'n fwy aml ar blant wrth i fwy o swyddogion gael eu harfogi â'r ddyfais. Dywedodd plant wrth CRAE, hyd yn oed pan na chaiff Taser ei saethu, fod y bygythiad o drais gan yr heddlu yn cario Taser yn "frawychus iawn".

Mae CRAE hefyd yn amlygu'r defnydd anghyfartal o Taser yn erbyn plant o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ar ôl canfod yr oedd bron i dri chwarter y plant y saethwyd â Taser atynt yn Llundain dros gyfnod o ddeg mis o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Amlygodd hefyd fod ymchwil bellach i risgiau defnyddio Taser ar blant a'r effaith gorfforol a feddyliol y gall ei chael, yn ofynnol.

Galwodd CRAE am "ddileu" y defnydd o Taser ar blant neu, o leiaf, "rhagdybiaeth gref yn erbyn eu defnydd". Dywedodd y dylid defnyddio Taser ar blant dim ond pan mae hi'n "gwbl angenrheidiol" ac mae pob opsiwn, llai eithafol arall, wedi'i archwilio. Cyfeiriodd y cyfarfod briffio at argymhellion tebyg gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant y dylid gwahardd y defnydd o Taser ar blant oherwydd ei effaith ar eu hiechyd corfforol a meddwl[158].

---

156 Mae ein Panel Ieuenctid yn ein helpu i ddeall pam mae gan bobl ifanc hyder isel yn system gwynion yr heddlu, y rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu a datrysiadau posibl i gynyddu ymddiriedaeth a hyder. Mae'n cynnwys grŵp o bobl ifanc rhwng 16-24 oed.

157 Cynghrair Hawliau Plant Lloegr. Children's rights and policing; Taser and children's rights. Cyrchwyd o http://www.crae.org.uk/media/128554/CRAE_POLICING-TASER-PRINT-1.pdf

158 Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. (3 Mehefin 2016). Cyrchwyd o https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/wp-content/uploads/sites/2/2016/08/UK-CRC-Concluding-observations-2016-2.pdf

Mae CRAE yn argymell diweddariadau i ganllawiau a hyfforddiant cenedlaethol i sicrhau ffocws ar hawliau plant, bod data wedi'i ddadgyfuno'n llawn, manwl yn cael ei gyhoeddi a'i ddadansoddi'n rheolaidd ar y defnydd o Taser ar blant, bod mecanweithiau craffu lleol a chenedlaethol yn cael eu gwella; ac y dylai'r IOPC gael gwybod am bob defnydd o Taser ar blant[159].

Yn 2016, dywedodd StopWatch ei fod yn bryderus y bydd mwy o blant yn cael eu saethu â Taser os gwireddir galwadau i wneud Taser ar gael i bob swyddog rheng flaen[160]. Fel CRAE, dywedodd fod effeithiau corfforol a seicolegol Tasers ar blant yn fater allweddol, a bod rhaid monitro ei ddefnydd yn agos. Galwodd StopWatch am wahardd saethu â Tasers at blant "sy'n edrych yn 14 oed neu iau".

Mae pryderon am y defnydd o Taser ar blant a phobl ifanc yn arbennig o ddifrifol ymhlith grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae ein rhanddeiliaid wedi adrodd bod rhai rhieni o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn pryderu'n gynyddol y bydd eu plant yn cael eu saethu â Taser, ac y gwaethygir hyn gan nad oes protocolau Taser llym ar waith i lywodraethu ei ddefnydd. Dywedasant fod rhieni yn fwy pryderus na phobl ifanc, a bod canfyddiadau yn y gymuned bod digwyddiadau yn cynnwys y defnydd o Taser yn dod yn 'rhyngweithiad normal' â'r heddlu.

## 7.3 Defnyddio Taser ar bobl â phryderon iechyd meddwl a chorfforol

Mae'r rhanddeiliaid a'r grwpiau cymunedol y siaradasom â nhw, yn cydnabod ei bod yn aml yn ofynnol i swyddogion ymgysylltu â phobl ag anawsterau iechyd meddwl. Mae pryderon nad oes gan rai swyddogion y sgiliau priodol i allu cyfathrebu'n effeithiol â phobl â phryderon iechyd meddwl. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud, oherwydd nad oes gan swyddogion y sgiliau hyn, y gallant dueddu i ddibynnu ar ddefnyddio grym, gan roi pobl fregus mewn perygl o niwed difrifol.

Mae pryderon tebyg am ddiffyg dealltwriaeth o awtistiaeth ac anableddau dysgu ymhlith swyddogion. Gall pobl ag anableddau dysgu neu ddatblygu ymddwyn yn annisgwyl ac mae angen i swyddogion gael ymwybyddiaeth o'r materion hyn a dealltwriaeth o sut mae rhyngweithio'n effeithiol. Mae rhanddeiliaid wedi dadlau y dylid defnyddio Taser fel yr opsiwn olaf yn unig ar bobl â phryderon iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

---

[159] Cynghrair Hawliau Plant Lloegr. Children's rights and policing; Taser and children's rights. Cyrchwyd o http://www.crae.org.uk/media/128554/CRAE_POLICING-TASER-PRINT-1.pdf

[160] StopWatch. (28 Ebrill 2016). The Use of Tasers in London. Cyrchwyd o https://www.stop-watch.org/uploads/documents/Briefing.Tasers.pdf

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi siarad â ni am ryngblethedd hil ac iechyd meddwl. Mae rhai wedi dadlau nad yw swyddogion yn ymateb yn briodol i ddynion Du sy'n dioddef pryderon iechyd meddwl: tynasant eu Taser o'i gas yn rhy gyflym, nid ydynt yn gallu adnabod dynion Du mewn argyfwng fel pobl fregus ac maent yn eu trin yn beryglus ac yn ceisio eu harestio. Mae rhai rhanddeiliaid, gan gyfeirio at achosion lle mae dynion Du wedi marw yn y ddalfa, yn credu y byddai gweithwyr iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol neu wasanaethau ambiwlans wedi'u harfogi'n well i ddelio â digwyddiadau o'r fath.

Mae pryderon wedi cael eu codi hefyd am y defnydd o Taser ar bobl â chyflyrau iechyd sylfaenol, gan gynnwys epilepsi a chyflyrau'r galon. Mae rhanddeiliaid wedi dadlau lle'r oedd swyddogion yn, neu y dylent fod wedi bod yn ymwybodol o unrhyw gyflyrau iechyd meddwl, y dylid ystyried hyn wrth asesu a oedd y defnydd o Taser yn briodol.

Rydym wedi clywed enghreifftiau o swyddogion yn camgymryd cyflyrau iechyd am feddwdod neu ymddygiad ymosodol neu wrthsafol, a lle maent wedi defnyddio grym. Mae un rhanddeiliad wedi rhybuddio bod y diffyg ymwybyddiaeth hwn hefyd yn risgio oedi sylw meddygol.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud bod rhagor o ymchwil yn ofynnol i ddeall y risgiau o ddefnyddio Taser ar bobl â chyflyrau iechyd corfforol sylfaenol a phryderon iechyd meddwl.

## 7.4 Defnydd diangen neu afresymol o Taser

Cododd rhanddeiliaid enghreifftiau o achosion lle defnyddiwyd Taser pan ymddengys nad oedd yr unigolyn yn dreisgar nac ymosodol, lle cafodd ei ddefnyddio'n rhy gyflym, heb ymdrechion i gyfathrebu'n gyntaf a lle defnyddiwyd Taser er cydymffurfiaeth neu i godi ofn, yn hytrach na delio â bygythiad. Rydym hefyd wedi clywed gan randdeiliaid bod swyddogion Taser yn delio â digwyddiadau gydag agwedd ymosodol ddiangen ac yn ymddangos yn 'hapus i saethu'. Mae trafodaethau am y defnydd amhriodol o Taser yn aml yn cynnwys cyfeiriadau at 'gamddefnydd pŵer' gan yr heddlu.

Rydym wedi clywed pryderon am Taser yn cael ei ddefnyddio pan oedd yr unigolyn yn rhedeg i ffwrdd. Mae rhanddeiliaid wedi dadlau nad yw unigolyn yn fygythiad os yw'n rhedeg i ffwrdd a bod defnyddio Taser felly, yn anghyfiawn.

Mae cwestiynau wedi cael eu codi hefyd am briodoldeb defnyddio Taser mewn lleoliadau meddygol ac yn y ddalfa. Defnyddir pryderon o'r fath i gefnogi galwadau i ddarparu mwy o eglurder mewn canllawiau.

Mae rhanddeiliaid cymunedol a sefydliadau cenedlaethol wedi codi'r mater o 'gwmpas ehangach', gan nodi bod Taser yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol mewn sefyllfaoedd risg is ac er cydymffurfiaeth, lle cawsant eu cyflwyno'n wreiddiol fel opsiwn amgen i arfau tanio mewn sefyllfaoedd risg uchel a threisgar.

## 7.5 Polisi, canllawiau a hyfforddiant Taser

Mae gwahaniaeth rhwng disgwyliadau rhai grwpiau cymunedol a'r amgylchiadau lle dylid a gellir defnyddio Taser a chanllawiau presennol. Mae rhanddeiliaid y siaradasom â nhw yn credu y dylid defnyddio Taser dim ond pan mae bygythiad o drais neu niwed difrifol. Dywedasant fod APP presennol yn ehangach o lawer: mae'n nodi bod Taser yn 'un o nifer o opsiynau tactegol ar gael wrth ddelio â digwyddiadau gyda'r posibilrwydd o wrthdaro.'

Mae rhai sefydliadau cenedlaethol, academyddion ac aelodau o'r gymuned yn credu bod Taser yn cael ei ddefnyddio fel opsiwn diofyn lle gallai opsiynau tactegol eraill fod yn fwy effeithiol.  Mae rhai wedi nodi nad yw hyn yn unol â safonau hawliau dynol rhyngwladol, gan amlygu datganiadau gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Artaith, Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a Phwyllgor Cyngor Ewrop ar Atal Artaith, y dylid defnyddio arfau gwefr drydanol dim ond mewn sefyllfaoedd cyfyngedig lle mae 'bygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol i fywyd neu risg o anaf difrifol.'

Mae rhai rhanddeiliaid wedi'u synnu â diffyg 'canllawiau penodol' ar gyfer defnyddio Taser ac yn dadalu bod mwy o eglurder yn ofynnol am yr amgylchiadau lle byddai defnyddio Taser yn amhriodol. Mae rhai wedi dadlau bod dibynnu ar y Model Penderfynu Cenedlaethol yn annigonnol ac y dylai canllawiau ddarparu mwy o fanylion ynghylch yr hyn sy'n 'rhesymol a chymesur' wrth ystyried y defnydd o Taser. Dywedodd un aelod o'n Panel Ieuenctid fod y diffyg eglurder hwn mewn canllawiau yn golygu bod rhaid i swyddogion ddibynnu ar eu barn, a all beri risgiau. Mae eraill wedi dweud ei bod yn fwy anodd asesu gweithredoedd swyddogion a'u dwyn i gyfrif. Dywedodd sefydliad cenedlaethol wrthym y dylai canllawiau ei gwneud hi'n glir na ddylid defnyddio Taser er cydymffurfiaeth.

Mae StopWatch wedi galw ar y Swyddfa Gartref i gyhoeddi canllawiau penodol ar sut mae defnyddio Tasers yn ddiogel a'r sefyllfaoedd lle mae'n gymesur a chyfreithlon gwneud hynny[161]. Dywedodd y dylai canllawiau "hyrwyddo opsiynau amgen mwy diogel i...swyddogion dawelu sefyllfaoedd treisgar, yn enwedig mewn

[161] StopWatch. (28 Ebrill 2016). The Use of Tasers in London. Cyrchwyd o https://www.stop-watch.org/uploads/documents/Briefing.Tasers.pdf

cysylltiadau â phlant ifanc”, a bod rhaid atgyfnerthu hyn drwy hyfforddiant ar yr opsiynau amgen hyn.

Yn ogystal â diffyg manylion ynglŷn â’r mathau o amgylchiadau lle dylid ac ni ddylid defnyddio Taser, dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn credu bod canllawiau ychwanegol yn ofynnol mewn rhai meysydd, gan gynnwys ar risgiau Taser a sut mae delio â nhw a’u lliniaru.

Mewn un cyfarfod, cyfeiriodd rhanddeiliad at y ffaith y cyfeirir at Tasers fel arfau ‘llai angheuol’ nid arfau ‘nad ydynt yn angheuol’. Dywedasant fod y term ‘llai angheuol’ yn cydnabod yn benodol bod Taser yn peri risg. Mae rhanddeiliaid hefyd yn credu bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i’r risg o niwed seicolegol. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod swyddogion yn amlwg yn tanseilio neu ddiystyru risgiau Taser, gan fod ei ddefnydd yn parhau i dyfu.

Mae risgiau saethiadau Taser ailadroddus a pharhaus yn bryder allweddol. Mae NTSAG wedi codi pryderon am y diffyg canllawiau ar y nifer o weithiau ac am ba mor hir y gellir defnyddio Taser yn ddiogel. Mae aelodau NTSAG wedi gofyn pryd na fydd saethiadau Taser lluosog yn gymesur ac a oes terfyn ar hyd neu nifer y saethiadau lle na fyddai’n gymesur, ni waeth beth fo’r amgylchiadau. Mae hefyd wedi cwestiynu a yw hyfforddiant yn pwysleisio’n effeithiol yr angen i swyddogion asesu unigolyn ar ôl iddo gael ei saethu â Taser, cyn ystyried a yw saethiadau eraill yn angenrheidiol.

Mae pryderon am y defnydd o Taser ym mhresenoldeb plant a’r effaith seicolegol y gall hyn ei chael. Creda rhanddeiliaid y dylid osgoi’r defnydd o Taser os yw plentyn yn bresennol, lle bo’n bosibl, ond, fel gofyniad lleiaf, dylai swyddogion ystyried hyn wrth benderfynu defnyddio Taser ai peidio.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu ‘cod ymddygiad’ i swyddogion Taser. Cymharodd un rhanddeiliad y canllawiau ar Taser â’r canllawiau i swyddogion ar stopio a chwilio. Dywedodd fod canllawiau stopio a chwilio yn llawer mwy manwl ac addysgiadol, lle mae canllawiau Taser yn canolbwyntio ar egwyddorion cyffredinol.

Mae rhai rhanddeiliaid y bu i ni ymgysylltu â nhw yn credu nad yw canllawiau presennol wedi’u llywio gan dystiolaeth feddygol, academaidd ac arall yn ddigonol. Mae NTSAG wedi galw ar y CoP i adolygu ei ganllawiau Taser i adnabod cyfleoedd i’w gwella a’u hegluro.

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi galw am hyfforddiant gwell, yn aml wrth gyfeirio at enghreifftiau o Taser yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd peryglus neu amhriodol fel arall. Mae rhai yn credu y gall hyfforddiant gwell fynd i’r afael ag anghyfartaledd ethnig, drwy roi dealltwriaeth well i swyddogion o wahaniaethu a sut mae lliniaru ei effeithiau.

Mae eraill wedi dadlau am ffocws ar iechyd meddwl fel rhan o hyfforddiant Taser, yn ogystal â sgiliau tawelu, cyfathrebu a gwrando a dangos parch. Mae rhai eisiau mwy o dryloywder ynghylch yr hyfforddiant y mae swyddogion yn ei gael, fel ein bod yn deall y negeseuon sy'n cael eu rhoi i swyddogion. Mae nifer o randdeiliaid (yn y gymuned a phlismona) wedi amlygu'r effaith gadarnhaol y gall mewnbwn cymunedol i hyfforddiant ei chael.

Mae NTSAG wedi dadlau am broses o archwilio hyfforddiant Taser i ddarparu sicrwydd ansawdd. Mae aelodau wedi dweud bod angen i hyfforddiant ymdrin yn gadarn â'r defnydd o Taser ar blant, a'r rheiny sydd wedi cymryd cyffuriau neu â phryderon iechyd meddwl, gan gynnwys eu gallu i ddeall cyfarwyddiadau, sut y gallent ymateb a sut y gall swyddogion gyfathrebu mewn modd nad yw'n fygythiol.

Mae'r grŵp hefyd wedi awgrymu bod mwy o eglurder yn ofynnol ynghylch pwy sy'n 'unigolyn bregus' a bod angen deall ac egluro mwy mewn hyfforddiant am risgiau meddygol, effaith y boen a achosir gan Taser, a risgiau Taser ac ataliaeth. Mae rhai aelodau o NTSAG yn credu bod diffyg dealltwriaeth gyffredinol o ystod y risgiau sy'n gysylltiedig â Taser ac, o ganlyniad, nid yw gwybodaeth bwysig yn cael ei darparu i swyddogion.

## 7.6 Tryloywder, craffu, monitro ac atebolrwydd

Mae rhanddeiliaid y siaradasom â nhw eisiau mynediad at ddata cenedlaethol a lleol gwell ar y defnydd o Taser, gan gynnwys ethnigrwydd y rheiny ynghlwm. Yn genedlaethol, mae ein rhanddeiliaid yn ymwybodol o ddata'r Swyddfa Gartref ar ddefnydd yr heddlu o rym ond maent wedi dweud wrthym ei bod yn anodd ei ddeall a'i lywio, gyda nifer o gysylltiadau a chyfyngiadau. Maent eisiau i'r data gael ei gyflwyno'n fwy clir mewn fformat syml a hawdd ei ddeall. Mae rhai rhanddeiliaid wedi nodi gwendidau yn y data a gasglwyd ac eisiau i fwy o wybodaeth gael ei chofnodi a'i chyhoeddi, yn cynnwys data ar ddefnydd lluosog a pharhaus o Taser a nifer yr unigolion sydd ynghlwm â'r digwyddiadau.

Mewn rhai ardaloedd lleol, dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod gan y llu swm sylweddol o ddata ond nad yw'n ei gyhoeddi ac nad yw'n hygyrch, sy'n atal neu'n llesteirio craffu gan y gymuned. Mae rhanddeiliaid hefyd eisiau mynediad at bolisïau a chanllawiau Taser lleol. Er bod rhai enghreifftiau cadarnhaol o fecanweithiau craffu mewnol ac allanol ar waith, awgryma adborth rhanddeiliaid fod dulliau yn anghyson rhwng lluoedd. Mewn rhai ardaloedd, mae rhanddeiliaid yn credu bod mecanweithiau o'r fath ar goll yn gyfan gwbl.

Mae'r rhanddeiliaid a'r grwpiau cymunedol y bu i ni ymgysylltu â nhw yn credu bod diffyg craffu cyffredinol ar y defnydd o Taser, ac nad yw swyddogion yn cael eu dwyn

i gyfrif am ddefnydd amhriodol. Mae amheuaeth o ymchwiliadau'r heddlu i gwynion, a chanfyddiadau nad ydynt yn dryloyw ac annibynnol.

Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym eu bod yn bryderus ein bod yn tueddu i weld digwyddiadau Taser pan mae rhywun wedi'i anafu, yn unig[162]. Dywedodd un rhanddeiliad fod pobl yn cael eu "cam-drin" mewn digwyddiadau Taser yn rheolaidd ac y dylem gael goruchwyliaeth o'r rhain. Dywedasant hefyd ei bod yn aneglur pryd y gall rhywun gwyno am y defnydd o Taser.

Mae sefydliad hawliau dynol cenedlaethol hefyd wedi codi pryderon am y diffyg mecanweithiau ar gael i ni, i allu deall yn llawn digwyddiadau lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le. Dywedodd ei fod yn bryderus am y lefelau isel o gwynion Taser, ac mai dim ond y digwyddiadau mwyaf difrifol a welwn, sy'n methu â darparu darlun clir i ni o'r defnydd o Taser.

Dywedwyd wrthym y gall methiannau i ymchwilio'n annibynnol i faterion o bwys i'r gymuned, niweidio hyder mewn atebolrwydd. Mae cymunedau lleol yn aml yn awyddus i gael dweud eu dweud a rhoi mewnbwn i'n hymchwiliadau. Sbardunir hyn weithiau gan ganfyddiadau ein bod yn dibynnu'n ormodol ar dystiolaeth yr heddlu ac arbenigwyr i lywio ein hymchwiliadau, ar draul y gymuned.

Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod cymunedau yn credu bod gennym "lawer o ddeialog a pherthnasoedd â'r heddlu" ac yn "aneffeithiol...ac yn gadael y gymuned heb fynediad at gyfiawnder". Ar ôl digwyddiadau penodol, mae cymunedau wedi codi pryderon am ddatganiadau a wnaed gan yr heddlu a ni, gan gynnwys lle bu cyfeiriadau at droseddau a gyflawnwyd gan yr unigolyn: ystyrir hyn yn ymgais i gyfiawnhau defnydd yr heddlu o rym ac osgoi atebolrwydd.

Er bod ein rhanddeiliaid yn cytuno bod dysgu yn nodwedd bwysig o graffu ac atebolrwydd, mae rhai yn amheugar am 'ddysgu rhethreg' ac eisiau gweld gweithredu. Fodd bynnag, mae nifer hefyd eisiau gweld swyddogion unigol yn cael eu cosbi am ddefnydd amhriodol o rym.

Gan gyfeirio at achos penodol, pwysleisiodd aelodau'r gymuned leol bwysigrwydd sicrhau bod y cyhoedd yn deall y meini prawf a ddefnyddir i asesu gweithredoedd swyddogion ac egluro'n glir y rhesymeg dros unrhyw ganlyniad yn dilyn ymchwiliad. Dywedasant y cwestiynir uniondeb ymchwiliad, heb hyn.

[162] Nid yw hyn yn hollol gywir. Rhaid i luoedd gyfeirio achosion lle mae unigolyn wedi marw neu ei anafu'n ddifrifol, ond gallwn ddod i wybod am ddigwyddiadau drwy ystod o ffyrdd eraill.

## 7.7 Rôl Taser mewn marwolaethau

Amlygodd INQUEST bryderon am y defnydd o Taser yn dilyn sawl marwolaeth yn y ddalfa. Gan ymateb i benderfyniad i ddod â chyhuddiadau troseddol yn erbyn swyddogion ynghlwm â marwolaeth Dalian Atkinson, dywedodd INQUEST fod ei farwolaeth yn codi pryderon 'o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, nid lleiaf ar adeg pan ydym yn gweld yr heddlu yn cael ei arfogi'n gynyddol â Tasers' [163].

Yn dilyn y cwest i farwolaeth Marc Cole (lle canfuwyd bod Taser wedi cyfrannu at ei farwolaeth), cyhoeddodd INQUEST ddatganiad i'r wasg[164] lle amlygodd anghyfartaledd yn nefnydd yr heddlu o rym yn erbyn pobl â salwch meddwl a'r rheiny sy'n feddw. Cwestiynodd a yw Taser yn dod 'opsiwn cyntaf nid yr olaf'. Mae'r datganiad hefyd yn dyfynnu chwaer Marc Cole, a alwodd, fel y Crwner, am adolygiad o Taser, yn benodol i ddeall y risgiau yn gysylltiedig ag amlygiad ailadroddus a pharhaus i Taser a phan gaiff ei ddefnyddio ar bobl sy'n feddw neu â phryderon iechyd meddwl.

Ym mis Tachwedd 2020, siaradasom ag aelodau teuluoedd y bu farw eu hanwyliaid yn dilyn digwyddiad yr heddlu yn cynnwys y defnydd o Taser. Siaradasant yn angerddol am eu pryderon a'r hyn y mae angen ei newid. Cyfeiriasant at ddiffyg rheoleiddio cyffredinol y defnydd o Taser, a dywedodd rhai nad oes ganddynt ffydd yn ein gallu i ddwyn swyddogion i gyfrif a hybu newid.

Un o'r prif bryderon y siaradodd aelodau'r teulu amdano oedd y diffyg dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o risgiau meddygol. Credant fod rhai swyddogion yn rhy barod i ddefnyddio Taser ac nad oes ganddynt werthfawrogiad o'r risgiau angheuol posibl. Codasant bryderon penodol am risgiau saethiadau lluosog a pharhaus, saethu â Taser yn agos iawn, a defnyddio Taser ar bobl â phryderon iechyd meddwl neu sy'n feddw.

Dywedasant hefyd fod mwy o wybodaeth yn ofynnol ar y risgiau cymharol yn dibynnu ar leoliad y dartiau Taser pan fyddant yn cysylltu â'r unigolyn. Mae aelodau'r teulu eisiau mwy o ymchwil i'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio Taser, fel y gellir rhoi cyngor diduedd i swyddogion mewn hyfforddiant, ymchwiliadau a rheithgorau cwest.

---

[163] Inquest. (7 Tachwedd 2019). Crown Prosecution Service announce murder and ABH charges against officers in connection with death of Dalian Atkinson. Cyrchwyd o https://www.inquest.org.uk/dalian-atkinson-cps

[164] Inquest. (28 Ionawr 2020). Inquest finds use of Taser by Devon and Cornwall Police contributed to death of Marc Cole when experiencing paranoia. Cyrchwyd o https://www.inquest.org.uk/marc-cole-close

Dywedodd aelodau'r teulu fod swyddogion yn "gwneud esgusodion" am farwolaethau drwy amlygu unrhyw broblemau meddygol oedd gan yr unigolyn, defnydd o gyffuriau a disgrifiadau o'r unigolyn yn dreisgar ac ymosodol. Dywedasant fod swyddogion yn dad-ddyneiddio pobl ac yn cam-gyfleu ffeithiau digwyddiad. Dywedodd un o aelodau'r teulu ei fod yn "ofnadwy" bod y CoP a'r Swyddfa Gartref yn diystyru galwadau am adolygiad o Taser i ddeall y risgiau'n well, a chyflwyno model newydd o Taser ymhen misoedd.

Dywedodd un aelod teulu nad yw lluoedd yn dryloyw am gyhoeddi data, yn cynnwys ar ethnigrwydd. Cododd un arall bryderon am swyddogion yn methu â rhoi eu fideo camera ar y corff ymlaen ar ddechrau rhyngweithiad. Roedd aelodau'r teulu i gyd yn cytuno bod swyddogion yn "gweithredu heb gosb" ac nad ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif am eu rôl mewn marwolaethau. Dywedodd un yn syml, "maent yn ei wneud oherwydd y gallant osgoi gael eu cosbi ac yn dibynnu ar ddisgrifiadau o'r unigolyn yn ymosodol". Dywedasant hefyd fod rhaid i gyfathrebu ac ymgysylltu â theuluoedd wella.

## 7.8 Cynyddu'r defnydd o Taser

Mae pryder mawr fod data'r Swyddfa Gartref yn dangos cynnydd blynyddol sylweddol yn y defnydd o Taser a bod nifer cynyddol o swyddogion yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio Taser. Mae Amnesty wedi codi pryderon am Tasers yn dod yn "norm" ar gyfer plismona o ddydd i ddydd ac mae wedi galw ar y cyhoedd i wrthsefyll y galwadau "parhaus" i bob swyddog gario un. Mae wedi dadlau y bydd mwy o Tasers yn arwain at "fwy o gamgymeriadau, camddefnydd a thrasiedi", a mynegi pryderon am "orddefnydd" yn erbyn pobl o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny â phryderon iechyd meddwl[165].

Disgrifodd Liberty gyhoeddiad y Llywodraeth yn 2019 y byddai'n cyllido cynnydd yn nifer y swyddogion Taser fel 'ymateb difeddwl', gan adlewyrchu 'diffyg ystyriaeth bwriadol' o'r peryglon y gall Taser eu peri, ac y bydd arfogi pob swyddog yn 'normaleiddio [ei ddefnydd] mewn cysylltiadau rheolaidd â'r heddlu, sy'n risgio dwysáu, yn hytrach na lleihau, trais...a bydd yn gwanhau ymhellach y berthynas doredig rhwng yr heddlu a'r cymunedau a wasanaethwn"[166]. Dywedodd y dylid cyfyngu'r defnydd o Tasers i swyddogion arfau tanio arbenigol a chyfeiriodd at ddefnydd anghyfartal yn erbyn 'pobl groendywyll', pobl â phryderon iechyd meddwl ac enghreifftiau o ddefnydd yn erbyn plant.

Ym mis Awst 2020, cyhoeddwyd bod model Taser newydd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae canfyddiad bod y 'Taser 7' newydd yn peri sawl risg unigryw[167] wedi gwaethygu pryderon ymhlith rhai rhanddeiliaid.

Ddyddiau ar ôl y cyhoeddiad, dywedodd aelodau'r gymuned wrthym eu bod yn bryderus yn sgil adroddiadau bod y ddyfais newydd yn fwy poenus. Roeddent hefyd yn anhapus am y diffyg ymgysylltu â'r gymuned cyn awdurdodi, a chyflwyniad dyfais newydd pan mae pryderon cymunedol presennol am y defnydd o Taser na ymdrinnir â nhw.

Mae NTSAG wedi dadlau y dylai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a chymdeithas, yn cynnwys asesiadau o'r effaith ar hawliau plant a chyfranogiad y gymuned ffurfio rhan o'r broses awdurdodi ar gyfer dyfeisiau Taser newydd. Mae

---

165 Amnesty International UK. (13 Rhagfyr 2018). UK: Public should 'resist drum-beat of calls for all police to carry a Taser'. Cyrchwyd o https://www.amnesty.org.uk/press-releases/uk-public-should-resist-drum-beat-calls-all-police-carry-taser

166 Liberty. (27 Medi 2019). Liberty responds to government mass taser rollout. Cyrchwyd o https://www.libertyhumanrights.org.uk/issue/liberty-responds-to-government-mass-taser-rollout/

167 SACMILL. (16 Gorffennaf 2020). Datganiad ar Oblygiadau Meddygol TASER 7™ System Dyfais Ynni Wedi'i Ddargludo. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/911328/20200716_SACMILL_TASER_7_Medical_Statement_Final_HoC_Library.pdf

hefyd wedi dweud bod rhaid archwilio ymhellach y risgiau eraill a nodwyd gan SACMILL.

# 8. Argymhellion

Rydym wedi gwneud 17 o argymhellion mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad. Gwnaethom ymgysylltu â nifer o randdeiliaid fel rhan o'r trafodaethau ynghylch yr argymhellion hyn, a diolchwn iddynt am eu hadborth adeiladol a defnyddiol. Mae'r argymhellion wedi'u targedu at randdeiliaid plismona ac maent yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- hyfforddiant a chanllawiau
- craffu ar, a monitro'r defnydd o Taser
- ymgysylltiad a mewnbwn cymunedol

## 8.1 Canllawiau a hyfforddiant

### Argymhelliad 1: I'r Coleg Plismona

**Adolygu'r canllawiau Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ar Taser, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, i adnabod cyfleoedd i egluro, ehangu ar, a gwella canllawiau presennol ar gael i'r cyhoedd, yn benodol mewn perthynas â:**

**a) y mathau o sefyllfaoedd lle byddai'r defnydd o Taser yn briodol ac amhriodol, yn cynnwys ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl a phlant bregus**
**b) risgiau Taser a sut y gall swyddogion asesu risgiau a'u lliniaru**
**c) atgyfnerthu na ddylid defnyddio Taser er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddiadau neu weithdrefnau lle nad oes bygythiad, neu mae'r bygythiad wedi'i leihau'n sylweddol**

**Nodiadau i argymhelliad 1**

i. Dengys data'r Swyddfa Gartref fod y nifer o weithiau y defnyddiwyd Taser wedi cynyddu, gyda Taser yn cael ei ddefnyddio mewn oddeutu 32,000 o ddigwyddiadau yn 2019/20. Defnyddiwyd Taser mewn 5% o bob digwyddiad lle defnyddiwyd grym yn 2017/18 a 2018/19, a 7% o ddigwyddiadau yn 2019/20.
ii. Mae APP yn cynnwys rhestr o ffactorau risg a allai effeithio ar y defnydd gweithredol o Taser, sy'n cynnwys saethiadau lluosog a/neu barhaus, pobl a phlant bregus. Er bod hyfforddiant Taser yn pwysleisio'r ystyriaethau sy'n berthnasol i ffactorau risg, ni ddarperir rhagor o fanylion yr APP ei hun.
iii. O'r 94 o bobl ynghlwm â saethiadau Taser, saethwyd at dros hanner fwy nag unwaith a saethwyd at ychydig o dan draean yn barhaus. Roedd iechyd meddwl,

cyffuriau ac alcohol yn nodweddion cyffredin yn ein hymchwiliadau. Roedd aflonyddwch ymddygiadol acíwt yn nodwedd yn nifer o’n hymchwiliadau.

iv. Nodasom broblemau posibl gyda Taser yn cael ei ddefnyddio er mwyn cydymffurfio ym mron chwarter yr achosion a adolygasom. Canfuom mewn rhai achosion, fod swyddogion wedi methu ag adnabod, ac o ganlyniad methu ag ystyried, sut y gallai bregusrwydd unigolyn effeithio ar ei allu i ddeall a chydymffurfio â chyfarwyddiadau.

v. Mae gwahaniaeth rhwng disgwyliadau rhai rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol ynghylch yr amgylchiadau lle dylid defnyddio Taser a chanllawiau a hyfforddiant presennol. Mae gan rai sefydliadau cenedlaethol, academyddion ac aelodau o’r gymuned bryderon y gallai Taser gael ei ddefnyddio fel opsiwn diofyn lle gallai opsiynau tactegol eraill fod yn fwy effeithiol.

## Argymhelliad 2: I’r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Adolygu, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, pa mor effeithiol yw hyfforddiant presennol wrth sicrhau bod swyddogion yn deall pwysigrwydd asesu’r amgylchedd o’u hamgylch ac ystyried unrhyw risg o anaf i’r unigolyn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag a ddylid defnyddio Taser - yn benodol mewn perthynas ag unigolion bregus. Er enghraifft, pobl, plant â phryderon iechyd meddwl, neu’r rhai hynny o dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol neu’n dangos arwyddion o aflonyddwch ymddygiadol acíwt.**

### Nodiadau ar argymhelliad 2

i. Rydym yn cydnabod y darperir canllawiau a hyfforddiant i swyddogion ar asesiadau risg. Fodd bynnag, roedd 14 o’r achosion a adolygasom yn cynnwys y defnydd o Taser mewn lleoliadau neu amgylchiadau peryglus, gan gynnwys lle’r oedd yr unigolyn ar uchder neu ym mhresenoldeb deunyddiau fflamadwy.

ii. Canfuom dystiolaeth nad oedd swyddogion wedi ystyried yn ddigonol y risg bosibl o anaf i unigolion, yn seiliedig ar yr amgylchedd a bregusrwydd unigolion, fel rhan o’u hasesiad risg parhaus. Mae hyn yn codi cwestiynau am effeithiolrwydd gweithredu hyfforddiant a chanllawiau presennol. Rhaid cydbwyso diogelwch swyddogion a’r angen i ddelio ag unrhyw fygythiad a berir gan unigolyn yn erbyn y risg o anaf iddo, yn benodol pan fo ganddo fregusrwydd arall.

## Argymhelliad 3: I’r Coleg Plismona

**Gwerthuso effaith y canllawiau rheoli gwrthdaro newydd ar ymarfer plismona ac a ydynt yn rhoi digon o bwyslais ar dechnegau cyfathrebu a thawelu, yn benodol wrth ddelio â phobl o grwpiau bregus yn cynnwys plant. Dylai canfyddiadau’r gwerthusiad lywio unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i’r canllawiau a dylid eu cyhoeddi i helpu i lywio gwaith rhanddeiliaid perthnasol.**

**Nodiadau i argymhelliad 3**

i. Yn ein hadolygiad o Taser yn 2014, dywedasom fod rhaid rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu a thawelu i osgoi defnydd cyflym a diangen, o bosibl, o rym. Rydym yn croesawu cyflwyniad canllawiau rheoli gwrthdaro newydd y CoP a’r hyfforddiant arfaethedig i’w cefnogi.
ii. Mewn ychydig o dan draean o’r achosion a ddadansoddwyd gennym, nodasom gyfleoedd a gollwyd i swyddogion dawelu sefyllfaoedd. Golyga hyn, yn ystod digwyddiad, fod cyfleoedd i swyddogion ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a negodi i ddatrys sefyllfa yn hytrach na defnyddio grym.
iii. Mewn traean o’n hachosion, gwnaeth swyddogion sylwadau amhriodol neu gyfathrebu’n amhriodol yn ystod y digwyddiad.

## Argymhelliad 4: I’r Coleg Plismona

**Sicrhau bod hyfforddiant Taser yn rhoi dealltwriaeth i swyddogion o anghyfartaledd o ran hil yn y defnydd o Taser, ac effaith hyn ar hyder y cyhoedd a chysylltiadau cymunedol â’r heddlu. Dylai’r hyfforddiant hefyd roi dealltwriaeth gadarn i swyddogion o’r ffordd y mae anghyfartaledd o ran y defnydd o Taser yn ymwneud â’r cyd-destun ehangach a hanesyddol yn gysylltiedig â phlismona cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a pherthynas yr heddlu â’r cymunedau hyn. Dylai cynrychiolwyr y cymunedau yr effeithir fwyaf arnynt gan anghyfartaledd o ran hil yn y defnydd o Taser ddarparu mewnbwn i ddatblygiad hyfforddiant a’i ddarpariaeth.**

**Nodiadau i argymhelliad 4**

i. Yn 2019/20, dangosodd ystadegau’r Swyddfa Gartref fod pobl Ddu wyth gwaith yn fwy tebygol o gael eu saethu â Taser na phobl Wyn. Roedd pobl Ddu wedi’u cynrychioli’n anghyfartal yn ein hymchwiliadau.
ii. Dengys ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ei fod yn cael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd a chysylltiadau cymunedol â’r heddlu. Mae defnydd anghyfartal o Taser yn erbyn pobl Ddu yn fwy nag ydyw mewn digwyddiadau defnydd o rym yn gyffredinol. Mae’r lefelau o anghyfartaledd yn y defnydd o Taser yn cyd-fynd â

stopio a chwilio; ac ystyrir yr anghyfartaledd mewn stopio a chwilio fel achos niwed sylweddol i hyder y cyhoedd.

iii. Er yr ymdrinnir â hil ac anghyfartaledd mewn hyfforddiant i swyddogion, nid yw anghyfartaledd mewn perthynas â'r defnydd o Taser wedi'i gynnwys mewn hyfforddiant Taser. I ailadeiladu hyder a chysylltiadau cymunedau, rhaid i swyddogion Taser hyfforddedig ddeall y lefelau o anghyfartaledd a'r effaith y gall hyn ei chael. Gellir cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy wrando ar y cymunedau hyn a rhoi cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd gyfrannu at ddatblygu a darparu hyfforddiant.

## Argymhelliad 5: I'r Coleg Plismona

**Sicrhau y diweddarir rhanddeiliaid perthnasol am weithrediad y cynllun sicrhau ansawdd arfaethedig ar gyfer hyfforddiant Taser. Dylid hefyd ystyried sut y gall y cynllun gynnwys goruchwyliaeth annibynnol, a sut y diweddarir rhanddeiliaid am gynnydd.**

### Nodiadau i argymhelliad 5

i. Ar hyn o bryd, nid oes cynllun sicrhau ansawdd ffurfiol i sicrhau bod hyfforddiant Taser yn cael ei ddarparu'n gyson yn unol â'r cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym ar ddeall y cynhelir asesiadau sicrhau ansawdd o hyfforddiant yn dilyn marwolaeth neu anaf difrifol, neu os yw llu penodol yn cysylltu ag ysgrifenyddiaeth arfau llai angheuol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae NTSAG wedi galw am broses o archwilio hyfforddiant Taser yn annibynnol i ddarparu sicrwydd ansawdd.

ii. Ar hyn o bryd, mae'r CoP yn sefydlu cynllun sicrwydd ac yn recriwtio staff i ddarparu swyddogaeth hon. Credwn y bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ynghylch gweithredu a gwaith y cynllun hwn yn helpu i ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd a chysondeb hyfforddiant Taser.

iii. Dylai rhanddeiliaid perthnasol gynnwys NTSAG a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

iv. Awgryma ein hachosion y gallai fod yn rhagdybiaeth ymhlith swyddogion mai Taser yw'r defnydd lleiaf o rym a lleiaf niweidiol ar gael iddynt. Canfuom dystiolaeth y gallai rhai swyddogion fod yn dibynnu ar y rhagdybiaethau hyn ar draul ystyried yn llawn y risgiau sy'n bresennol mewn amgylchiadau penodol a'r ffurfiau eraill ar rym ar gael iddynt. Er bod tystiolaeth i awgrymu y gallai Taser fod yn llai tebygol o beri anaf na ffurfiau eraill ar rym mewn amgylchiadau penodol, nid dyma'r achos yn yr holl amgylchiadau, yn benodol lle mae ffactorau risg eraill. Rydym yn gwerthfawrogi'r angen i sicrhau'r cydbwysedd cywir. Fodd bynnag, mae angen i swyddogion allu asesu'n ddigonol y risgiau yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, yn benodol lle mae nifer o ffactorau risg eraill yn bresennol.

## Argymhelliad 6: I’r Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

**Parhau i fonitro’r defnydd o Taser yn genedlaethol a lleol yn y modd tanio llonyddu ac annog yn erbyn swyddogion yn defnyddio Taser yn y modd hwn.**

**Nodiadau i argymhelliad 6**

i. Yn ein hadolygiad o Taser yn 2014, amlygwyd gennym fod y modd tanio llonyddu yn dal i gael ei ddefnyddio, er gwaethaf y ffaith nad oedd hynny’n cael ei addysgu mewn hyfforddiant mwyach, oherwydd ei fod yn aneffeithiol wrth gyflawni analluogrwydd niwrogyhyrol. Pwysleisiwyd gennym bwysigrwydd sicrhau na ddefnyddir Taser fel arf cydymffurfio’n unig.
ii. Mae’n gadarnhaol bod cynnydd wedi’i wneud wrth leihau’r defnydd o Taser yn y modd tanio llonyddu.
iii. Dylid nodi, er hynny, o’r 15 o bobl y saethwyd atynt yn y modd tanio llonyddu neu’r modd tanio llonyddu ar ongl yn ein hachosion, saethwyd at bump yn barhaus yn y modd hwn. Mewn tri achos, lle saethwyd at unigolion yn y modd tanio llonyddu neu’r modd tanio llonyddu ar ongl, codwyd pryderon am y defnydd posibl o Taser er mwyn cydymffurfio.
iv. Dylai swyddogion geisio tawelu sefyllfaoedd cyn troi at ddefnyddio’r modd tanio llonyddu ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig. Dylai’r defnydd o’r modd tanio llonyddu gael ei herio’n gadarn, ac yn unol ag APP, ei atgyfeirio’n wirfoddol i’r IOPC.

## Argymhelliad 7: I’r Coleg Plismona a’r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys

**Adolygu canllawiau’r Coleg Plismona, APP a’r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys ar ddefnyddio Taser ar rywun sy’n arddangos symptomau aflonyddwch ymddygiadol acíwt mewn adran ddamweiniau ac achosion brys, i osgoi negeseuon anghyson posibl yn cael eu rhoi i swyddogion ac ymarferwyr meddygol. Dylid adolygu’r canllawiau yn rheolaidd ac, os oes angen, eu diweddaru i adlewyrchu ymchwil newydd.**

**Nodiadau i argymhelliad 7**

i. Ysgrifennir setiau priodol o ganllawiau i broffesiynau gwahanol. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod gan swyddogion ac ymarferwyr meddygol ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd mewn digwyddiad yn cynnwys rhywun sy’n

arddangos symptomau aflonyddwch ymddygiadol acíwt mewn adran ddamweiniau ac achosion brys.

ii. Rydym ar ddeall y bwriedir adolygu canllawiau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM). Argymhellwn fel rhan o'r adolygiad hwn, y risgiau posibl o ddefnyddio Taser ar rywun sy'n dioddef aflonyddwch ymddygiadol acíwt, y cyfeirir atynt yn y paragraff canlynol: 'Mae ymchwil annigonol ar effeithiau Taser ar aflonyddwch ymddygiadol acíwt. Fodd bynnag, gallai ei ddefnyddio fel dull cyflym o dynnu rhywun i lawr i gyfyngu ar yr amser atal a gweithgarwch a chaniatáu ar gyfer ymyrraeth feddygol gyflym fod yn angenrheidiol ar ôl i ddulliau anghorfforol fethu.'

iii. Mae APP ar gadw a'r ddalfa yn cynnwys dolen i Ganllawiau Arfer Gorau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys ar gyfer Rheoli Deliriwm Cynhyrfus ac Aflonyddwch Ymddygiadol Acíwt.

## 8.2 Craffu a monitro

### Argymhelliad 8: I'r Swyddfa Gartref

**Adolygu casglu, coladu a chyflwyno data defnydd o rym, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, i sicrhau ei fod yn hygyrch, diwallu anghenion defnyddwyr a helpu i wella hyder y cyhoedd yn nefnydd yr heddlu o rym drwy fwy o dryloywder. Credwn fod cyfleoedd i ddarparu mwy o eglurder a gwybodaeth yn y meysydd canlynol:**

**a) cysylltu digwyddiadau i nodi nifer yr unigolion ynghlwm â digwyddiad**
**b) nodi defnydd lluosog mewn un digwyddiad**
**c) nodi pob defnydd o Taser, nid y defnydd 'uchaf', fel bod er enghraifft, y modd tanio llonyddu yn cael ei nodi mewn achosion lle defnyddir y modd tanio llonyddu a saethir dartiau**
**d) y rhyngblethedd rhwng nodweddion gwarchodedig e.e. dadansoddiad o'r defnydd o Taser yn ôl oedran ac ethnigrwydd, iechyd meddwl ac ethnigrwydd etc**
**e) lle bo'n bosibl, bod swyddogion yn gofyn i unigolion ddarparu gwybodaeth hunanddiffiniedig, yn cynnwys oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. Lle gwrthodir hyn neu nid yw'n bosibl fel arall, dylid cofnodi gwybodaeth a ddiffinnir gan swyddog**

**Nodiadau i argymhelliad 8**

i. Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o ddata'r Swyddfa Gartref ar ddefnydd yr heddlu o rym ond maent wedi dweud wrthym ei bod yn anodd ei ddeall a'i lywio, gyda nifer o gysylltiadau a chyfyngiadau. Dymunant gael mynediad at ddata

cenedlaethol gwell ar y defnydd o Taser, sydd wedi'i ddadgyfuno i alluogi mwy o graffu gan y gymuned.

ii. Gellid cyflwyno data'r Swyddfa Gartref yn llawer mwy clir. Er enghraifft, mae canllawiau ar ddehongli'r data wedi'u nodi mewn dogfennau gwahanol. Mae cyfyngiadau â'r data ei hun. Er enghraifft, ni chynhwysir data am saethiadau lluosog neu barhaus. Credwn y dylai swyddogion geisio cael unigolion i hunanddiffinio eu nodweddion lle bynnag y bo'n bosibl, i wella cywirdeb y data.

iii. Rydym yn ymwybodol o waith parhaus i wella data'r Swyddfa Gartref. Er bod heriau mawr wrth nodi pob defnydd o Taser, dylid archwilio cyfleoedd i ddarparu mwy o eglurder a gwybodaeth fel rhan o'r gwaith parhaus hwn. Dylai data'r Swyddfa Gartref barhau i gael ei ddefnyddio i lywio polisi, hyfforddiant a chanllawiau cenedlaethol.

## Argymhelliad 9: I Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Sicrhau mwy o graffu ar, a monitro'r defnydd o Taser ar lefel leol a chenedlaethol i wella hyder y cyhoedd yn ei ddefnydd a sicrhau rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol o weithredoedd a phenderfyniadau a wneir i fynd i'r afael â phryderon.**

a) **Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Dirprwy Feiri Plismona a Throseddu yn ogystal â lluoedd sicrhau prosesau mewnol effeithiol ar gyfer monitro a chraffu ar y defnydd o Taser, yn benodol ei ddefnydd yn erbyn grwpiau penodol, yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl â phryderon iechyd meddwl a phlant. Dylid gwneud gwaith craffu o'r fath drwy ddadansoddi data Taser, adolygiadau rheolaidd o gamera ar y corff a phrofi ar hap.**

b) **Dylai lluoedd gyhoeddi data Taser lleol yn rheolaidd ar eu gwefannau mewn fformat hygyrch a, lle mae patrymau defnydd pryderus, yn cynnwys anghyfartaledd, ceisio egluro achosion hyn ac amlinellu unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion a nodwyd. Dylid safoni hyn i fformat y cytunwyd arno'n genedlaethol, y dylid ei adolygu'n barhaus i asesu cynnydd.**

c) **Lle mae materion sy'n peri pryder neu gyfleoedd ar gyfer gwella wedi'u nodi mewn digwyddiadau penodol, dylid rhaeadru'r rhain i heddluoedd a rhanddeiliaid eraill i wneud y mwyaf o ddysgu ar lefel genedlaethol.**

**Nodiadau i argymhelliad 9**

i. Rydym yn ymwybodol o bryder cymunedol cynyddol am y defnydd o Taser ac wedi galw am fwy o graffu ar, a monitro’r defnydd o Taser i fynd i’r afael â phryderon a darparu sicrwydd.
ii. Rydym yn ymwybodol bod canllawiau wedi’u cyhoeddi i luoedd ynghylch craffu ar, a monitro’r defnydd o Taser ac, ym mis Medi 2016, y cyhoeddwyd cylchlythyr yn nodi y dylai lluoedd graffu mwy mewn perthynas â digwyddiad yn cynnwys pobl â phryderon iechyd meddwl. Fodd bynnag, awgryma adborth rhanddeiliaid fod dulliau yn anghyson rhwng lluoedd. (Gweler Pennod 6) Heb dryloywder digonol ynghylch, a chraffu ar, a monitro’r defnydd o Taser, bydd ymdrechion i gynyddu hyder y cyhoedd yn nefnydd yr heddlu o Taser yn gyfyngedig.
iii. Noda canllawiau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar y ffurflen fonitro defnydd o rym lle mae marwolaeth neu anaf difrifol wedi digwydd ac arf llai angheuol wedi’i ddefnyddio, rhaid rhoi gwybod i SACMILL. Mae’r IOPC bron â gorffen gweithio ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â SACMILL a fydd yn galluogi hyn.

## Argymhelliad 10: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Dylai heddluoedd sefydlu a chefnogi mecanweithiau i sicrhau y gall aelodau’r gymuned oruchwylio a chraffu ar y defnydd o Taser yn lleol, yn benodol ei ddefnydd yn erbyn grwpiau penodol, yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl â phryderon iechyd meddwl a phlant. Dylai lluoedd ymgysylltu â’u cymunedau i bennu a hoffai’r gymuned i hyn fod ar ffurf paneli craffu, a allai ganolbwyntio ar y defnydd o Taser, y defnydd o rym yn fwy cyffredinol, neu feysydd o blismona lle mae anghyfartaledd o ran hil, yn dibynnu ar ddymuniadau’r gymuned. Dylai paneli o’r fath:**

**a) gael eu cadeirio’n annibynnol gael aelodau’r cyhoedd**
**b) bod yn adlewyrchiadol o’r gymuned, yn cynnwys y grwpiau hynny yr effeithir fwyaf arnynt gan y defnydd o Taser**
**c) bod yn agored a hygyrch i aelodau’r cyhoedd, yn benodol y rhai hynny â llai o hyder yn yr heddlu megis y rhai hynny o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc**
**d) cael mynediad at ddata Taser lleol, recordiad fideo camera ar y corff a chanllawiau a hyfforddiant priodol**

**Nodiadau i argymhelliad 10**

i. Gall y defnydd o Taser fod yn fater dadleuol sy’n ennyn cryn bryder yn y gymuned. Rhaid rhoi cyfleoedd i gymunedau adolygu a goruchwylio’r defnydd o Taser, darparu adborth i heddluoedd a dylanwadu ar bolisïau ac arferion.

ii. Archwiliodd adroddiad ‘Stopio a Chraffu: Sut mae gwella craffu’r gymuned ar stopio a chwilio’ y Cynghrair Cyfiawnder Troseddol sut mae paneli craffu cymunedol ar stopio a chwilio yn gweithredu ar hyn o bryd. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion i wella eu heffeithiolrwydd, yn cynnwys yr angen i baneli o’r fath gael eu cadeirio’n annibynnol, bod yn gynrychioladol o’u cymunedau, cael mynediad at ystod eang o ddata a gwybodaeth, a bod yn agored a gweladwy i’r cyhoedd.
iii. Gall Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Dirprwy Feiri ar gyfer Plismona, ar y cyd â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, gefnogi arferion gorau a helpu i sicrhau cysondeb.

## Argymhelliad 11: I’r Swyddfa Gartref

**Gweithio â phartneriaid, yn cynnwys Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, i archwilio trefniadau lleol presennol o ran monitro a chraffu ar y defnydd o Taser, gyda’r nod o asesu’r angen am safon ofynnol genedlaethol ar gyfer monitro a chraffu ar Taser.**

**Nodiadau i argymhelliad 11**

i. Credwn fod gweithredu safon ofynnol genedlaethol ar gyfer monitro a chraffu ar y defnydd o Taser yn darparu cyfleoedd i sicrhau cysondeb ar draws lluoedd a chynyddu hyder y cyhoedd. Yn ddiweddar, mae HMICFRS wedi gwneud argymhelliad tebyg mewn perthynas â stopio a chwilio. O ystyried y gall Taser, fel stopio a chwilio, fod yn achos pryder mawr i rai cymunedau, yn benodol ynghylch anghyfartaledd, credwn fod gwerth cymryd agweddau tebyg.

## Argymhelliad 12: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Rhaid i luoedd sicrhau bod mecanweithiau monitro a chraffu effeithiol ar waith mewn perthynas â’r defnydd o Taser mewn lleoliadau a reoleiddir, megis y ddalfa a lleoliadau meddygol. Dylai lluoedd sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol y bydd defnydd o’r fath yn ddarostyngedig i fwy o graffu. Yn unol ag APP, rhaid i luoedd asesu a ddylid atgyfeirio unrhyw ddefnydd o Taser mewn lleoliad a reoleiddir i’r IOPC.**

**Nodiadau i argymhelliad 12**

i. Er gwaethaf y nifer gymharol fechan o achosion yn cynnwys y defnydd o Taser yn y ddalfa neu mewn lleoliadau meddygol a adolygasom, rydym yn parhau'n bryderus am y digwyddiadau hyn. Dengys data'r Swyddfa Gartref fod Tasers wedi cael eu defnyddio cannoedd o weithiau yn y lleoliadau hyn yn 2019/20, yn cynnwys dros 100 o saethiadau. Nododd adroddiad Defnydd Anghyfartal o Bwerau'r Heddlu: Cipolwg ar Stopio a Chwilio a'r Defnydd o Rym, HMICFRS, fod canfyddiadau o'u rhaglen arolygiadau dafla yn dangos yn gyffredinol bod llywodraethu a goruchwylio'r defnydd o rym yn nalfa'r heddlu yn annigonol. Amlygodd fod data a gwybodaeth sy'n sail i unrhyw oruchwyliaeth o'r fath yn brin ac yn aml yn anghywir.

### Argymhelliad 13: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Rhaid i luoedd sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer monitro a chraffu cadarn ar y defnydd o Taser yn erbyn plant. Dylai lluoedd sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol y bydd defnydd o'r fath yn ddarostyngedig i fwy o graffu. Yn unol ag APP, rhaid i luoedd asesu a ddylid atgyfeirio unrhyw ddefnydd o Taser ar blentyn i'r IOPC.**

**Nodiadau i argymhelliad 13**

i. Er gwaethaf y nifer gymharol fechan o achosion a adolygasom yn cynnwys y defnydd o Taser ar blant, dengys data'r Swyddfa Gartref y defnyddiwyd miloedd o weithiau ar bobl yr ystyrid eu bod o dan 18 oed, ac y saethwyd dros 100 o weithiau.
ii. Amlygodd adroddiad 2014 Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) bryderon am y defnydd o Taser ar bobl ifanc.
iii. Mae rhanddeiliaid yn pryderu'n gynyddol am yr ymchwil gyfyngedig ynghylch risgiau corfforol a seicolegol defnyddio Taser ar blant.

## 8.3 Data ac ymchwil

### Argymhelliad 14: I Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Datblygu cynlluniau i ymgymryd ag ymchwil genedlaethol annibynnol i ddeall yn well y defnydd o Taser ar bobl o leiafrifoedd ethnig - a phobl Ddu, yn benodol. Dylai'r ymchwil hon:**

**a) gymharu nifer y saethiadau lluosog a pharhaus mewn digwyddiadau yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gyda'r rhai hynny yn cynnwys pobl Wyn ac archwilio'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau**

**b) archwilio pam mae swyddogion yn fwy tebygol o estyn neu anelu Taser pan fo'r unigolyn yn Ddu ond nid yn fwy tebygol o'i danio**
**c) ystyried rhyngblethedd, yn benodol hil ag oedran, rhywedd ac iechyd meddwl**
**d) archwilio'r graddau y gall rhagfarnau, tueddiadau a rhagdybiaethau cymdeithasol egluro cyfraddau anghyfartaledd**
**e) ystyried goblygiadau defnydd anghyfartal ar ganfyddiadau'r cyhoedd o'r heddlu**
**f) llywio gweithredoedd posibl i fynd i'r afael ag anghyfartaledd yn y defnydd o Taser yn erbyn pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig fel y gellir cyd-gynhyrchu a phrofi datrysiadau**
**g) yn dilyn cwblhau'r ymchwil hon, rhaid i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y gweithredoedd a nodwyd**

**Nodiadau i argymhelliad 14**

i. Pryderon am wahaniaethu ar sail hil ac anghyfartaledd yw un o'r materion mwyaf cyffredin a godwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r defnydd o Taser. Mae grwpiau cymunedol wedi codi pryderon gyda ni am y plismona anghyfartal o'u cymunedau o'i gymharu â grwpiau hiliol eraill ac effaith tuedd hiliol sy'n dylanwadu ar gredoau, gweithredoedd a phenderfyniadau swyddogion.
ii. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi comisiynu ymchwil i ystyried anghyfartaledd yn y defnydd o Taser. Awgryma ein canfyddiadau fod hwn yn gyfle i faterion a amlinellwyd gennym uchod gael eu hystyried.
iii. Mae'n hollbwysig fod yr ymchwil hon yn gadarn a bod canfyddiadau yn ei sgil yn cael eu cyhoeddi a'u defnyddio i lywio polisi, hyfforddiant, canllawiau ac arferion cenedlaethol. Rhaid monitro'r gweithredoedd a nodir, gwerthuso eu heffaith ac adrodd arnynt.

## Argymhelliad 15: I'r Swyddfa Gartref

**Comisiynu:**

**a) chwiliad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth ar y defnydd o Taser ar y rhai hynny sy'n profi aflonyddwch ymddygiadol acíwt neu bryderon iechyd meddwl, i lywio gwerthusiadau yn y dyfodol o oblygiadau meddygol Taser**
**b) ymchwil tymor hwy i risgiau saethiadau Taser parhaus a/neu ailadroddus**
**c) ymchwil i'r effaith seicolegol y gall Taser ei chael ar grwpiau penodol o bobl**

**Nodiadau i argymhelliad 15**

i. Dylai canfyddiadau'r ymchwil hon gael eu cyhoeddi a'u defnyddio i lywio gwerthusiad yn y dyfodol o oblygiadau meddygol Taser.
ii. Dylai grwpiau penodol gynnwys pobl fregus, megis y rheiny sy'n profi salwch meddwl neu anableddau dysgu, a phlant

## 8.4 Ymgysylltiad a mewnbwn cymunedol

### Argymhelliad 16: I Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Cefnogi diwylliant lle mae cymunedau lleol, yn benodol y rhai hynny sydd â llai o hyder yn yr heddlu yn hanesyddol, yn cael eu hannog i gyfrannu at benderfyniadau'r llu ynghylch y defnydd o Taser ac yn cael cyfleoedd i lywio polisi, arferion, canllawiau a hyfforddiant y llu. Dylai lluoedd sicrhau bod y gymuned yn deall sut mae ei mewnbwn wedi dylanwadu ar y meysydd hyn.**

**Nodiadau i argymhelliad 16**

i. Dengys ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid y dymuna rhanddeiliaid cymunedol gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dylid ymgynghori â chymunedau ar unrhyw newidiadau i bolisïau, canllawiau, hyfforddiant neu unrhyw beth sy'n newid y ffordd y caiff Tasers eu defnyddio yn eu cymunedau. Dylid gwrando a gweithredu ar unrhyw bryderon i fynd i'r afael â nhw. Gall y math hwn o ymgysylltu ystyrlon helpu i gynyddu hyder bod y defnydd o Taser yn unol â disgwyliadau'r gymuned a'r cyhoedd a bod goruchwyliaeth gymunedol briodol.

### Argymhelliad 17: I Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Adolygu strategaethau cyfathrebu a'r cyfryngau i sicrhau bod naratif ynghylch y defnydd o Taser yn cydnabod dilysrwydd pryderon y gymuned mewn perthynas â Taser a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar hyder y cyhoedd mewn plismona.**

**Nodiadau i argymhelliad 17**

i. Pryderon am wahaniaethu ar sail hil ac anghyfartaledd yw un o'r materion mwyaf cyffredin a godwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r defnydd o Taser. I rai cymunedau, mae'r defnydd anghyfartal o Taser yn erbyn pobl Ddu a'i ddefnydd ar bobl â phryderon iechyd meddwl yn tanseilio hyder

mewn plismona yn sylweddol. Mae mabwysiadu neges gref a chlir bod lluoedd yn cydnabod y broblem ac wedi ymrwymo o ddifrif i weithio â chymunedau i fynd i'r afael ag ef, yn cynnig y cyfle i blismona ail-lunio barn bresennol a gwella hyder y cymunedau hyn.

I ddysgu mwy am ein gwaith neu i wneud cais am yr adroddiad hwn ar ffurf arall, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU

Ffôn: 0300 020 0096
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: www.policeconduct.gov.uk
Cyfnewid testun: 18001 020 8104 1220

We welcome telephone calls in Welsh
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

Cyhoeddwyd Awst 2021

ISBN 978-1-9161845-5-8

© IOPC 2021

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material on this site as belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE